Yn Y Ffynnon Arian: Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled, cyf. 1 (1996), ceisiwyd cyflwyno darlun o ddiwylliant un ardal, sef Llangwm, yn ei gyfanrwydd. Yn y gyfrol bresennol teflir y rhwyd yn lletach i gynnwys Uwchaled a'r cyffiniau, ond cyfyngir yr ymdriniaeth bron yn gyfan gwbl i faes cerddoriaeth. Cawn sôn am gorau meibion a chorau cymysg; y cystadlu brwd mewn eisteddfod a chyfarfod bach, gan bartion, wythawdau, pedwarawdau ac unigolion; y diddordeb byw mewn cerdd dant; ac am y bri ar ganu baledi a cherddi llafar gwlad. Cawn ddweud gair hefyd am y ddau ganwr gwerin lliwgar, Bob Roberts, Tai'r Felin, a John Thomas, Maes-y-fedw, ac am Annie Davies (Telynores Hiraethog) ac Owen Hughes, 'Now Pen-y-gob', y canwr baledi. A'r un modd, sonnir am rai o gyfeillion ac athrawon Emrys Jones a fu'n barod bob amser eu cefnogaeth a'u cyngor, megis: Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn); Watcyn Jones (Watcyn o Feirion); William Edwards, Rhydymain; a William H Pugh, Cystyllen, Parc. Hyn oll, ynghyd â chipolwg ar y 'darnau cerdd dant', y caneuon gwerin a'r 'hen gerddi' a ddaeth yn rhan o gynhysgaeth y datgeinydd o Langwm. Serch hynny, afraid ychwanegu mai agor cil y drws yn unig a wneir yn y gyfrol hon ar draddodiad cerddorol cyfoethog Uwchaled a'r cyffiniau.

O blith y darluniau o Emrys Jones, Pen y Bont, yr un gwerthfawrocaf o'r cyfan, o bosibl, yw'r darlun ohono fel cyfaill - y gŵr caredig sy'n barod bob amser i gynorthwyo eraill. A gwneud hynny o wirfodd calon. Derbyniodd yn hael; rhoddodd yn hael. Ar hyd y blynyddoedd bu ugeiniau lawer o blant yn mwynhau mynd i Adran ac Aelwyd yr Urdd o dan ei arweiniad, yn canu yn un o'i bartïon a'i gorau, neu yn mynd i Ben y Bont am hyfforddiant cerddorol. Yn yr un modd, derbyniodd llawer un o'i gyngor a'i gyfarwyddyd parod fel Clerc Cyngor Bro (Plwyf) Llangwm am 50 mlynedd (1944-94), neu fel y pennaf awdurdod ar lôn a llafar yr ardal. Mor wir amdano yw disgrifiad ei gyfaill, Emyr Roberts, Dinmael: 'Dyn wedi'i eni hefo beiro wrth ei glust ac alaw yn ei galon.' B'n arweinydd a hyfforddwr; diacon, athro Ysgol Sul a chodwr canu; canwr penillion, canwr gwerin a bardd; ysgrifennydd eisteddfod, trefnydd ac ysbrydolwr; ac yn enillydd Medal Goffa Syr T H Parry-Williams, er Clod (1981). Cyfrol yw hon, felly, i gymwynaswr arbennig iawn.

Yn ystod y cyfnod y buwyd yn casglu'r deunydd pleser fu cael cwmni nifer o wŷr a gwragedd yn Uwchaled a'r cyffiniau a ymddiddorai'n fawr yn llên a llafar eu bro. Gwnaed defnydd helaeth o'u tystiolaeth wrth ysgrifennu'r llyfr hwn, a chyfeiriwyd at amryw ohonynt yng nghorff y penodau neu'r nodiadau. Am bob caredigrwydd a gwybodaeth, diolch o galon. Yr un modd, i Anwen ac Emrys Jones, Pen y Bont, Llangwm. Mawr werthfawrogir y croeso mwyn a phob cymorth a gafwyd wrth baratoi'r gyfrol. Diolchir yn ddiffuant iawn hefyd i:


- staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Llyfrgell ac Archif Ffotograffiaeth Amgueddfa Werin Cymru; Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor; Llyfrgell y Ddinas, Caerdydd; ac Archifdy Sirol Rhuthun.
- Ken Lloyd Gruffydd, Yr Wyddgrug, am baratoi'r map o Uwchaled;
- cydweithwyr yn Amgueddfa Werin Cymru, yn arbennig: Dr Elfyn Scourfield, Emma Lile, Elaine Roszkowska, Meinwen Ruddock a Meinir Williams.
- Howard Williams, Clynnog Fawr, ac Eleri Gwyndaf, Caerdydd.



Emrys Jones, Llangwm, yn canu 'Bugail Hafod y Cwm' yn Nolgellau,  
ar achlysur dathlu chwarter canrif sefydlu Cymdeithas Cerdd  
Dant Cymru, 18 Ebrill 1960.  
Llun gan Geoff Charles, trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Emrys Jones yn canu penillion i gyfeiliant telyn Pekka Toivanen, yng Ngŵyl  
Gerdd Gydwladol Joensuu, Karelia, Y Ffindir, 8 Mehefin 1992.



## 1

*Traddodiad Cerddorol Uwchaled: Caniadaeth y Cysegr*

Wrth drafod natur y traddodiad cerddorol yn Uwchaled a'r cyffiniau gellid cyfeirio'n fras - a bras iawn - at ddwy brif ffrwd. Moli Duw a dyrchafu bywyd oedd prif amcan y canu a berthynai i un ffrwd: canu cynulleidfaol, neu ganiadaeth y cysegr; salm, emyn a charol; canu corawl, partïon, wythawdau, pedwarawdau, triawdau, deuawdau ac unawdau. Canu oedd hwn a gysylltid, yn bennaf, ag eglwys a chapel, eisteddfod a chyfarfod bach, cyngerdd a chymdeithas ddiwylliannol a chanolfannau cyfarfod swyddogol cyffelyb. Difyrru oedd prif amcan y canu yn ail ffrwd y traddodiad: canu penillion i gyfeiliant telyn, caneuon gwerin, caneuon llafar gwlad a baledi. Canu oedd hwn yn gysylltiedig, yn bennaf, â'r aelwyd yn y cartref a mannau cyfarfod ansyddogol eraill, megis y noswaith weu, noson wneud cyflaith (noswyl Nadolig) a'r noson lawen; y sgubor, llofft allan neu'r llofft stabal; ffair a marchnad a thŷ tafarn.

Rhaid, fodd bynnag, arfer gofal neilltuol wrth rannu traddodiad yn ffrydiau arbennig fel hyn. Rhwydd yw gor-ddosbarthu, a gweithgarwch di-alw-amdano a chamarweiniol yn aml ydyw. Yn Uwchaled, fel mewn ardaloedd eraill, yr oedd y naill ffrwd a'r llall yn ymgymysgu'n gyson â'i gilydd. Digwyddai hynny'n fwyfwy yn ystod yr ugeinfed ganrif. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, er enghraifft, roedd y delyn yn araf ddod yn ôl i fri, a chystadlaethau cerdd dant a chanu gwerin yn cael sylw cynyddol ar lwyfannau eisteddfodol.

Yn yr un modd, aeth y ffin rhwng canu dyrchafol a chanu er mwyn difyrrwch pur yn llai a llai amlwg. Yn wir, o'r dechrau yr oedd rhoi boddhad a derbyn boddhad yn brif amcan y naill ganu a'r llall. Yr oedd y cyfan - mewn gwahanol ffyrdd - yn fodd i ddathlu parhad bywyd; yn fynegiant o brofiadau a dyheadau dyn, y dwys a'r difyr, o febyd i fedd. Canu byd a betws, ydoedd a'r cwbl yn rhan ganolog o ddiwylliant - yn rhan o'r hyn sy'n di-wylltio, yn arloesi, yn cynnal y bywyd gwâr.



Y mae Emrys Jones, Llangwm, yn enghraifft ragorol o'r gwarineb hwn. Etifeddodd yn helaeth ddwy brif ffrwd y traddodiad cerddorol yn Uwchaled, ond yn ei ganu ef fe welwn hefyd fel y mae'r ddwy ffrwd yn ymgymysgu'n gwbl naturiol â'i gilydd. Y mae yr un mor gartrefol yn canu emyn a baled, cân werin, canu gyda'r tannau, neu ganu mewn côr.

### **Côr yr Eglwys yn eu 'gwynwisgoedd'**

Cyn twf Ymneilltuaeth yn Uwchaled yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ychydig o wybodaeth sydd gennym am ganu cynulleidfaol y cylch. Gellir tybio yn lled sicr, fodd bynnag, fod lle pur ganolog i ganu yng ngweithgareddau'r Eglwys Wladol. Dyma, er enghraifft, un nodyn diddorol gan Dafydd Jones, Bryn Saint, Cerrigydrudion, yn cyfeirio at Eglwys Mair Fagdalen, Cerrigydrudion. Cawn sôn eto am 'Deulu'r Seiri Cochion' y perthyn Emrys Jones iddo, ac am un aelod amlwg o'r teulu hwn, sef Dafydd Jones, Bryn Saint, arweinydd Côr Cymysg Cerrigydrudion, a brawd i William, taid Emrys. Yr oedd Dafydd Jones hefyd yn fab yng nghyfraith i Hugh Hughes (bu f. 1901), aelod o deulu athrylithgar Ty'n Pant, Cefn Brith; athro ysgol yng Ngherrigydrudion; aelod amlwg yn Eglwys Mair Fagdalen; gŵr gwybodus iawn yn hanes y cylch, a cherddor - y mae ar gael gasgliad helaeth o'r tonau a gyfansoddodd.<sup>1</sup> Yn 1876-9 adeiladodd Dafydd Jones dŷ oddeutu hanner milltir o'r pentref, a'r enw a roddwyd arno ganddo ef a Hugh Hughes oedd Bryn Saint. Dyma nodyn a sgrifennwyd gan Dafydd Jones, 11 Rhagfyr 1934, yn egluro paham y dewiswyd yr enw (cadwyd yr orgraff wreiddiol):

'Dywedai Mr Hugh Hughes, yr hwn oedd tua 70 oed yr adeg hono, iddo glywed gan Hen bobl yn dweyd y byddai yn arferiad i Gôr yr Eglwys pan fydd i claddedigaeth i gymeryd lle fyned iw gyfarfod ran fechan heb fyned o olwg yr Eglwys yn ei gwenwisgoedd ac y gelwid y rhai hyn yn Saint, ac arferiad y cyfryw oedd stopio ar gyfer ciat oedd yn arwain i'r Ficerdy, ac yr oedd yn digwydd fod codiad tir bychan yn y ffordd a alwem yn Fryn. Felly y galwyd y llanerch yn Fryn Saint, ac y mae dau gae un obobty'r ffordd ar gyfer y llanerch hon sydd ai henwau yn Fryn Saint Uchaf a'r Isaf sydd ai Henwau hyd heddiw ar Fap y plwyf a Map y Degwm ac wedi ei arfer ers canoedd o flynyddau.'<sup>2</sup>



Ar wahân i ddwsin o alawon a gyhoeddwyd yn Llyfr y Psalmiau, Edmwnd Prys, yn 1621, a'r ddau ddwsin o alawon a drefnwyd gan Ifan Wiliam, Llangybi, yn argraffiad 1770 o'r Llyfr Gweddi Gyffredin, nid oedd gan Gymry ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gasgliadau argraffedig hylaw o gerddoriaeth gysegredig. Yn ystod y ganrif honno, fodd bynnag, gwelwyd chwyldro na fu ei debyg na chynt nac wedyn yn hanes canu cynulleidfaol Cymru. Cyhoeddwyd nifer helaeth o werslyfrau a chasgliadau o donau, a mawr oedd dylanwad y cymdeithasau cerddorol a sefydlwyd.<sup>3</sup> Bu gan Uwchaled, a dau gymwynaswr o'r fro honno, ran bwysig yn y dadeni cerddorol hwn.

### **John Ellis, 'Y Cerddor o Langwm'**

Gŵr o ben ucha plwyf Llangwm, John Ellis (1760-1839), a gyhoeddodd y casgliad cyntaf o donau a gafodd Cymru, sef Mawl yr Arglwydd (1816). Fe'i ganed ar fferm Ty'n y Gwern Nannau (Ty'n Gwnanne ar lafar). Mae'r hen dŷ (ar y dde ar ochr y ffordd (B4501) o Gerrigydrudion i'r Bala) yn feudy bellach. Parc yw enw'r tŷ newydd. Treuliodd oddeutu deugain mlynedd o'i oes yn Llanrwst yn dilyn crefft y cyfrwywr (roedd ganddo weithdy yn Heol y Bont). Bu'n byw yn Llanfyllin am ychydig, yna am oddeutu ugain mlynedd olaf ei fywyd yn Lerpwl. Ym mynwent Capel y Wesleaid Saesneg yn Stanhope Street, Lerpwl, y claddwyd ef, heb ddim i nodi man ei fedd.

Ni welodd John Ellis fawr o gyfoeth y byd hwn, ond fe wnaeth ef ei hun gyfraniad cyfoethog i fywyd ei gyd-genedl. Bu'n ddiwyd iawn fel un o athrawon cerdd crwydrol Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd ('dirprwywr teithiol' oedd yr enw swyddogol). Bu'n brysur hefyd yn cyfansoddi tonau ac anthemau, megis: 'Llanrwst' ('Lenox'), 'Myllin', 'Trefriw', 'Elliot' (y dôn olaf iddo'i chyfansoddi, yn Lerpwl, ar emyn Pedr Fardd: 'Yr holl freniniaethau a dreulir / A'r ddelw falurir i lawr...'), 'Molwch yr Arglwydd', 'Bachgen a Aned i Ni', 'Bydd Lawen Iawn, Ti Ferch Seion', a 'Chân Moses'. Dywedid ei fod yn chwaraewr ffliwt medrus, a dyma un dyfyniad o ysgrif ar 'Y Cerddor o Langwm' a gyhoeddwyd gan Emrys Jones (ac

yntau bryd hynny yn llanc un ar hugain mlwydd oed) yn Cefn Gwlad, cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Cangen Uwchaled (1941-2):

'Gwnaeth hefyd fath o offeryn cerdd tebyg i'r harmonica, yr hwn oedd wedi ei wneud o lafnau o wydr o wahanol hydau yn ateb i'r gwahanol nodau yn y raddfa gerddorol, y rhai a gyffyrddid yn ysgafn gan y chwaraewr gyda math o forthwyl bychan ysgafn. Trwy gyfrwng yr offeryn hwn y cyfansoddodd lawer o'i anthemau a'i donau.'<sup>4</sup>

### **Mawl yr Arglwydd: y casgliad cyntaf o donau ar gyfer Cymru**

Yn ôl tystiolaeth Isaac Foulkes (Llyfrbryf) yn Enwogion Cymru, cyhoeddwyd Mawl yr Arglwydd yn dair rhan. Pris y rhan gyntaf oedd deunaw ceiniog, yr ail ran: tri a chwech, a'r drydedd ran: hanner coron. Argraffwyd y rhan gyntaf gan Ishmael Dafydd, Trefriw, oddi ar blatiau copr a wnaed yn Llundain. Argraffwyd yr ail a'r drydedd ran yn Llundain. Ar ddechrau'r llyfr ceir darlun o'r awdur, gyda'r geiriau: 'John Ellis, Cyfansoddydd Peroriaeth', a thôn gron o amgylch y llun.

Dyma farn R D Griffith, awdur Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru, am y gyfrol arloesol hon: 'Dengys rhai o'r darnau fod gan John Ellis ddawn at gyfansoddi alawon naturiol, ond ni chafodd fanteision i feistroli rheolau cynghanedd, a brithir y gerddoriaeth gan wallau.'<sup>5</sup> Yn ôl un traddodiad, copïwyd y gerddoriaeth ar gyfer y wasg gan Mary, ail wraig John Ellis, a briododd yn 1811.<sup>6</sup> Yr oedd yr awdur ei hun fel pe'n rhagdybio beirniadaeth ar ei waith, ac meddai yn y rhagymadrodd:

'...nid oes, hyd y gwn i, ond ychydig o Hyfforddiadau i ddysgu Cerddoriaeth, yn argraphedig yn yr iaith Gymraeg, er fod helaethrwydd yn Saesneg: ond nid ydyw fy Hyfforddiadau mor helaeth mewn perthynas i'r Drefn, ac ydynt yn Saesneg. Fy amcan pennaf yw dangos i'm Cyd-wladwyr y pethau mwyaf angenrheidiol mewn Cerddoriaeth i wneuthur moliant yr Arglwydd yn ogoneddus. Psal. 66.2. Mae yn amlwg eisoes nad ydyw fy ngwaith yn ôl Rheolau'r holl Gerddorion; o herwydd hynny dywedwyd wrtho (yn ol cyfieithiad rhai) "Ti a bwyswyd yn y Clorian, (Dring-raddau Cerdd) ac a'th gaed yn brin." "Eithr gennyf fi bychan iawn yw fy marnu gan farn dŷn."'<sup>7</sup>

Er hyn, gweddus yw dyfynnu teyrnged Huw Williams i'r gyfrol: 'Beth bynnag am wendidau Mawl yr Arglwydd, bu'r gwaith yn gyfrwng cychwyn y dôn gynulleidfaol Gymreig ar ei thaith urddasol trwy'r byd, ac yn sylfaen dibynadwy ar gyfer casgliadau a'i dilynodd gan Fillsiaid Llanidloes; Ambrose Lloyd; John Parry, Caer; Ieuan Glan Geirionydd, ac eraill.'<sup>8</sup>

### **'Cymdeithas Gerddorawl Cerrig-y-druidion a'r Ardaloedd Cymmydogaethol'**

Er mai yn Llanrwst yr oedd John Ellis yn byw pan gyhoeddwyd Mawl yr Arglwydd, awgrymodd Huw Williams 'mai yng Ngherrigydrudion, lle yr oedd nifer o gerddorion medrus yn byw yn ystod cyfnod ei ieuentid, y dysgodd ef egwyddorion cerddoriaeth'.<sup>9</sup> Y mae hynny yn sicr o fod yn wir. Drych o ddiddordeb cerddorol y cylch - mewn cyfnod ychydig yn ddiweddarach - ydoedd sefydlu 'Cymdeithas Gerddorawl Cerrig-y-druidion a'r Ardaloedd Cymmydogaethol' yn 1838. Prif ddiben y Gymdeithas oedd 'addysgu canu yn gerddgar ac yn soniarus, fel y gwneler mawl yr Arglwydd yn fwy cyhoedd, rheolaidd a gogoneddus'.<sup>10</sup> Yr oedd hefyd i 'gofleidio pob enwad crefyddol o fewn ei therfynau'.<sup>11</sup> Cynhelid y cyfarfodydd bob tri mis a 'chyarfod canu chwechwythnosol ar gylch bob mis'.<sup>12</sup> Yn 1839 ymwelodd gŵr a elwid wrth yr enw 'Philomena o'r Bala' â'r Gymdeithas ac yr oedd tri pheth yn arbennig wedi creu argraff arno:

- i. 'Sêl a grym cymaint o ardaloedd gyda chaniadaeth.'
- ii. 'Gweled y gwahanol enwadau mor unol.'
- iii. 'Gweled cymaint o ardaloedd mor bell oddi wrth ei gilydd yn canu mor rheolaidd o ran amser.'<sup>13</sup>

### **Hugh Evans, milfeddyg a cherddor o Bencraig Fawr**

Un o brif sylfaenwyr a chefnogwyr Cymdeithas Gerddorol Cerrigydrudion oedd

Hugh Evans (1790-1853), Pencraig Fawr, Betws Gwerful Goch. Magodd Uwchaled o leiaf dri gŵr o'r enw Hugh Evans a ymddiddorai'n fawr mewn cerdd a llên, tri gŵr athrylithgar, a thri o brif gymwynaswyr y fro. Hugh Evans (1854-1934), awdur Cwm Eithin (1931) a sefydlydd Gwasg y Brython, Lerpwl, oedd un. Fe'i ganed ef yn Nhy'n Rhos, Cwm Main, plwyf Llangwm, ond symudodd pan oedd rhwng chwech a saith mlwydd oed i Dy'n Rallt, yn yr un plwyf. Hugh Evans (1832-1905), Ty'n-y-gilfach, rhwng Cerrigydrudion a Chefn Brith, oedd yr ail: hanesydd lleol, casglwr trethi a thad Lewis T Evans (1882-1975). Fel y tad, roedd y mab yn gynheilydd traddodiad nodedig iawn ac, fel y cawn sylwi eto, yn ymddiddori'n fawr mewn offer cerdd. <sup>14</sup>

Gŵr eithriadol o amryddawn hefyd oedd y trydydd Hugh Evans - Hugh Evans (1790-1853), Pencraig Fawr. Pan oedd oddeutu deunaw oed gadawodd fro ei febyd ym Metws Gwerful Goch a bu oddi cartref am saith mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw dysgodd lawer am ddulliau trin y tir ac anifeiliaid. Wedi dychwelyd bu'n arbrofi ar gaeau Pencraig sut i ddyfrhau'r tir, a bu galw mawr am ei wasanaeth i wella anifeiliaid. Yn y man, gadawodd fyd amaethu a threulio bron ei holl amser fel milfeddyg, yn fawr ei barch, er na chawsai braidd ddim addysg ffurfiol.

'Bron ei holl amser', meddwn, oherwydd ei gariad mawr arall oedd cerddoriaeth. Yr oedd yn chwaraewr medrus ar y soddgrwth; yn arweinydd corau llwyddiannus mewn eisteddfodau; yn cynnal cyngherddau gyda'i seindorf, ac yn arweinydd y canu yn Eglwys Betws Gwerful Goch. Mewn ysgrif yn y cylchgrawn Cefn Gwlad y mae Gruffydd Hughes (Myfyr y Gadair), Dinmael, yn egluro sut y dechreuodd Hugh Evans ymddiddori mewn cerddoriaeth.

'Yn ôl yr arferiad yn y rhan hon o'r wlad, byddai'r 'Indiaid Cochion', sef y Sipsiwn, yn talu ymweliad mynych â Phencraig Fawr, a chael noddfa glyd yn yr ysgubor. Gan fod y crwydriaid hyn yn delynorion a chrythorion medrus wrth natur, cyrchai llawer o bobl o ardaloedd cyfagos i ysgubor Pencraig i ganu a dawnio. Bu yr ymweliadau hyn yn gyfrwng i ddeffro diddordeb cerddorol Hugh Evans a pheri iddo ymarfer ei ddawn naturiol at gerddoriaeth, - dawn sy'n aros yn rhai o'i deulu heddiw yn Uwchaled. Nid hir y bu na ddaeth i allu chwarae'r delyn, y crwth a'r dolgron. Bu ef a'i frawd William, y naill gyda'r

crwth a'r llall gyda'r tolgron, yn chwarae bob Sul yng nghôr Eglwys y Betws.'<sup>15</sup>

### Egwyddorion Peroriaeth ar Ddull Holwyddoreg

Un o gymwynasau pennaf Hugh Evans oedd cyhoeddi 'dros Gymdeithas Gantorawl Cerig-y-Druidion' lyfr 68 tudalen o'r enw: Egwyddorion Peroriaeth ar Ddull Holwyddoreg, wedi eu dethol o weithiau amrywiol awdwyr, a'u trefnu yn rheolaidd ac eglur, i'r dyben o hyfforddi ieuenctyd yn y gelfyddyd fuddiol hon.<sup>16</sup> Cyhoeddwyd y llyfr yn rhannau, deuswllt yr un, ar gyfer cyfarfodydd chwarterol y Gymdeithas, yn fuan wedi'i sefydlu yn 1838. Nid oes amheuaeth na fu'n fawr ei ddylanwad i ledaenu gwybodaeth gerddorol yn Uwchaled ac ardaloedd cyfagos yn siroedd Dinbych, Meirion a Chaernarfon. Dyma ddetholiad (yr agoriad a'r diweddglo) o'r cwestiynau a'r atebion yn yr adran ragarweiniol: 'Arweiniad i Mewn':

- Holiad. Beth yw Peroriaeth?  
 Atteb. Peroriaeth yw y Gelfyddyd sydd yn dysgu priodol ddosparthiad, dyluniad a chyd-darawiad seiniau.
- H. Ym mha bethau y mae y Gelfyddyd hon yn gynnwysedig?  
 A. Mae yn cynnwys dwy ran, sef egwyddorol ac ymarferol.
- H. Beth sydd i'w ddeall wrth Beroriaeth egwyddorol?  
 A. Gellir ei ranu i ddau ben, sef Perseiniaeth a Chydgordiad...
- H. Darluniwch y gwahaniaeth rhyngddynt.  
 A. Perseiniaeth yw y pereidd-dra a'r melusder dilyniadol sydd mewn un llais, neu ran o Erddygan, fel y gwelir yn y Cyfalaw. Cydgordiad ydyw cyd-darawiad amryw gydseiniau, wedi eu trefnu yn ddyladwy yn ol Rheolau cynganeddiad, fel ag i beri sain lafar a soniarus.'<sup>17</sup>

Dyma deitlau'r penodau yn y llyfr: 'Am yr Erwydd'; 'Am yr Allweddau a'r Banau'; 'Am y Nodau Seiniawl'; 'Am osodiad y Llythyrenau yn eu lleoedd priodol ar yr Erwydd'; 'Am yr Arwyddnodau'; 'Am yr Addurn-nodau'; 'Am yr Amserau'; 'Am y dull o guro neu gadw Amser yn y gwahanol Foddau'; 'Am arfer y Llais'; 'Tonau

mewn gwahanol Gyweiriau: "Egypt", "Walsall", "Bryn Hyfryd"; 'Am yr Haner Tonau a'u heffeithiau'; 'Am Beroriaeth'; 'Tablau am y Mwyaf a'r Lleiaf yn yr Wythawd'; 'Am y Cydseiniaid a'r Anghydseiniaid'; 'Am y Cywair-dôn nod'; 'Am Weddeidd-dra wrth ganu'.

Ym mhennod olaf y llyfr: 'Am Weddeidd-dra wrth ganu', mae gan Hugh Evans rai sylwadau pur fuddiol, dybiwn i, a'r sylwadau hynny wedi'u mynegi'n glir a diddorol, fel y dengys y dyfyniadau a ganlyn.

'Gallai dyn fod yn hollawl gydnabyddus â holl Nodau a Rheolau Caniadaeth... ac er hyny... gallai ei agwedd a dull ei adroddiad wneuthur y cyfan yn annymunol... Nid ydyw mewn un modd yn angenrheidiol tuag at wneuthur datganwr da, iddo ganu yn bur uchel; er hyny, y mae ymddygiadau rhai yn ein harwain i dybio, mai dyma y prif beth yr ymgeisir atto, gan y byddant yn canu, neu yn hytrach bloeddio, mor hynod o uchel, fel y bydd eu hwynebaw yn cael eu hollawl anffurfio; tra y mae, nid yn unig pereidd-dra y llais, ond sain briodol y tôn-nodau yn cael ei ddinystrio gan y fath ymdrech gormodol...

Wrth ganu dylid ymdrechu efelychu dull cywreinwch yr areithydd, yn hytrach na llusg-dôn y drelyn gwladaidd. Bydded iddynt gofio mai y geiriau a genir yw y rhan fwyaf pwysfawr mewn Cerddoriaeth Eglwysig, ac am hyny y dylent gael eu canu mewn modd teimladwy a chroyw, gan seinio pob gair yn gyflawn, a phob llythyren mor eglur â phe byddech yn areithio... Bydded agwedd eich corph hefyd yn weddus a gwrol yn wastad wrth ganu. Sefyll yw yr agwedd addasaf; ac os sefyll, safwch yn syth. Eithr os bydd raid eistedd i ganu, o herwydd llesgedd corph neu flinder, eisteddwch yn syth, ac nid ar ogwydd yn mlaen, nac ar y naill ochr chwaith. Uwchlaw y cwbl, cenwch yn ysbrydol. Bydded genych olwg ar Dduw yn mhob gair a genwch. Cyfeiriwch at ei foddhau ef yn fwy na chwi eich hun, na neb creadur...' <sup>18</sup>



## **Y Parchg Owen Jones, Pentrefoelas: Hymnau Hen a Newydd a Charolau Nadolig**

Byddai ardalwyr Pentrefoelas hwythau wedi cael llawer o fudd, mae'n sicr, o lyfr gwerthfawr Hugh Evans, Egwyddorion Peroriaeth. Felly hefyd o gyhoeddiadau'r Parchg Owen Jones (1825-1900). Fe'i ganed ef yn Rhuddlan, ond treuliodd 35 mlynedd (1857-92) yn offeiriad ym Mhentrefoelas, neu Bentre'r Fidog, fel y'i gelwid gynt. Yr oedd yn ymddiddori'n fawr mewn cerddoriaeth. Ef oedd cyd-olygydd Hymnau Hen a Newydd, ynghyd â Thonau i'w Harfer Yngwasanaeth yr Eglwys (1868). Cyhoeddodd hefyd anthemau a dau gasgliad o Garolau Nadolig (1866, 1870), y geiriau o waith amryw awduron a'r gerddoriaeth wedi'i threfnu ganddo ef.<sup>19</sup>

### **Cymdeithas Lenyddol Pentrefoelas**

Yn ystod cyfnod offeiriadaeth Owen Jones cynhaliwyd ym Mhentrefoelas Gymdeithas Lenyddol eithriadol o lewyrchus (1849-67), un o'r rhai cyntaf o'i bath yng Nghymru. Y mae nifer o gyfrolau gwerthfawr dros ben yn cynnwys 'croniclau'r' Gymdeithas ar gadw yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor. Yn un ohonynt am y flwyddyn 1857 ceir cerdd yn dynodi rhif uchel y gwahanol alwedigaethau yn y pentref:

Ym Mhentref y Foelas, drefn addas, mae rhi  
Y galwedigaethau yn ddeugain ond tri;  
Cariadus a hapus cydfywiant yn glau  
Er nad yw'r anedd-dai ond pymtheg a dau...<sup>20</sup>

Llenyddol oedd prif bwyslais y gymdeithas nodedig hon; er hynny, bu'n gyfrwng pwysig hefyd i hybu diddordeb cerddorol. Yr oedd Owen Jones yn olynydd i'r Parchg John Evans, a fu'n offeiriad ym Mhentrefoelas, 1844-57, ac yn brif symbylydd sefydlu'r Gymdeithas Lenyddol. Ef hefyd oedd prif hanesydd y plwyf, a chyhoeddodd erthyglau gwerthfawr yn y Cambrian Journal (1854-5) sy'n cyfeirio at y Gymdeithas.<sup>21</sup>



**'Llifa'r gân yn hardd eurgerdd o'i organ': G Peleg Williams; Teulu Ty'n-y-graig, a Cheinwen Rowlands, y gantores**

Cyn gadael ardal Pentrefoelas y mae'n weddus cofio hefyd am ŵr arall a oedd â chysylltiad agos â'r fro: cerddor galluog a chymwynasgar, sef George Peleg Williams (1905-81). Cyfeirir ato ar ei garreg fedd ym mynwent Capel Bethel (Ann.) fel 'Organydd, Arweinydd ac Athro'. Ar y garreg hefyd ceir yr englyn hwn o waith G R T [Gwilym R Tilsley]:

Gwiw atgof am ei gytgan, - a mwynhau  
Ei gwmniaeth ddiddan;  
Â llafar gord llifa'r gân  
Yn hardd eurgerdd o'i organ.

Teulu a fu'n fawr ei ddylanwad ar ganiadaeth y cysegr yng Nghapel MC Cefn Brith oedd teulu Ty'n-y-graig. Daeth aelodau o'r teulu yno i fyw o fferm Parc, Rhydlydan, pan oedd y plant yn bur ifanc: Isaac, Owen a Kate Jones. Roedd lleisiau ardderchog gan y tri: Isaac yn faswr, Owen yn denor, a Kate yn soprano. Ar wahân i'w cyfraniad gwerthfawr yn y capel, roedd galw mynych am eu gwasanaeth mewn cyngherddau. Byddai Owen a Kate yn enillwyr cyson hefyd mewn eisteddfodau fel unawdwyr a deuawdwyr. Wedi priodi, symudodd Kate Jones i Gaergybi, a merch iddi oedd y gantores enwog Ceinwen Rowlands.

**William Jones, 'Ci Glas': hyfforddwr sol-ffa**

O Gefn Brith awn i Gefn Nannau, Capel y Methodistiaid Calfinaidd, Llangwm. Bu'r Parchg John Roberts (1753-1834), brawd i'r pregethwr hynod Robert Roberts, Clynog, yma'n weinidog o 1809 hyd 1834. Ef yw awdur yr emyn:

Gras, gras,  
Yn genllif grymus ddaeth i mas...

Yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd y cerddor Thomas Roberts, Gwern Nannau, yn cyfrannu'n helaeth i ganiadaeth y cysegr yng Nghapel Cefn Nannau. Yna, rhwng 1901-25, gwnaed cyfraniad nodedig iawn gan ŵr a adwaenid

gan gydnabod o bell ac agos fel William Jones, 'Ci Glas' (1872-1941). Yr oedd yn bencampwr ym myd ymrysonfeydd cŵn defaid, a'i 'gi glas' yn adnabyddus mewn rhannau o'r Alban a Lloegr, yn ogystal â Chymru. Fe'i maged ym Mhlas Nant, plwyf Llangwm. Yn fuan wedi 1901 symudodd i fyw i'r Hafod, yn yr un plwyf, at ei nith, Margaret Owen. Bryd hynny daeth â'i docyn aelodaeth i Gapel Cefn Nannau. Pan briododd yn 1925, cyfansoddwyd cân iddo gan y bardd Thomas Jones, Cerrigelltgwm, Ysbyty Ifan. Canwyd hi ar achlysur yr anrhegu gan David Jones, Pen y Bont, tad Emrys Jones.<sup>22</sup> Meddai'r Parchg J R Jones, ei weinidog, am William Jones, ar ei ymadawiad o'r capel ar ôl priodi:

'Am flynyddoedd lawer bu'n dra ffyddlon i ganiadaeth y Cysegr. Bu'n dechreu canu am ysbaid pymtheg mlynedd, fwy neu lai. Disgyblodd yr ifanc yn elfennau Cerddoriaeth a magodd do o gerddorion da. Mynnodd osod y rhan hon o wasanaeth y Cysegr ar wastad uchel.'<sup>23</sup>

Un o'r testunau yng nghyfarfod cystadleuol Capel Cefn Nannau, 1971, oedd 'Y Cymeriad Mwyaf Diddorol y Gwn i Amdano'. Yr enillydd oedd John Morris Jones, Aeddren, Gellioedd (mab Arddwyfan, y fferm agosaf at Yr Hafod). Dyma un dyfyniad byr o'r ysgrif honno:

'...a dyna lwcus fu Achos y Methodistiaid Calfiniaidd yng Nghapel Cefn Nannau... Roedd gânddo gyfarfod i'r plant am un o'r gloch bob Sul trwy y flwyddyn, i ddysgu y Tonic Sol-ffa, a chododd do ar ôl to o blant a fu wedi hynny yn arwain gyda cherddoriaeth yn eu gwahanol gylchoedd. Bron na ellwch chi nabod heddiw y plant a fu dan ei ddisgyblaeth, er eu bod i gyd yn bobl mewn oed erbyn hyn.'<sup>24</sup>

Yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, bu personau megis Ifor Hughes, Ystrad Fawr; John Jones, Ystrad Bach; a Robert Griffith Jones, Disgarth Isa, ac eraill yn cyfrannu'n helaeth fel arweinyddion y gân yng Nghapel Cefn Nannau. Felly, ym mhob capel ac eglwys yn Uwchaled, o'r braidd, rhwydd y gallai'r ardalwyr heddiw ddwyn i gof wŷr a gwragedd a wnaeth gyfraniad gwerthfawr fel codwyr canu a hyfforddwyr plant ac ieuenctid yn elfennau cerddoriaeth.

## Capel y Groes a chyfraniad tad a mab: David ac Emrys Jones, Pen y Bont

Bodlonaf, fodd bynnag, ar gloi'r bennod hon, yn addas iawn, drwy gyfeirio'n fyr at gymwynas dau o ffyddloniaid Capel y Groes, Llangwm, capel yr Annibynwyr - cymwynas tad a mab, sef David ac Emrys Jones, Pen y Bont. Cawn sôn lawer eto am David Jones (1883-1944). Ef, yn ddi-os, fel ei fab, oedd un o gymwynaswyr pennaf ardal Llangwm. Digon yn awr fydd crybwyll yn unig ddwy nodwedd a fu'n amlwg iawn ym mywydau'r ddau: diffuantrwydd a dalifyndrwydd. Beth bynnag yr oeddent yn ei wneud - eu nod oedd ei wneud o ddifrif. Ac wedi ymafael mewn darn o wajth, yna dal ati hyd y diwedd, heb laesu dwylo. Fe welir hynny yn amlwg, er enghraifft, yn eu cyfraniad clodwiw i Eglwys y Groes, y capel ar gopa'r allt uwchben Llangwm. (Fe'i hadeiladwyd ar dir Tŷ Nant - neu Dyddyn Eli, yn ôl yr enw ar y fferm bellach. Dyma, fel y mae'r enw newydd yn ei awgrymu, gartref y Parchg Thomas Ellis a'i fab, y Parchg Humphrey Ellis, a dyma'r tir agosaf i'r pentref nad oedd yn perthyn i Stad Garthmeilio.)

Hyd flwyddyn ei farw disyfyd yn 1944 bu David Jones yn dal amryw o swyddi yn y capel, lle cafodd gyfle i ddefnyddio'i dalentau amlwg a bod o wasanaeth gwerthfawr i eraill. Yn 1909 fe'i penodwyd yn athro Ysgol Sul ar ddosbarth o blant, a bu'n ddiwyd am flynyddoedd hefyd yn cynnal cyfarfod am un o'r gloch bob Sul i ddysgu plant ganu'r tonic sol-ffa, neu baratoi at y cyfarfodydd cystadleuol. Yn ddiweddarach daeth Dilys Hughes, Y Post (perthynas iddo) i'w gynorthwyo. O 1911 ymlaen bu'n ffyddlon fel organydd. Yna, yn 1918, fe'i hetholwyd yn ddiakon ac, yn fuan wedyn, yn Ysgrifennydd yr eglwys. Bu hefyd yn arweinydd y gân.

Wedi marwolaeth David Jones, 7 Rhagfyr 1944, daeth Emrys, y mab, i'r adwy. Roedd Eirlys, ei chwaer, ac yntau eisoes wedi cael budd mawr o'r cyfarfodydd canu un o'r gloch. 'Y Capel', meddai 'roddodd y cyfle cyntaf i mi feithrin hynny o ddoniau sy gen i.'<sup>25</sup> O 1944 hyd heddiw bu'n athro Ysgol Sul. Yn gyntaf ar ddosbarth o blant, am ugain mlynedd, yna ar ddosbarth o oedolion. A

thrwy gydol y cyfnod hwn bu bob amser yn barod ei gymorth i gynnig hyfforddiant cerddorol i blant ac ieuenctid yr eglwys, a'r un modd i arwain partïon canu o blith yr oedolion. Dilynodd ei dad fel Ysgrifennydd yr eglwys ac, yn 1952, fe'i hetholwyd yn ddiakon. Y mae'n dal ar bob cyfle i roi bri ac urddas ar ganiadaeth y cysegr. Yn 1946 dechreuodd ar ei waith fel codwr canu, ac o 1962 hyd 1996 ef oedd Llywydd Cymanfa Ganu Penllyn, Edeirnion ac Uwchaled, yr Annibynwyr.

Ar derfyn y Traethawd Coffa i David Jones yn 1946 ysgrifennodd Gruffydd Hughes, Dinmael, y geiriau a ganlyn, ac y maent yn deyrnged deilwng i gyfraniad y tad a'r mab: 'Cadwodd dannau "Telyn Seion" yn dynn a chywir bob amser, a deil "y garreg o'r mur" yn yr hen addoldy cysegredig i atseinio ei lais peraidd ymysg yr addolwyr yno am genedlaethau i ddyfod.'<sup>26</sup>

Yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, mwy neu lai, ciliodd y bri ar gyfarfodydd canu swyddogol yr addoldai. Er hyn, y mae'r capeli yn Uwchaled hyd heddiw yn parhau i wneud cyfraniad hollbwysig i hyrwyddo diddordeb cerddorol yr ardalwyr, yn blant ac oedolion, fel y cawn sylwi eto wrth sôn am gyfarfodydd cystadleuol neu gyfarfodydd bach y cylch. Yr eisteddfodau a'r cyfarfodydd cystadleuol hyn fydd pwnc y bennod nesaf.

## *Coleg y Fro: Eisteddfod a Chyfarfod Bach*

Os maged Emrys Jones yn sŵn emyn a charol a chân mewn oedfa ac Ysgol Sul, fe'i maged hefyd, er yn llencyn ifanc iawn, yn sŵn prysurdeb paratoi at eisteddfod a 'chyfarfod bach' (cyfarfod cystadleuol yn gysylltiedig â'r capeli Anghydfurfiol). Yn Eisteddfod Llangwm, 1994, caed cystadleuaeth yn adran rhyddiaith agored: 'Portread o Dri Eisteddfodwr'. Yr enillydd oedd Eirlys W Tomos, Dinbych, a'r 'eisteddfodwr penigamp' cyntaf y rhoes bortread ohono oedd Emrys Jones, Pen y Bont.<sup>1</sup> Prin bod ardal yng Nghymru ag iddi draddodiad eisteddfodol cyfoethocach nag Uwchaled. Y mae Emrys Jones yntau'n ymhyfrydu'n fawr yn y traddodiad hwn. Y mae hefyd yn gwybod mwy na neb arall amdano, dybiwn i, ac ysgrifennodd draethawd cynhwysfawr: 'Traddodiad Eisteddfodol Uwchaled', a gyhoeddwyd yn Llên y Llannau (Eisteddfodau 1982).<sup>2</sup>

### **Owain Myfyr a Chymdeithas y Gwyneddigion**

Brodor o Uwchaled oedd un o brif gefnogwyr eisteddfodau'r ddeunawfed ganrif yng Nghymru, sef Owen Jones (Owain Myfyr, 1741-1814). Mab Tyddyn Tudur, Llanfihangel Glyn Myfyr, oedd ef, ond symudodd yn llanc ifanc i Lundain a llwyddo fel crwynwr. Buddsoddodd gyfran helaeth o'i arian i gyhoeddi (gyda William Owen Pughe ac Iolo Morganwg) Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym (1789) a'r gwaith mawr, The Myvyrian Archaiology of Wales (1801-7). Ef oedd prif sefydlydd Cymdeithas y Gwyneddigion yn 1770 a'i phrif lywiwr a noddwr am ugain mlynedd. Bu gan y Gymdeithas hon, a fu'n hael ei nawdd i eisteddfodau a llenyddiaeth y cyfnod, gysylltiad agos iawn â sir Ddinbych o'r dechrau. Oddi yno y deuai mwyafrif mawr ei haelodau, gan gynnwys brodor arall o Uwchaled ac un o'i phrif gefnogwyr, sef John Jones (Jac Glan-y-gors, 1766-1821), Cerrigydrudion. Meddai Griffith John Williams am Gymdeithas y Gwyneddigion:

'Cymdeithas a grewyd gan adfywiad y ddeunawfed ganrif oedd y Cymmrodorion, cymdeithas a grewyd gan fywyd llenyddol, gwerinol Sir Ddinbych oedd y Gwyneddigion: Cymdeithas o bobl a oedd yn hoff o ganu penillion gyda'r delyn, pobl a fagwyd yng ngwlad y carolau a'r baledi a'r anterliwtiau, pobl lawen, ond pobl a fagwyd yn y wlad fwyaf "llynyddol" yng Nghymru.'<sup>3</sup>

### **Eisteddfod o'r ddeunawfed ganrif: Robert a Dafydd Cadwaladr; Twm o'r Nant a Thwm Tai'n Rhos**

Rywdro yn ail hanner y ddeunawfed ganrif cynhaliwyd eisteddfod yng Ngherrigydrudion, ychydig filltiroedd yn unig o gartref Owain Myfyr. Yn yr eisteddfod honno, yn ôl tystiolaeth Thomas Jones, Cerrigelltgwm, y gwnaed yr hen bennill tri thrawiad:

Yng Ngherrigydrudion y coedydd sydd brinion  
A'r cloddiau yn llymion o gwmpas y Llan;  
Ni chês ar fy siwrne oddi yno i'r Cernioge  
Ddim deunydd par oge pur egwan.<sup>4</sup>

Saif treflan fechan Cernioge ar y ffordd fawr (yr A5) rhwng Glasfryn a Phentrefoelas. Perthynai hen blasty Cernioge Mawr gynt i Robert Gethin - gŵr o'r un teulu â Phrysiad Plas Iolyn a'r Giler a Wyniaid y Foelas. Roedd Robert yn fab i Morys Gethin, ac yntau'n fab i Rys Fawr ap Maredudd o Hiraethog a fu'n cludo baner y Ddraig Goch pan fu Harri Tudur yn fuddugoliaethus ar faes Bosworth. Erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd Cernioge Mawr wedi datblygu yn un o'r gwestyau pwysicaf ar y Ffordd Dyrpeg o Gaergybi i Lundain. Yn ystod Haf 1832 galwodd y Dywysoges Victoria a Duges Caint heibio ar eu taith o Wynnstay i Eisteddfod Biwmares. Cawsant de ('byrbryd') yno, a cheir plât yn yr ystafell heddiw i gofnodi'r achlysur. Bu telynor o'r enw William Morris (1770-1850), Llanfor, ger Y Bala, cefnder i fam Ceiriog, yn diddanu'r ymwelwyr brenhinol. Arferai Owen Owen, 'Telynor y Waun Oer', Capel Curig, yntau ganu'r delyn yng Nghernioge.



Yn bresennol yn yr eisteddfod yng Ngherrigydrudion yr oedd meibion Cwmorddwr (Cwmorwr ar lafar gwlad): Robert a Chadwaladr Dafydd; Thomas Ifan, 'Twm Tai'n Rhos'; Huw Jones, Llangwm; rhai o brydyddion Pentrefoelas a Chynwyd; a Robert Davies (Bardd Nantglyn, 1769-1835) - yr ieuengaf ohonynt, ac ef a benodwyd yn feirniad. Prentisiwyd Robert Davies yn deiliwr. Yn ddiweddarach, am bedair neu bum mlynedd tra bu yn Llundain, daeth yn amlwg fel ysgrifennydd a bardd Cymdeithas y Gwyneddigion.<sup>5</sup>

Roedd y ddau frawd Robert a Chadwaladr Dafydd, Cwmorwr, yn brydyddion gwlad. Symudodd Robert i Gellioedd Bach, Llangwm, i fyw. Gwŷdd ydoedd wrth ei grefft, 'canwr tan' gamp gyda'r tannau',<sup>6</sup> a ffidler da. Tlawd oedd ei fyd, a bu Twm o'r Nant yn chwarae anterliwt yng Ngherrigydrudion a Llangwm i'w helpu i dalu'r rhent. Mab i Cadwaladr Dafydd oedd Dafydd Cadwaladr (1752-1834), Erw Dinmael, Llangwm, y cymeriad a'r pregethwr hynod a thad Elizabeth Davis, 'Betsi Cadwaladr' (1789-1860), y weinyddes enwog. Merch arall iddo oedd Bridget, a fu'n forwyn ym Mhlas Llanofar i Augusta Waddington Hall, Arglwyddes Llanofar, 'Gwenynen Gwent' (1802-96).<sup>7</sup>

Yr oedd Cwmorwr, cartref y brodyr Robert a Chadwaladr Dafydd, yn agos i gartref Thomas Ifan, 'Twm Tai'n Rhos', gŵr y mae gan Dwm o'r Nant yn ei Hunangofiant air diddorol iawn i'w ddweud amdano. Pan oedd y Bardd o'r Nant oddeutu deg i un ar ddeg mlwydd oed, daeth yn gyfeillgar â 'hen ddyn oedd ym Mhentre'r Foelas, yn darllen yn y capel y Suliau [capel anwes Dôl-yr-ywen], ac yn cloccio amseroedd eraill'.<sup>8</sup> John Davies, 'Siôn Dafydd Berson', neu 'Siôn Dafydd Glocsiwr' (1675-1769), oedd hwn, wrth gwrs. Noddwr a chyfaill beirdd (a Huw Jones, Llangwm, yn un ohonynt), a chopïwr dygn llawysgrifau, yn cynnwys gweithiau beirdd ei oes.<sup>9</sup> Ychwanega Twm iddo gael 'benthyg hen lyfrau' ganddo lawer gwaith.<sup>10</sup> Tra'n aros yn ardal Uwchaled dyna pryd hefyd y cyfarfu Twm o'r Nant â'r bardd o'r un enw ag ef o Dai'n Rhos. Meddai yn ei Hunangofiant:

'Yn ganlynol mi euthum yn gyfaill ag un arall oedd yn brydydd, heb fedru darllen nac ysgrifennu... efe a gyfenwid "Twm Tai yn Rhos". Fe wnaeth imi englyn i'w roi mewn llyfr oedd gennyf o gasgliad cerddi...

Twm, neu Thomas Evan, yr oeddwn i yn ysgrifennu fy enw cyn myned y pythefnos hynny i'r dref i ddysgu Saesneg; dyna'r pryd y'm cyfenwodd hwnnw fi yn Thomas Edwards, oblegid mai Evan Edwards oedd enw fy nhad, ac na fyddai ond bastardiaid yn myned ar ôl yr enw cyntaf. Beth bynnag, mi gefais yr anrhydedd o fod yn ysgrifennydd i'r hen brydydd; pan wnâi ef gân, fe'i cofiai hyd nes deawn ato.' <sup>11</sup>

Roedd eisteddfodau'r ddeunawfed ganrif, fel y gwyddys, yn wahanol iawn i eisteddfodau ein cyfnod ni. Eto, soniwyd ychydig am rai o'r personau a fu'n gysylltiedig ag un o'r eisteddfodau hyn yn Uwchaled am reswm arbennig. Gwŷr diwylliedig oedd y rhain yn ymddiddori yn hanes a llenyddiaeth eu gwlad; gwŷr oedd am hybu'r diddordeb mewn pennill a thelyn a chân. A gwŷr o'r un anian yw Emrys Jones, Llangwm, yntau, yn cynnal yr un traddodiad gwerthfawr.

### **Cadwaladr Llwyd a Chyfarfod Llenyddol a Cherddorol Methodistiaid Calfinaidd Dosbarth Cerrigydrudion**

Gwŷr arall yn rhannu llawer o'r un diddordebau oedd Cadwaladr Lloyd (neu Llwyd), Llanfihangel Glyn Myfyr. Fe'i ganed (1805) ym Maes-yr-odyn a bu'n byw wedyn yn Rhiw Goch. Yr oedd yn ŵr dysgedig iawn, yn gerddor galluog ac yn dipyn o fardd. Am hanner can mlynedd bu'n brif arweinydd crefyddol yn ardal Uwchaled ac yn fawr ei ddylanwad yn sefydlu a hyrwyddo cyfarfodydd cystadleuol o dan nawdd capeli'r cylch. Ef oedd 'tad' Cyfarfod Llenyddol a Cherddorol Methodistiaid Calfinaidd Dosbarth Cerrigydrudion, a gynhelid yn flynyddol yng Nghapel MC Ty'n Rhyd, Cerrigydrudion. Yn Uwchaled, o leiaf, dyma'r gyntaf o'r eisteddfodau ar yr un patrwm ag yr ydym ni yn gybyddus ag ef. Y gyntaf - ac un o'r rhai pwysicaf hefyd. Cyfeirid at yr eisteddfod hon fel 'Cyfarfod Mawrth', oherwydd mai ar Ddydd Gŵyl Dewi y cynhelid hi. Yn ôl adroddiad manwl yn Yr Wythnos am gyfarfod 1894, sefydlwyd yr eisteddfod yn 1866. Daeth i ben, fe ymddengys, yn gynnar ddechrau'r ganrif hon. Diddorol yw sylwi mai 'Cyfarfod Llenyddol', neu 'Gyfarfod Llenyddol a Cherddorol' yw'r enw a ddefnyddir, bron yn ddieithriad, nid 'eisteddfod'. Yn 1872 roedd Ieuan Gwyllt yn 'brif feirniad yr ŵyl'. <sup>12</sup>

Nodwedd arbennig yn eisteddfodau'r ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon oedd anerchiadau'r beirdd. Cerddi - cerddi rhydd, gan amlaf - oedd y rhain i gyfarch yr eisteddfod, yn arbennig ei beirniaid, ei swyddogion a'i buddugwyr. Yn Uwchaled, un o'r prif gyfarchwyr oedd Robert Williams (Myfyr Alwen, 1859-1922). Prin yr âi eisteddfod heibio na fyddai ef a'i awen barod ar waith.<sup>13</sup> Fe'i ganed mewn tŷ bychan, sy'n furddun bellach, ger hen Gapel Ty'n Rhyd, Cerrigydrudion, ac yno y bu'n dysgu plant yr ardal i ganu sol-ffa. Treuliodd ran olaf ei oes yn byw yn Fron Goch, Betws Gwerful Goch. Crydd ydoedd wrth ei grefft, ond bu hefyd am blwc yn gwerthu te hyd y wlad. Y mae'n uchel ei glod yn y cerddi cyfarch hyn i 'gantorion a beirdd a llenorion cylchwyl fawreddog' Dosbarth Cerrigydrudion.<sup>14</sup>

Yr oedd hefyd, ar brydiau, feirdd yn dal ar y cyfle i gyfarch yn answyddogol, a chael tipyn o hwyl braf a thynnu coes yr un pryd. Dyma englyn a luniodd Isaac Jones, Hendre Ddu, Pentrellyncymer, i gystadleuaeth y corau yn un o'r eisteddfodau hyn (1870):

Bu mesur ar bob miwsig - a hirwaith  
Y corau trybeilig;  
Curo wnaeth Côt y Cerrig,  
Malu'n wael wnaeth Melin-wig.<sup>15</sup>

Yr oedd Corau Cymysg eithriadol o lwyddiannus yn Llangwm a Cherrigydrudion bryd hyn ac yr oeddynt yn amlwg ymhlith yr enillwyr yn y Cyfarfod Mawrth. Yn ôl adroddiad am eisteddfod 1871 yn Y Goleuad, 11 Mawrth 1871, er enghraifft, roedd Côt Llangwm yn fuddugol (yn canu 'Yr Haf' a 'Theilwng yw'r Oen'), a Chôt Cerrig yn ail (yn canu 'Y Gaeaf' a 'Chanig y Clychau'). Cawn sôn eto fel y bu i ddau frawd: Dafydd a Hugh Jones, aelodau o deulu Emrys Jones - 'Teulu'r Seiri Cochion' - ddod i amlygrwydd mawr fel arweinyddion y corau hyn.

**'Gwlad yr ymledu gorwelion': eisteddfodau Cerrigydrudion ac oes aur Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Canghennau Uwchaled**

Er i Gyfarfod Llenyddol Dosbarth Cerrigydrudion ddod i ben ddechrau'r ganrif, cynhaliwyd cyfresi o eisteddfodau eraill llewyrchus iawn yn y pentref hwn hyd at o leiaf ganol y ganrif, a pharhaodd rhai o gyrddau cystadleuol y capeli hyd at ein dyddiau ni. Un o'r eisteddfodau mwyaf llwyddiannus oedd Eisteddfod Gadeiriol y Wesleaid, Cerrigydrudion, a gynhaliwyd am rai blynyddoedd ar ddechrau'r ganrif, o 1899 ymlaen. 'Proffesor O M Edwards, Rhydychen', oedd llywydd cyfarfod y prynhawn yn 1901. Y flwyddyn ganlynol roedd y Prifathro John Rhŷs yn un o'r llywyddion, ac yn y cyflwyniad i Raglen y Dydd yr eisteddfod honno ceir y nodyn diddorol ac arwyddocaol hwn:

'Hyd ym mhell i'r ganrif o'r blaen cynhelid yma Wyl Mabsant ar y 22ain o Orffennaf, ond mae'r cynulliadau hynny wedi gorfod rhoi lle i'w gwell - y Cwrdd Llenyddol a'r Eisteddfod.'<sup>16</sup>

Rhwng 1936-9 cynhaliwyd cyfresi o eisteddfodau yng Ngherrigydrudion ar ddydd Gŵyl San Steffan, a D Jenkyn Hughes, Ysgrifennydd eisteddfodau dechrau'r ganrif, yn amlwg wrth y llyw. Morris T Williams, Dinbych (priod Kate Roberts), enillodd y gadair yn eisteddfod Mai 1936. Yna, yn y pedwardegau, cynhaliwyd rhai eisteddfodau cadeiriol yn y Neuadd (hen gapel Ty'n Rhyd) yng Ngherrigydrudion, o dan nawdd Cangen Cylch Uwchaled o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr.<sup>17</sup>

Y pedwardegau oedd oes aur Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (y WEA) yn Uwchaled, ac roedd gan y canghennau (cymaint â phymtheg ohonynt erbyn 1941-2) eu cylchgrawn arbennig, sef Cefn Gwlad.<sup>18</sup> Yn y cylchgrawn gwerthfawr hwn y cyhoeddodd Emrys Jones, Llangwm, beth o'i waith cynharaf. Am dymor o chwe blynedd (o ddechrau Hydref 1940 hyd ddiwedd Haf 1946) bu'r Dr D Tecwyn Lloyd yn cynnal pum dosbarth nos WEA yn Uwchaled, a mawr fu'r dylanwad ar y darlithydd ifanc. I drigolion Uwchaled y cyflwynodd ei gyfrol gyntaf, sef Erthyglau Beirniadol (1946), 'fel ernes o'm parch a'm gorhoffedd o'r fro'. Mewn ysgrif ragorol, ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, talodd deyrnged bellach i ddiwylliant y fro, gan egluro fel y bu Uwchaled iddo ef am 'chwe blynedd yn wlad yr ymledu gorwelion'.<sup>19</sup>

## **Eisteddfodau Pentrefoelas, Pentrellyncymer a Llanfihangel Glyn Myfyr**

Yr oedd i eisteddfodau'r cylch ran bwysig yn yr 'ymledu gorwelion' y soniodd D Tecwyn Lloyd amdano. Ar ei ffordd i eisteddfod fawr Pentrefoelas yr oedd pan ymwelodd ag Uwchaled am y tro cyntaf, yn hogyn ifanc yn 1926. Rhwng 1920 a 1928 cynhaliwyd ym Mhentrefoelas gyfres o eisteddfodau a ddaeth yn enwog drwy Gymru. Yn wir, Eisteddfod Pentrefoelas, mae'n bur sicr, oedd un o'r eisteddfodau undydd mwyaf a gynhaliwyd erioed, gyda phabell i ddal 5000, a'r wobr gyntaf i'r corau meibion (bryd hynny) yn £120, ynghyd ag oriawr aur i'r arweinydd.<sup>20</sup>

Eisteddfod ar raddfa lawer iawn llai, wrth gwrs, oedd Eisteddfod Pentrellyncymer, o dan nawdd capel Hermon, yr Annibynwyr, ond parhaodd mewn bri o ddechrau'r ugeinfed ganrif hyd y pedwardegau. Cynhelid hi am nifer o flynyddoedd yn sied wair Tŷ Gwyn. O Bentrellyncymer awn i bentref cyfagos Llanfihangel Glyn Myfyr, bro Owain Myfyr. Mor gynnar â'r flwyddyn 1888 sefydlwyd Eisteddfod y Calan yn Llanfihangel, a pharhaodd yn llwyddiannus hyd ddiwedd saithdegau'r ugeinfed ganrif, ac wedi hynny ar raddfa lai. Cadwaladr Llwyd, unwaith yn rhagor, oedd y prif symbylydd, a'i amcan pennaf, fel gyda 'Chyfarfod Mawrth' yn y Cerrig, oedd hyrwyddo crefydd, llenyddiaeth a cherddoriaeth. Bu Robert Jones (Bob Traian, 1894-1957) yn arwain Eisteddfod y Calan, Llanfihangel, am flynyddoedd, a chawn sôn eto amdano ef.

## **Eisteddfod Ffair Gorwen Fawrth, Dinmael, ac eisteddfodau Gaer Gerrig, Penyfed, a Chapel y Wesleaid, Tŷ Nant**

A dyma ddod at eisteddfodau niferus plwyf Llangwm. Yn ardal Dinmael yn 1898, er enghraifft, cynhaliwyd eisteddfod mewn pabell ar dir Cysulog. Yna, yn 1902, cynhaliwyd eisteddfod yn Ninmael ar noson Ffair Fawrth, Corwen. Y prif amcan, bid siwr, oedd swcro'r ieuencid i ddod adre'n gynnar, rhag cael eu temtio'n ormodol gan bleser a gwagedd y ffair. Yn ddiweddarach cysylltir yr Eisteddfod hon â Glanrafon.



Ar ddydd Mercher, 12 Mehefin 1895, a dydd Gwener, 29 Mai 1896, cynhaliwyd dwy eisteddfod eithriadol o lewyrchus yn sied wair Gaer Gerrig, ger treflan fechan Tŷ Nant, o dan nawdd Capel Soar (Ann.), Cwm Main. Yn ôl rhagolwg gohebydd o'r enw 'Caereini' o eisteddfod 1895, yn Yr Wythnos, 18 Mai 1895, clywsai fod y siopwr 'Mr T Thomas, Tynant, yn cael extra stock gogyfer ag anghenion naturiol yr Eisteddfodwyr, a bod pabell ddigon eang i gynnal mil neu bymtheg cant bron yn barod...' Diddorol yw cymharu sylwadau gohebydd Yr Wythnos â sylw ffraeth a bachog bachgen deuddeg oed, sef David Jones, Pen y Bont, tad Emrys Jones. Yn yr ysgol yng Ngherrigydrudion ysgrifennodd hanes yr eisteddfod - yn Saesneg, yn ôl arfer y cyfnod - ac meddai: 'After the interval there was tea for us, such as it was!' <sup>21</sup>

Llywydd eisteddfod 1896 oedd Tom Ellis, AS. Humphrey Jones (Bryfdir, 1867-1947) enillodd ar y bryddest. Un o brif sêr y ddwy eisteddfod, fodd bynnag, oedd y tenor, Hugh Jones, Ty'n Foelas, Llangwm, brawd i daid Emrys Jones. Yn eisteddfod 1895 cafodd gydradd gyntaf gyda William Charles Edwards, Pentredraw, Pentrellyncymer, ar yr unawd tenor: 'Llwybr yr Wyddfa'. Ef oedd yn arwain y pedwarawd buddugol: 'Blodeuyn bach wyf fi mewn gardd'; yr wythawd buddugol: 'Ti wyddost beth ddywed fy nghalon', a'r côr cymysg buddugol, Côr Llangwm, a oedd yn canu: 'Bydd melys gofio y cyfamod'. Ail gafodd Côr Pentrefoelas, o dan arweiniad Jenkyn Roberts, oherwydd, medd y beirniad, iddynt 'fyned allan o gywair'. <sup>22</sup> Yn eisteddfod 1896 dyfarnwyd y ddau gân yn gyfartal, ac fe enillodd Hugh Jones ar yr unawd tenor: 'Baner ein Gwlad'. Enillwyr y ddeuawd: 'Arwyr Cymru Fydd' yn eisteddfod 1896 oedd Thomas John Roberts, Y Bala, ac R Roberts, Cwm Tirmynach (sef Bob Roberts, Tai'r Felin). <sup>23</sup>

Rhwng 1919 a 1922 cynhaliwyd pedair eisteddfod lwyddiannus iawn o dan nawdd Capel y Wesleaid, Tŷ Nant. Cyfeirir at yr eisteddfodau hyn fel Eisteddfodau Penyfed, oherwydd mai mewn sied wair ar y fferm hon (cartref David Ellis, y 'bardd a gollwyd') y cynhaliwyd hwy. Côr lleol - Côr Cymysg Glanrafon - a enillodd yn



eisteddfod 1919, a mawr fu'r dathlu. Fe gariwyd yr arweinydd, John Edwards, Ty'n Garreg, ar ysgwyddau dau ddyn cryf bob cam i Bont y Glyn. 'Teilwng yw'r Oen' oedd y dewisiad, a dywedir i John Edwards wahodd Dafydd Jones, Bryn Saint (hen ewyrth Emrys Jones), i roi 'polish' ar y côr. Yn ôl yr hanes, treuliodd arweinydd Côr Cymysg Cerrig 'noson gyfan' yn cael un gair yn iawn, sef y gair hollbwysig 'Oen'.<sup>24</sup> Yn eisteddfod 1921 enillwyd y prif adroddiad gan Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn), a'r brif unawd gan y bariton enwog o Bentrefoelas: Bob Ellis. Dr Caradog Roberts oedd beirniad y canu yn eisteddfod 1922. Enillwyd cystadleuaeth y ddeuawd agored gan dad Emrys: David Jones, Pen y Bont, a Hugh Roberts (Eos Nannau), Llangwm. Cafodd David Jones gydradd gyntaf hefyd ar yr unawd tenor neu fariton.

### **'Gorau arf, arf dysg': Eisteddfod Gadeiriol Llangwm**

Eisteddfod Llangwm yw'r ieuengaf o eisteddfodau niferus Uwchaled. Er hynny, ac eithrio Eisteddfod y Calan, Llanfihangel Glyn Myfyr, hi sydd wedi byw hiraf. Hi hefyd, heb os, yw un o eisteddfodau undydd enwocaf Cymru. Fe'i cynhaliwyd gyntaf ar y dydd Iau olaf o Fehefin, 1930, a phob blwyddyn er hynny ar y Sadwrn olaf o Fehefin. 'Angen yw mam pob dyfais', medd yr hen air, a phwy feddyliai heddiw mai i 'godi arian', yn bennaf, y sefydlwyd yr eisteddfod gyntaf. Yn 1923 roedd Capel y Groes (Ann.) wedi adeiladu ysgoldy a thŷ gweinidog newydd ac roedd angen 'clirio'r ddyled'. Ac fe wnaed hynny wedi cynnal tair eisteddfod. Bellach, yng ngeiriau Emrys Jones, 'gwarchod y pethe' yw'r prif amcan. Arwyddair yr eisteddfod o'r dechrau fu'r geiriau: 'Gorau arf, arf dysg'. A pha arwyddair gwell y gellir ei gael? Meddai Gruffydd Hughes a Hugh Iorwerth Jones, awduron y Traethawd Coffa i David Jones, Pen y Bont: 'Credai yn gryf yn yr Eisteddfod fel cyfrwng addysgiadol ac fel sefydliad i nawddogi diwylliant yn ei holl agweddau.'<sup>25</sup> Y mae'r gair 'credu' yn arwyddocaol yn y frawddeg hon. Credu ydoedd a olygai weithio'n ddiarbed i sicrhau llwyddiant y fenter newydd. Bu'n drefnydd dihafal, ac eto, ef fyddai'r cyntaf i gydnabod cefnogaeth a chydweithrediad llwyr y cwmni bychan o gydweithwyr, a'r Parchg Richard Evans yn Llywydd y Pwyllgor. (Cwbl nodweddiadol o David Jones, fodd bynnag, oedd iddo hepgor cynnwys ei enw ei hun ar raglen yr eisteddfod

gyntaf, er ei fod yn gyd-ysgrifennydd gyda William Jones, Ty'n Celyn.) O'r dechrau cynhaliwyd yr eisteddfod o dan nawdd Cymdeithas Pobl Ifanc Capel y Groes. A dyna, yn sicr, un allwedd i'w llwyddiant, fel gyda chymaint o gymdeithasau a sefydliadau eraill yn Uwchaled - rhoi digon o gyfle (a'i roi mewn pryd), i'r ifanc ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mewn sied wair, sied Thomas Ellis Hughes, Siop y Llan (sied i gadw nwyddau yn ddiweddarach), y cynhaliwyd eisteddfodau 1930-3, gyda tharpwlin i'w mestyn. Yn 1934 bu raid llogi pabell i ddal mil o bobl a'i gosod ar Gae'r Ficerdy, neu 'Ficrej', ar lafar gwlad. Ond yr un oedd trefniadau'r bwyd â chynt. Defnyddid hen Sgubor Ddegwm y Rheithordy a rhaid oedd cario'r dŵr o bistyll Pen y Bont a'i ferwi wedyn mewn boelar yn yr hen dŷ golchi gerllaw'r Sgubor. Cai'r bara ei bobî yn y popty mawr yn Nhy'n Celyn, Tŷ Newydd a Glanrafon, a'i dorri yn hofel yr hen Ficerdy. Am bum mlynedd yn ystod y Rhyfel (1940-4) nid oedd modd llogi pabell, ond cafwyd eisteddfodau llwyddiannus iawn a difyr yn sied wair Ystrad Bach - tarpwlin, unwaith eto, i'w mestyn, a chefnau tair lori yn llwyfan.

Daeth saith o gorau cymysg i eisteddfod gyntaf Llangwm yn 1930, a Phentrefoelas yn ennill. Ond nid clywed y corau yw prif atgof Emrys Jones a oedd bryd hynny yn hogyn nawmlwydd oed, ond cofio 'cael modd i fyw yn gwerthu rhaglen y dydd cyn i'r bobl ddisgyn o'r bysus bron iawn!' Mae'n cofio cystadlu gyda chôr plant yr ysgol, a'r darn prawf oedd: 'Daw meddyliau am y nefoedd'. A chofio hefyd eiriau doeth ei fam wrtho ef a'i chwaer, Eirlys, wedi i'r ŵyl fynd heibio: 'Dwi'n falch bod y steddod wedi dwad i Langwm 'ma, er mwyn i chi ddysgu cael eich curo gan rywun arall'.

Nid oedd y gwerthwr rhaglenni ifanc brwd fawr feddwl bryd hynny y byddai, ymhen ychydig flynyddoedd, yn gorfod bod yn gyfrifol am gynnwys rhaglen y dydd, yn ogystal â threfnu i'w gwerthu. Yn sicr, ni freuddwydiodd y byddai'n parhau wrth y llyw fel Ysgrifennydd Eisteddfod Llangwm wedi cyfnod o hanner can mlynedd a mwy. Ond torchi llewys o ddifrif fu raid yn 1945, wedi marwolaeth ei dad, 7

Rhagfyr 1944. Mewn sgwrs gydag Eifion Glyn yn Y Cymro, wedi iddo ennill Medal Syr Thomas Parry-Williams yn 1981, pwysleisiodd Emrys Jones mai yr un prif symbyliad oedd 'dal ati gyda gwaith ei dad'.<sup>26</sup> Yn ddiweddarach, mewn atgofion ganddo yn 1994, mae'n cydnabod eto ei ddyled fawr i'w dad, a'r un modd i'w gydweithwyr am bob cymorth. Mae'n diolch hefyd i'w chwaer, Eirlys, am ei help hithau fel Ysgrifenyddes am bedair blynedd pan ddechreuodd ef yn ei swydd newydd gyda'r Bwrdd Marchnata Llaeth yn 1946. Meddai am waith ei dad fel Ysgrifennydd:

'Roedd pob cofnod wedi'i gadw'n fanwl, y cyfrifon yn berffaith, a chyfeiriadau cannoedd o gystadleuwyr, ac enwau beirniaid o bob adran yn ddiogel mewn llyfr. Roedd dilyn yn ôl troed fy nhad yn dipyn o her, ond unwaith eto cefais gymorth gwerthfawr gan Mam, ac y mae gennyf ddyled fawr i nifer o rai eraill hefyd am eu gwaith...'<sup>27</sup>

Bellach mae Dewi Prys Jones, mab Emrys Jones, yn gyd-ysgrifennydd.

Mewn ysgrif yn y gyfrol Ŷd Cymysg cynigiodd yr Ysgrifennydd rai rhesymau paham fod cymaint o gorau a chystadleuwyr o bob rhan o'r Gogledd yn dylifo bob blwyddyn i Eisteddfod Llangwm.

'...bwyd da, parcio ceir am ddim, eisteddfod gartrefol, talu'r pwyth yn ôl i gorau Llangwm, beirniaid safonol. Ond, yn fwy na dim, maent yn sicr o gystadleuaeth dda, ac mae hynny'n bwysicach na'r wobr. Mae cydweithio hapus hefyd rhwng pawb sy'n ymwneud â hi, ac erbyn heddiw mae pawb yn gwybod ei waith i'r dim.'<sup>28</sup>

Cyfeiriodd Emrys Jones hefyd yn y dyfyniad uchod at y cydweithio hapus. Y mae hyn, wrth gwrs, yn elfen hollbwysig. Gwaith caled yw trefnu unrhyw eisteddfod, ond ysgafnheir y baich pan fo'r gwaith yn fwynhad - boed yn baratoi bwyd, gwerthu tocynnau, neu baratoi rhaglen. Meddai ymhellach yn yr un ysgrif, wrth sôn am y pwyllgorau:

'Digon yw dweud eu bod yn bwyllgorau iach a llawer o dynnu coes ynddynt. Un hen frawd ym mhwyllgor un o'r eisteddfodau cyntaf yn cynnig "peg mochyn" yn destun englyn, a'r hen weinidog [Richard Evans] yn ceisio dweud yn ei ffordd ddoeth ei hun nad oedd yn destun gweddus, ond y cynigiwr yn methu gweld lygad yn llygad gan ei fod yn cael cig moch i frecwast bob dydd!'<sup>29</sup>

Y mae, fodd bynnag, un rheswm pwysig arall am lwyddiant Eisteddfod Llangwm, ac y mae'r rheswm hwnnw'n amlwg: yr Ysgrifennydd ei hun. Am dros hanner can mlynedd bu'n estyn croeso cynnes i Langwm trwy air caredig ar y ffôn, neu yng nghwmni cyfeillion a chydabod; gwên ac ysgydwad llaw; ac estyn rhaglen yr eisteddfod: 'cofiwch ddod'; 'mi fyddwn yn falch o'ch gweld'; 'rydech chi'n siwr o fwynhau'. Boed gôr; boed gystadleuydd unigol; boed wrandäwr - yr un yw cynhesrwydd y gwahoddiad. Mae angen cystadleuwyr a chynulleidfa. Y mae'n 'nabod ei bobol' - eisteddfodwyr brwd a phobol y pethe - ac yn cwrdd â llawer ohonynt yn eisteddfodau'r Gogledd, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae ef ei hun a chystadleuwyr o Langwm yn cyd-gefnogi eisteddfodau eraill. A dyna hanfod diwylliant byw: cyd-gefnogi, cyd-ymroi a chyd-fwynhau.

Yn Eisteddfod Llangwm, 24 Mehefin 1995, cyflwynodd y Parchg Gareth Huws, Llywydd y Pwyllgor, gyfres o englynion i Emrys Jones yn cydnabod ei gyfraniad nodedig fel Ysgrifennydd am 50 mlynedd. Y prifardd Elwyn Edwards yw awdur yr englynion, a dyma dri ohonynt.

Cario hoen eu bro o'r crud - a'i daenu  
 Wna dynion celfyddyd;  
 Taenu â dolef hefyd,  
 Llenwi'r bwlch yn Llannau'r byd.

Aeth hoelion dy droedio'n drwm - ar lwybr hil  
 A'i barhad yn Llangwm;  
 Iasau cân yn asio cwm,  
 Glain hen galon yn gwlwm.

Rhoi'r glaw i ddeffro'r gleien - a'r deri  
 Hyd erwau'r tir cymen,  
 A meithrin pob eithinen  
 Â llaw wrth gynnal ein llên.<sup>30</sup>

## Llên y Llannau

Cyn dirwyn y sylwadau hyn am eisteddfodau Uwchaled i ben, rhaid cyfeirio'n fyr at un arall o gymwynasau Emrys Jones, sef sefydlu Llên y Llannau, yn 1958. Dyma'r cyhoeddiad gwerthfawr sy'n diogelu cynhyrchion llenyddol buddugol eisteddfodau'r llannau: Llandderfel, Llanfachreth, Llangwm a Llanuwchllyn. Ac wedi'i sefydlu, bu'n gofalu'n gariadus amdano i sicrhau ei lwyddiant. Ef fu'r Ysgrifennydd o'r dechrau, a bu'n cydweithio'n agos â'r golygyddion a'r cyhoeddwyr. Ef hefyd fu'r prif drefnydd gwerthiant a chyhoeddusrwydd. Argreffir mil o gopiâu, a phan ddaw'n amser gwerthu, mae copiâu o Llên y Llannau, megis rhaglenni'r Steddfod, bob amser ym mhoced ac yng nghar yr arch-werthwr o Langwm.

Ar wahân i gynnwys cerddi cofiadwy ac ysgrifau, y mae yn y cyhoeddiad hwn (ac yn arbennig o'r saithdegau ymlaen) draethodau gwerthfawr a difyr ar sawl agwedd ar hanes lleol y pedwar llan a'r ardaloedd cyffiniol. Ymhlith cynhyrchion Eisteddfod Llangwm, awduron y mwyafrif o'r traethodau cynhwysfawr buddugol yw Emrys Jones a'i chwaer, Eirlys Lewis Evans, Y Rhyl. Ysgrifennwyd traethodau gan Eirlys Lewis Evans ar 'Seiri Cochion Llangwm'; 'Byr Nodiadau ar Hen Feirdd Uwchaled'; 'Ysgol Llangwm'; 'Rhyfel y Degwm yn Llangwm a'r Cylch'; a 'Thraddodiad Corawl Uwchaled'. Emrys Jones yw awdur y traethodau a ganlyn: 'Annedd-dai Adfeiliedig Plwyf Llangwm', 'Traddodiad Eisteddfodol Uwchaled'; 'Hen Fasnachwyr Plwyf Llangwm', 'Hen Weinidogion Uwchaled o Ddechrau'r Ganrif'; a 'Sioe Cerrigydrudion, 1894-1994'.<sup>31</sup>

Llwyd o'r Bryn a ysgrifennodd y cyflwyniad i rifyn cyntaf Llên y Llannau (Eisteddfodau 1958). Fel hyn, yn ei arddull fywiog, ddifyr ei hun, yr adroddodd hanes sefydlu'r cyhoeddiad, gan gyfeirio, yn gyntaf, at y duedd i gynhyrchion llenyddol yr eisteddfodau fynd ar ddifancoll.

'... Enw'r fynwent oedd "Drôrs yr Ysgrifenyddion". Gelynyon y fynwent oedd eu gwagedd adeg chwalfa Clwy'r Gwanwyn, ond daeth gwaredigaeth rannol i bedair o'r gwagedd hynny!... Bu'n demtasiwn i ysgrifennu ar bedigri y pedwar Llan, a'r bersonoliaeth a berthyn i bob un. Gweriniaeth Llanfachreth, bywiogrwydd Llanuwchllyn, traddodiad

Llandderfel a chartrefolrwydd Llangwm, a'r pedair Eisteddfod yn binaclau holl weithgareddau blwyddyn. Ond rhaid ymatal... Cofiwch o hyd fod barn gyhoeddus y gweddill o Gymru yn edrych i fyny at y cornelyn hwn fel lle sy'n anwesu y nodweddion gorau a berthyn i'r genedl. Peidiwch â'i siomi. Yr hen Emrys Pen y Bont, Llangwm, yw'r Offeiriad a briododd y Pedwar Llan, a gwnaeth ei waithystal â'r un Person Plwy. Clod iddo.'<sup>32</sup>

Yn rhifyn 1983 o Llên y Llannau (Eisteddfodau 1982) cafwyd cyfresi o englynion i gyfarch y cyhoeddiad yn bump ar hugain oed. Dyma baladr englyn Moi Parry (a fu'n brifathro Ysgol Llangwm):

Ein llên yn stôr rhwng cloriau - yn waddol  
Blynyddol i'r oesau...<sup>33</sup>

A dyma englyn toddaid Trefor Jones, Nant yr Helyg (gynt o Fryn Ffynnon), Llangwm:

Wyt gaer diwylliant gwerin - a godwyd  
Yn gadarn i feithrin  
Afaith yr heniaith a'i rhin - yn ei phyrth,  
A welwch chi wyrth? A glywch y chwerthin?<sup>34</sup>

### **Gŵyl Ieuenctid Methodistiaid Calfinaidd Dosbarth Cerrigydrudion**

Yn y bennod hon cawsom gipolwg ar draddodiad eisteddfodol cyfoethog Uwchaled, gan ganolbwyntio ar gyfraniad teulu arbennig - teulu Pen y Bont, Llangwm - i sicrhau parhad y traddodiad hwnnw. Y mae, fodd bynnag, un pwynt pellach i'w bwysleisio: bron yn ddieithriad, eglwysi anghydfurfiol yr ardal, neu unigolion a berthynai i'r eglwysi hynny, a fu'n ddiwyd yn trefnu'r eisteddfodau. Dylid cofio hefyd am gyfraniad clodwiw unigolion a berthynai i'r eglwys wladol, yn arbennig yn ystod y cyfnod oddeutu 1870-1930, gwŷr megis Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai, 1827-95) a fu'n rheithor Llanfihangel Glyn Myfyr (1866-72) a Llangwm (1872-95); Hugh Hughes (bu f. 1901), athro Ysgol Cerrigydrudion; a Dafydd Jones (1850-1936), Bryn Saint, Cerrigydrudion, hen ewyrth i Emrys Jones.



O gofio, felly, am swyddogaeth ganolog yr eglwysi yn cynnal y traddodiad eisteddfodol yn Uwchaled, nid yw'n anodd amgyffred paham y penderfynodd Cyfarfod Ysgolion MC Dosbarth Cerrigydrudion sefydlu 'Gŵyl yr Ysgol Sul', Mawrth 1953. Enw arall arni yw 'Gŵyl Ieuenctid Methodistiaid Calфинаidd Dosbarth Cerrigydrudion'. Cynnwys y Dosbarth hwn naw o eglwysi: Cefn Brith; Cefn Nannau, Llangwm; Cynfal, Melin-y-wig; Dinmael; Y Gro, Betws Gwerful Goch; Jeriwsalem, Cerrigydrudion; Maes-yr-odyn, Llanfihangel Glyn Myfyr; Rhydlydan; a Thŷ Mawr, Cwm Penanner. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf roedd oedran y cystadlu yn gyfyngedig o 15 i 30. Yna fe'i gostyngwyd i 12. Marciau, nid gwobrwyon, oedd i'r buddugwyr, a tharian i'r Ysgol Sul uchaf ei marciau. Yn 1991 rhoddwyd y gorau i'r elfen gystadleuol, a'r drefn bellach yw gwahodd pob Ysgol Sul i gyflwyno rhaglen, tua chwarter awr o hyd, ar thema arbennig. Cynhelir yr Wyl lwyddiannus hon yng Ngherrigydrudion, fel arfer ar nos Wener ym mis Tachwedd. Bu Eleri, merch Anwen ac Emrys Jones, yn ei thro, yn un o ysgrifenyddion yr Wyl.<sup>35</sup>

### **Cyfarfod cystadleuol - cyfarfod llenyddol - 'cwarfod bach'**

Tri enw ar yr un math o gyfarfod yw pennawd adran olaf y bennod hon: cyfarfodydd cystadleuol a gynhelir o dan nawdd y capeli. Buont mewn bri yn Uwchaled o chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw, er eu bod yn llawer llai mewn nifer bellach. Yn Y Ffynnon Arian: Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled, cyf. 1, neilltuais bennod gyfan i drafod un o'r cyfarfodydd hyn, sef Cyfarfod Bach Capel Cefn Nannau. Megis y Band of Hope a'r Penny Readings mewn ardaloedd eraill, mawr fu eu dylanwad yn meithrin talentau lleol, a phrin y cawsant y sylw a haeddant gan haneswyr. Mae'r term 'cyfarfod bach', neu 'gwarfod bach', fel y dywedir ar lafar, yn cyfleu i'r dim union natur y cyrddau hyn: cyrddau cystadleuol, cartrefol eu naws ydynt, gyda llawer o hwyl a thynnu coes. Fe'u bwriedir yn bennaf ar gyfer plant, ieuenctid ac oedolion y capel sy'n trefnu'r cyfarfod. Un nodwedd amlwg, fodd bynnag, yw'r gefnogaeth barod a roddir gan aelodau a chyfeillion capeli cyfagos. A dyna bwysleisio unwaith yn rhagor bwysigrwydd y cwlwm cymdogol - y cyd-ymroi sy'n hanfod diwylliant.

Mewn mwy nag un man cydnabu Emrys Jones ei ddyled fawr i'r cyrddau cystadleuol hyn: 'Y capel roddodd y cyfle cynta i mi feithrin hynny o ddoniau sy gen i', <sup>36</sup> meddai wrth adrodd peth o'i atgofion. Ar un adeg roedd dau gyfarfod yng Nghapel y Groes bob gaeaf a dau yng nghapel yr Annibynwyr, Gellioedd, gerllaw. Byddai'n mynd hefyd yn ifanc iawn i Gyfarfod Llenyddol Tŷ Nant (y Wesleaid), a chyfarfodydd cystadleuol eraill y cylch. Bellach, cynhelir cyfarfodydd bach y Groes a Gellioedd bob yn ail flwyddyn, yn y naill gapel a'r llall, ac y mae Emrys Jones yn parhau i wneud ei ran mor gydwbybodol ag erioed: yn hyfforddi, yn canu, yn cefnogi.

Yn yr eisteddfodau a'r cyfarfodydd cystadleuol, fel ei gilydd, ceir rychwant eang o gystadlaethau ym myd canu ac adrodd, llenyddiaeth, celf a chreffft, gwaith llaw a choginio. O ddechrau'r ugeinfed ganrif ymlaen - a hynny'n ddigon araf - y daeth cystadlaethau adrodd i ennill eu plwyf. O'r cychwyn cyntaf, fodd bynnag, cafwyd amrywiaeth helaeth o gystadlaethau cerddorol. A dyna destun y bennod sy'n dilyn: y bri yn Uwchaled ar gorau a chantorion unigol, a chyfraniad Emrys Jones a'i deulu - 'Teulu'r Seiri Cochion' - at gynnal y traddodiad gloyw hwn. <sup>37</sup>

### *'Iasau Cân yn Asio Cwm': Cantorion a Chorau*

'Iasau cân yn asio cwm...' <sup>1</sup> Mae'r llinell hon o eiddo'r Prifardd Elwyn Edwards yn ei englynion teyrnged i Emrys Jones yn addas iawn i ddisgrifio diddordeb byw trigolion Uwchaled mewn cerddoriaeth. Mae canu mewn côr a pharti a'r mwynhad o wrando ar ganu yn dwyn pobl ynghyd - 'yn asio cwm'. Cofiw'n am rai fel cyfansoddwyr dawnus. Ym mhen isaf y fynwent y tu cefn i Eglwys Ysbyty Ifan mae bedd T Osborne Roberts (1879-1948), priod Leila Megane. Iddi hi y cyfansoddodd ei gân enwog 'Y Nefoedd'. Y mae'r garreg (sy'n cynnwys englyn coffa o waith R Williams Parry) yn coffáu hefyd ei rieni: Evan ac Effie Roberts, Y Siop, Ysbyty Ifan. Cofiw'n am eraill fel cyfeilyddion rhagorol, pobl megis Henry (Harry) Jones Edwards, Pen-lan, Betws Gwerful Goch. Bu'n dysgu to ar ôl to o blant y cylch i ganu'r piano a'r organ. Felly Mrs Gaerwen Jones (1905-91), Hafod Lom, Cerrigydrudion. (Roedd Gaerwen Jones yn ferch Isgaer Wen, Pentrellyncymer, un o aelwydydd mwyaf cerddorol yr ardal, a chawn sôn eto amdani hi a'i thad, Thomas Jones.) Yr oedd hefyd gantorion nodedig, megis Bob Ellis (bu f. 1970), Pentrefoelas, un o faritoniaid enwocaf Cymru yn ei ddydd, ac arweinydd Côr Cymysg Pentrefoelas.

Claddwyd Bob Ellis ym mynwent Capel Bethel (Ann.), rhwng Pentrefoelas a Rhydlydan. A dyma ni yn ardal Tre Brys - ardal Prysiaid Plas Iolyn a'r Giler; ac ardal braf Garn Brys. Dyma bennill telyn William Jones (1907-64), Nebo, am yr ardal:

Porfa gwta'r Garn a'r Giler  
 Sydd yn hir yn graenu anner;  
 Lle bu'r eira'n aros hwyaf,  
 Mae yr haf yn aros leiaf. <sup>2</sup>

Yn ardal y Garn mae fferm Bryn Ffynnon. Dyma gartref John Roberts, y cerddor. Fe'i ganed yn Aelwyd Ucha, Nebo, a bu'n arweinydd llwyddiannus ar Gôr

Nantglyn, tua'r cyfnod 1912-15. Symudodd i Fryn Ffynnon i fyw ar ôl priodi yn 1927.

Gŵr a fu'n cyd-ganu llawer gyda John Roberts oedd Thomas Jones (1860-1932), Cerrigelltgwm Isa, Ysbyty Ifan. Fe'i ganed ef yn Nhy'n Gors, Hafod Elwy, ar Fynydd Hiraethog; symudodd i Dai Isa gerllaw yn 1872, ac i Fryn Du, Cefn Brith, yn 1897. O Fryn Du, yn 1912, y symudodd i Gerrigelltgwm, lle bu'r bardd Wiliam Cynwal yn byw (c. 1567 hyd 1588). Yn ôl pob sôn roedd Thomas Jones yn ffond o freuddwydio. Ym mis Medi 1929 breuddwydiodd ei fod un min nos yn croesi o Hafod Elwy, bro ei febyd, 'drwy Fwlch-y-dynwid ar Hiraethog, a thrwy Gwm Llaethog am Swch Pen-y-fron a Bryn Heilyn', ac yna ar ei union 'tros ferddwr Cerniogau... am Fryn Ffynnon y Garn'.<sup>3</sup> Wrth nesu at fuarth Bryn Ffynnon clywodd John Roberts yn suo-ganu a 'honc, honc rhyw ddodrefnyn coed yn cadw amser i'r gerdd'.<sup>4</sup> Canu yr oedd i'w fab bach, Edward Lloyd, sy'n byw ym Mryn Ffynnon heddiw - tri phennill o hwiangerdd hyfryd, ac awdur y geiriau oedd Thomas Jones ei hun. Dyma'r pennill cyntaf:

Si hwi, fy machgen mwyn,  
Clyw y gwynt yn dweud ei gŵyn;  
Daeth yn droednoeth dros y rhiw,  
Dod i ddwyn fy machgen gwiw!  
Ni chei mono! Gyda brys  
Hel hi'n ôl dros ben Garn Brys.<sup>5</sup>

Bu Emrys Jones yn canu'r hwiangerdd hon i gyfeiliant telyn.

Yr oedd Thomas Jones a'i frawd John Jones yn gerddorion dawnus. Dyma sylw gan Emrys Jones am un o'r ddau frawd:

'Anfarwolodd John Jones ei hun mewn Prawf Gyngerdd yng Nghorwen yn canu "How Vain is Man". Teithiodd i Gorwen, taith o dros bymtheg milltir, ar ei feisicl... Roedd golwg pur wladaidd arno yn esgyn i'r llwyfan yn ei siwt frethyn cartre, ac roedd y dorf a'r beirniad yn bur amheus ohono nes y dechreuodd ganu i gyfeiliant Bryan Warhurst, a'r beirniad, Wilfrid Jones, yn ei ddyfarnu'n gyntaf o ddigon allan o bymtheg.'<sup>6</sup>

Cyfeiriwyd eisoes at dalent gerddorol teulu Ty'n-y-graig, Cefn Brith - teulu Ceinwen Rowlands, y gantores. Manteisiodd Capel Cefn Brith a'r ardal yn fawr hefyd ar wasanaeth teulu cerddgar Bryn Du, pan oedd y brodyr John a Thomas Jones yn byw yno. A dyma'n hatgoffa, fel y gwneir droeon yn y gyfrol hon, o gyfraniad hollbwysig teuluoedd yn creu ac yn cynnal diwylliant. Gŵyr Cymru gyfan am y tenor persain o Ben y Bryniau, Betws Gwerful Goch, sef Trebor Edwards, ond ef fyddai'r cyntaf, rwy'n siwr, i gydnabod ei ddyled fawr i'w deulu, ac yn arbennig i'w daid, Clement Jones, a'i dad, Bob Edwards, Castell, Llangwm. Roeddynt yn yr un teulu â theulu Dafydd Cadwaladr, y pregethwr a'r cymeriad o Erw Dinmael y soniwyd amdano eisoes. Yn amlach na pheidio, nid hap a damwain yw etifeddu llais godidog a dawn i ganu. Y sylw cyffredin yw: 'mae o yn y teulu'; 'be 'dech chi'n i ddisgwyl?' Ond wedi etifeddu llais a dawn, rhaid eu meithrin a chynnal y diddordeb.

### **Thomas Jones, Plas Nant, a Theulu Gwern Nannau**

'Mi aeth 'na ryw bac o Langwm 'ma i steddod yn Llandrillo ac ennill pob cystadleuaeth - yr adrodd a'r canu',<sup>7</sup> meddai Thomas Hughes, Fron Isa, wrth Emrys Jones un tro. Arferai Ben Jones, Pentrefoelas, yntau, ddweud bod 'canu ym mhridd Llangwm'.<sup>8</sup> Gwir y geiriau. Cofiwn, er enghraifft, am Thomas Jones (1910-85), Plas Nant. Ganddo ef yr oedd un o'r lleisiau bâs gorau a fu gan neb erioed yn Uwchaled a'r cyffiniau. Pan oedd Thomas Jones yn fachgen ifanc ac yn gweithio yn Ystrad Bach, dyma Mrs Jones, Ystrad Bach, yn ei berswadio i roi cynnig ar yr unawd yng Nghyfarfod Llenyddol Capel Cefn Nannau. Emyn mawr Maes-y-plwm, Llanrhaeadr Dyffryn Clwyd, oedd y darn prawf: 'Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen...' Cytunodd, ond roedd yn nerfus iawn. Ar ganol yr ail bennill, penderfynodd adael y sêd fawr. Ond fe barhaodd i ganu nes cyrraedd cefn y capel, a'r gynulleidfa yn eu dyblau yn chwerthin ac wedi dotio at y llais nodedig. Wedi hynny, bu 'Tom, Plas Nant', yn canu llawer yng nghyfarfodydd bach y cylch ac yng Nghôr Meibion a Chôr Cymysg Llangwm. Mae rhai o'r to hŷn yn yr ardal yn cofio'n dda amdano yn canu, er enghraifft, y ddeuawd 'Lle Treigla'r Caveri' gyda Dafydd Jones, Glyn Nannau. A chofio hefyd rai o'r unawdau yr arferai eu canu, megis: 'Y

Marchog', Joseph Parry, geiriau gan John Lodwick; 'Arthur yn Cyfodi', W S Gwynn Williams, geiriau gan Robert Roberts (Silyn); 'Bryniau Aur fy Ngwlad', T Vincent Davies, geiriau gan Evan Rees (Dyfed); a 'Mab yr Ystorm', W Bradwen Jones, geiriau gan T Gwynn Jones. Mewn eisteddfod ym Mhentrellencymmer yn gynnar yn y tridegau bu Thomas Jones, Plas Nant, yn fuddugol ar yr unawd o dan 25. David Lloyd, y tenor adnabyddus, oedd yn ail.<sup>9</sup>

Roedd dileit mewn canu yn amlwg mewn sawl teulu. Yn achos Thomas Jones, Plas Nant, roedd y diddordeb yn amlwg ar ochr ei dad, John Jones, saer coed, a William Jones, 'Ci Glas', yr hyfforddwr sol-ffa y cyfeiriwyd ato eisoes. (Roedd ef yn frawd i'w nain.) Felly hefyd ar ochr ei fam, Maggie Jones. Ei thaid hi (tad ei mam) oedd Thomas Edwards (bu f. 1898, yn 74 mlwydd oed), Ty'n Rhos, Cwm Penanner. Ef oedd awdur y dôn 'Ty'n Rhos' a alwyd wedyn yn 'Gwinllan'. Arferid ei chanu'n aml ar eiriau emyn Pantycelyn: 'Pererin wyf mewn anial dir...'

Yn ugeiniau a thridegau'r ugeinfed ganrif roedd cymaint â phump neu chwech o fechgyn ifanc o ardal Llangwm yn cystadlu ar yr unawd agored yng nghyfarfodydd bach y cylch, a'r ymgeiswyr oll yn cyflwyno unawdau clasurol, safonol. Un o'r cystadleuwyr oedd cymydog Thomas Jones, Plas Nant, sef Dafydd Evans (1909-86), Gwern Nannau. Roedd ganddo yntau, fel ei dad, Robert Evans, lais bâs da. Mab i Dafydd Evans yw Trebor Lloyd Evans, Dolgellau, enillydd cenedlaethol ar yr unawd bâs. Mab arall yw Gwynfor Lloyd Evans, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Bydd eisteddfodwyr brwd siroedd Dinbych a Meirion yn cofio'n dda amdano ef rai blynyddoedd yn ôl yn ei morio hi yn llawn hwyl ar lwyfannau'r Gogledd gyda'r gân werin 'Yr Hen Wyddeles' ('Bwmba').



## 'Pethe ar y silff ben tân yn tincial i'w lais': tenoriaid nodedig 'Teulu'r Seiri Cochion'

Teulu cerddorol enwocaf ardal Llangwm oedd teulu Emrys Jones, Pen y Bont - 'Teulu'r Seiri Cochion'. Soniwyd eisoes am Hugh Jones (1850-1936), Ty'n Foelas, a Dafydd Jones (1850-1936), Bryn Saint, brodyr i dad David Jones, Pen y Bont, a thaid Emrys. Yn ogystal â bod yn arweinyddion corau dawnus, yr oeddynt hefyd yn unawdwyr o fri. Mae gan Emrys Jones gof plentyn am ei hen ewyrth, Hugh Jones, yn dod i Ben y Bont. 'Bydde'n canu', meddai, 'nes oedd y pethe ar y silff ben tan yn tincial i'w lais'.<sup>10</sup> Enillodd wobrau lawer, gan gynnwys, er enghraifft, fedal arian Eisteddfod y Golomen Wen, Penbedw (Birkenhead).

Llais tenor nodedig oedd gan Hugh Jones. Felly ei nai, David Jones, tad Emrys. Disgrifiodd un beirniad ei lais ef fel 'robust tenor'.<sup>11</sup> Prin y newidiai'r llais wrth fynd i fyny nac i lawr; gallai daro'r dwbl C, meddid, heb newid ansawdd ei lais. Canai ddeuawd yn aml gyda Hugh Roberts (Eos Nannau), Bryn Nannau, Llangwm. Ceir sôn am y gynulleidfa yn codi ar eu traed wedi i'r ddau ganu yn Eisteddfod Penyfed, 1922. Bu'n canu deuawd rai troeon gyda Bob Ellis, y bariton o Bentrefoelas, a chyda J T Jones, Derwydd. Enillodd oddeutu dau gant a hanner o brif wobrwyon mewn eisteddfodau, ac yn un o eisteddfodau mawr Pentrefoelas dywedir iddo ef a'i gyd-unawdydd ganu'r ddeuawd 'Plant y Cedryn' (gan Joseph Parry, geiriau gan Eifion Wyn), nes i'r 'gynulleidfa feddwl bod y to yn codi!' <sup>12</sup> Dro arall bu'n canu gyda Chôr Meibion Cerrigydrudion ('Côr Meibion Uwchaled', fel y câi ei alw), yng Nghonwy, a D Jenkyn Hughes, bryd hynny, yn arwain. Dywedir i'r Côr, a David Jones, fel prif unawdydd, ganu 'Cytgan y Chwarelwyr' (gan David Jenkins, geiriau gan Alafon) 'fel 'se murie Castell Conwy'n clecian'.<sup>13</sup>

Roedd canu yn llenwi ei fywyd. Ie, hyd yn oed wrth eillio! Fel hyn y mae awduron y Traethawd Coffa yn ei ddisgrifio'n ymdopi â'r seremoni bwysig honno, ac yntau prin yn gallu gweld dim: 'Ni fyddai byth yn sefyll yn llonydd yn ei unfan, ond rhyw gerdded yma ac acw ar draws ac ar hyd yr ystafell, ac ar ganol y cwbl nid peth

anghyffredin fyddai iddo seinio pwt o gân nes byddai'r tŷ yn diasbedain'.<sup>14</sup> A dyma un sylw hyfryd pellach am y tad, y tro hwn gan y mab:

'Ni fyddai yng nghwmni neb yn hir na fyddai wedi torri allan i ganu - yn enwedig wrth deithio ar y bŷs, a'r un fath wrth fynd i gasglu'r dreth neu'r rhenti i'r Cyngor. Mae'n debyg mai dyma ei ffordd reddfol ac unigryw ef o wneud pawb yn hapus. Ag [sic.] yntau wedi dioddef cymaint ei hun, roedd fel pe bai'n mynd o'i ffordd i godi calonau pawb arall.'<sup>15</sup>

I David Jones roedd canu'n rhan naturiol o fywyd bob dydd. Mae sôn hefyd yn Uwchaled am gantorion llawer llai galluog nag ef yn mentro i ganu mewn mannau digon annisgwyl, ac i gynulleidfaoedd mwy annisgwyl fyth! Cyfeiriodd Owen Hughes (1891-1987), 'Now Pen-gob', Llangwm, at gyfarfod cystadleuol yng Ngelliöedd, tua 1903, a William Rolant, Llwyn Gwgan, yn ennill ar yr unawd: 'oedd o'n egsbyrt; oedd o'n 'u curo nhw bob tro... Dyw! oedd o'n gwarfod mowr ochi, ag oddne fedal am bob peth o'ch chi'n 'i gynnig arno - medal arian a chanol aur iddi'.<sup>16</sup> Un o'r cystadleuwyr oedd 'Rhoert Jones, Bwtsiar', Rhos Castle (Cwm Eithin yw'r enw heddiw), Cerrigydrudion. A dyma sylw ffraeth Owen Hughes: 'Fyde hwnnw'n dwad i drïo. Ac oedd o wrthi'n pracdisio, a'r mochyn oedd yn gwrando arno fo yn y cae, yn 'i ymyl o. Roedd y mochyn efo fo hyd y ceue bob dydd'.<sup>17</sup> Y gân yr oedd Robert Jones yn ei chanu ydoedd: 'Ai marw raid i mi?'

### **Corau Pentrefoelas, Ysbyty Ifan, Cwm Penanner, Pentrellyncymer, Llanfihangel a Dinmael**

Dyna gipolwg ar ychydig o gantorion unigol yn Uwchaled. Fel y dangosodd Eirlys Lewis Evans, chwaer Emrys Jones, yn ei thraethawd: 'Traddodiad Corawl Uwchaled',<sup>18</sup> bu yn y fro hon hefyd gorau niferus a wnaeth gyfraniad gwerthfawr iawn i ddiwylliant y cylch. A dyma air byr yn unig am rai o'r corau hyn. Yn niwedd y ganrif ddiwethaf roedd Côr Cymysg llwyddiannus ym Mhentrefoelas o dan arweiniad Jenkyn Roberts. Bu Benja (Benjamin) Jones yn arwain wedi hynny ac fe'i dilynwyd ef gan Bob Ellis, y bariton adnabyddus. O dan ei arweiniad ef, er enghraifft, enillodd y côr yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 1933. Bu Côr

Plant enwog yn yr ardal hefyd a fu'n sbardun i gychwyn a chynnal Eisteddfodau Pentrefoelas, 1920-8. Yn Ysbyty Ifan, yn agos i Bentrefoelas, ceir sôn am gôr mor gynnar ag 1871 yn cystadlu yng Nghyfarfod Mawrth, Cerrigydrudion, ac yn canu 'Teilwng yw'r Oen'. Enw'r côr hwnnw oedd 'Ysbyty Ifan United'!

Ardal fechan, wasgaredig, yw Cwm Penanner. Eto, yn 1945, roedd yma gôr o dan arweiniad R O Roberts yn cystadlu yn Eisteddfod Llangwm. Ardal wledig a gwasgaredig arall yw Pentrellyncymer - yn cynnwys dau gwmwd: Ffrithoedd a Hafod Elwy. Fel y dengys rhai o lythyrau T Gwynn Jones at ei gyfeillion, sef Thomas Jones, Cerrigelltgwm (Tai Isa, Hafod Elwy gynt), a'r brodyr Tom a David Owen, roedd y fro hon, tua'r cyfnod 1850-1930, yn nodedig am gyfoeth ei diwylliant: beirdd, hynafiaethwyr a chantorion.<sup>19</sup> Roedd Tom Owen (1866-1935), Tan Graig, Hafod Elwy, yn feistr y cywydd a'r englyn. Felly ei gyfaill, y cymeriad ffraeth Dafydd Jones (1859-1936), Tai Ucha y cawn gyfeirio ato eto. Ymddiddorai'r ddau yn fawr hefyd, fel Thomas Jones, Tai Isa, mewn hynafiaethau a cherddoriaeth. Dwy o aelwydydd mwyaf cerddorol y cylch oedd Isgaer Wen a Phentredraw. William Charles Edwards, Pentredraw, oedd arweinydd Côr Meibion Pentrellyncymer. Roedd ef yn fab i'r Parchg John Edwards, gweinidog Capel Hermon (Ann.), Pentrellyncymer, ac yn gerddor galluog. Bu'r côr yn cystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau ddiwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon. Arferai'r aelodau gwrdd i ymarfer yn nhai ei gilydd, a theithio o'u cartrefi anghysbell ar gefn merlod. Wedi marw William Charles Edwards yn 1914, yn ŵr ifanc 48 mlwydd oed, bu Thomas Jones, Isgaer Wen yn arwain y côr.

Cyfeiriwyd eisoes at gyfraniad Cadwaladr Llwyd i gerddoriaeth a'r eisteddfod. Bu ef yn amlwg hefyd gyda Chôr Llanfihangel Glyn Myfyr yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Ei brif amcan yn sefydlu'r côr oedd hyrwyddo caniadaeth y cysegr. Un o feibion cerddgar teulu'r Gronglwyd, Cerrigydrudion, oedd William Jenkyn Hughes. Symudodd i fyw i Gernant, Dinmael, ac ef oedd arweinydd Côr Cymysg Dinmael. Ceir hanes y côr hwn yn ennill, er enghraifft, yn Eisteddfod Penyfed, 1921.

## Dau gôr a thri brawd: Corau Cymysg Cerrigydrudion a Llangwm

Dau o gorau enwocaf Uwchaled yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf a chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif, heb os, oedd Corau Cymysg Cerrigydrudion a Llangwm. Roeddynt yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mor gynnar ag 1870 yng Nghyfarfod Mawrth Cerrigydrudion. Yn Eisteddfod 1871 enillodd Côr Llangwm yn canu 'Yr Haf' a 'Theilwng yw'r Oen', a Chôr 'Cerrig' yn ail, yn canu 'Y Gaeaf' a 'Chanig y Clychau'.<sup>20</sup> Aeth Côr 'Cerrig' o nerth i nerth o dan arweiniad Dafydd Jones, Bryn Saint. Felly hefyd Gôr Cymysg, Llangwm, o dan arweiniad ei frawd, Owen ac, wedi hynny, Hugh Jones. Bu frwd yr ymgiprys a'r tynnu coes rhwng y brodyr, sef brodyr i daid Emrys Jones. Cafwyd hefyd sawl profiad cofiadwy. Y mae Eirlys Lewis Evans yn ei thraethawd yn cofnodi hanesyn diddorol a adroddwyd gan Dafydd Jones, wedi i'w Gôr ennill yn Eisteddfod Pwll-glas, 1897.

'Y darn prawf oedd "Bydd Melys Gofio y Cyfamod". Mae'n debyg i fam Dafydd Jones farw ychydig ynghynt, a phan oedd ef a'i frawd [Hugh] gyda hi un noson llefarai eiriau "Bydd Melys Gofio", a dweud mai dyna pryd y sylweddolodd bwysigrwydd y geiriau. Erfyniodd ar i'w meibion i ymddiried yn Nuw a chanu mawl iddo am ei drugareddau rhyfeddol. Dyma'i geiriau olaf, a chyd-ddigwyddiad rhyfedd oedd i'r trydydd mab ennill y Gadair a gynigiwyd yn Eisteddfod Pwll-glas pan arweiniodd ei gôr i fuddugoliaeth wrth ganu yr union eiriau.'<sup>21</sup>

Yn Eisteddfod fawr Llandudno, 1899, roedd 'Côr Unedig Cerrigydrudion' yn cystadlu yn y brif gystadleuaeth gorawl, gydag 85 o leisiau. Roeddynt wedi llogi trênn arbennig i'w cludo o Fetws-y-coed ac yn ôl. Yn ôl adroddiad yn y Denbighshire Free Press,<sup>22</sup> gwisgai'r sopranos dei coch, a'r altos dei gwyn. Gwisgai'r tenoriaid grafât glas a'r baswyr grafât gwyn. Dyfarnwyd Côr Pen-dref Bangor yn gyntaf, oherwydd eu bod wedi canu'n berffaith, a Chôr 'Cerrig' yn ail, oherwydd iddynt wneud tri chamgymeriad bychan! Ond gan Gôr 'Cerrig' yr oedd y lleisiau gorau ac, heb amheuaeth, yn ôl y gymeradwyaeth, y côr hwn yn canu 'Worthy is the Lamb', gan Handel, a 'Seren Unig', gan Isalaw, oedd dewis y gynulleidfa. A hoff gôr hefyd y gohebydd yn y Manchester Guardian a gyfeiriodd yn ei adroddiad at 'the wild mountain whence they came'.<sup>23</sup>

Yn y tridegau daeth David Jenkyn ('DJ') Hughes, un arall o feibion cerddgar Gronglwyd, i arwain Côr Cymysg Cerrigydrudion. Roedd ef eisoes wedi bod yn arweinydd llwyddiannus iawn ar Gôr Meibion Uwchaled. Brawd iddo oedd William Jenkyn Hughes, arweinydd Côr Cymysg Dinmael, a dyma enghraifft amlwg arall o gyfraniad arbennig teuluoedd yn hyrwyddo diwylliant. Yn ddiweddarach bu hefyd Gôr Merched a Chôr Plant yng Ngherrigydrudion. Bu gan Mrs J E Roberts, Bodiwan, Cerrigydrudion, er enghraifft, Gôr Plant llwyddiannus iawn yn y pumdegau. Erbyn hyn daeth cynrychiolaeth o'r to iau, megis Mrs Nesta Richards, Pentrellyncymer, Mrs Ann Edwards, Pentredraw, a Mrs Nan Owen, Hendre Arddwyfan, i arwain corau a phartion plant ac ieuenctid ar gyfer cyngherddau ac eisteddfodau'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc.

Ni wn pa bryd y sefydlwyd Côr Cymysg Llangwm, ond roedd yma gôr yn 1870 o dan arweiniad Thomas Roberts, Gwern Nannau, Llangwm. Roedd yn ddisgynydd i John Ellis, y cerddor, awdur Mawl yr Arglwydd, y soniwyd amdano eisoes. Yng Nghyfarfod Mawrth Cerrigydrudion, 1871, roedd yn ennill y wobr gyntaf a'r ail am gyfansoddi tôn.<sup>24</sup> Pan fu Thomas Roberts farw, daeth un o'i ddisgyblion i'r adwy i arwain y côr, sef Owen Jones (1858-1922), un o feibion Canol Llan, Llangwm, o 'Deulu'r Seiri Cochion', a brawd i daid Emrys Jones. Roedd yn gerddor galluog. Dywedir ei fod yn cynnal dosbarthiadau sol-ffa yn fachgen ifanc ac mai dwy ar bymtheg mlwydd oed ydoedd pan dderbyniodd yr her i arwain Côr Llangwm (yn 1875?). Cyfeilydd y côr oedd merch ifanc o'r enw Esther Margaret Roberts, merch Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai), rheithor Llangwm ar y pryd. Hi, yn 1880, a ddaeth yn wraig iddo. Wedi cyfnod yn gwneud gwaith saer yn Lerpwl, dychwelodd Owen Jones i Langwm i fyw a chartrefu yn Nhy'n Foelas. Yn 1890 symudodd y teulu i Fryngwyn, Llanegryn, a chawn ddilyn peth o'i hanes ef eto, a'i feibion, sef John Owen (Owen Bryngwyn), y canwr, a William Ellis ('WE'), un o sefydlwyr Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.



Rydym eisoes wedi sôn am Hugh Jones (1855-1936), brawd Owen Jones, a'i ddawn gerddorol. Ef a ddilynodd ei frawd yn 1890 fel arweinydd Côr Llangwm. Er ei fod, yn ôl yr hanes, yn gallu bod braidd yn ddiamynedd ambell dro onid oedd y canu yn hollol wrth ei fodd, bu'n arweinydd rhagorol am oddeutu deng mlynedd ar hugain. Yn ystod y cyfnod hwn daeth Côr Cymysg Llangwm, fel Côr Cymysg 'Cerrig' (o dan arweinyddiaeth ei frawd, Dafydd Jones) i enwogrwydd mawr.

Dilynwyd Hugh Jones fel arweinydd Côr Llangwm gan ei fab yng nghyfraith, Hugh Roberts (Eos Nannau), Bryn Nannau, ac wedi hynny gan ei nai, David Jones, Pen y Bont. Wedi'r flwyddyn 1930 bu amryw o gerddorion y cylch yn arwain y Côr Cymysg, sef David Williams, ysgolfeistr Llangwm; Robert Ellis, Llechweddfygyn; Owen Hughes, Pen-y-gob; Ifor Hughes, Ystrad Fawr; Mary Jones, Cerrigydrudion; ac Emrys Jones, Pen y Bont. Ymunodd Emrys â'r Côr yn llanc ifanc dwy ar bymtheg, a daeth yntau i'r adwy fel arweinydd tua'r cyfnod 1966-73, gan barhau traddodiad teuluol nodedig.

Ym mynwent Capel Gellioedd ceir y cwpled a ganlyn ar garreg fedd Robert Ellis (bu f. 5 Hydref 1972 yn 81 mlwydd oed):

Mwyn iddo angerdd cerddor  
A gwledd cynghanedd y côr.

Y mae'r geiriau hyn yn addas iawn hefyd i gofio cyfraniad pob un a fu'n arwain corau a phartïon gyda brwdfrydedd ac ymroddiad yn ardal Llangwm ac Uwchaled o chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw.



## Côr Meibion Llangwm a'i arweinydd: David Jones, Pen y Bont

Fel petai sefydlu Eisteddfod Llangwm yn 1930 ddim yn ddigon o waith i David Jones, tad Emrys Jones, aeth ati'n frwd hefyd i godi côr o'r newydd ar gyfer yr eisteddfod honno. A dyma gychwyn Côr Meibion Llangwm sydd wedi parhau mewn bri hyd heddiw. Y côr hwn, yn canu 'Comrades Song of Hope', a enillodd yn Eisteddfod gyntaf Llangwm, 26 Mehefin 1930.

Yn ogystal â chystadlu llawer mewn eisteddfodau, bu'r côr yn brysur hefyd yn cadw cyngherddau. Ar yr ail ar hugain o Fedi 1934, er enghraifft, yr oedd yn canu mewn cyngerdd yn Neuadd Picton, Lerpwl, o dan nawdd Eglwys MC, Belvidere Road. Mae rhaglen y 'cyngerdd mawreddog' hwn ar gael.<sup>25</sup> Dyma'r eitemau a ganwyd gan y côr: 'Cwm Rhondda'; 'Y Milwyr Rhufeinig'; 'Cytgan y Chwarelwyr'; 'Comrades Song of Hope'; 'Cytgan y Morwyr' (wythawd); 'Ar Lan Iorddonen Ddofn'; a dwy gân werin: 'Tra Bo Dau' a 'Cyfri'r Geifr'. Yr unawdau a gyflwynwyd gan David Jones oedd: 'Galwad y Tywysog' (gan John Henry, geiriau gan Mynyddog) a'r 'Ffarwel Cyntaf' (y gerddoriaeth a'r geiriau gan W Trefor Evans). 'Megan Aled' (Maggie Roberts, Tŷ Mawr, Llanfihangel Glyn Myfyr) oedd yr adroddwraig yn y cyngerdd hwn, a'r canwr gwerin oedd Owen Hughes, 'Pen-y-gob', Llangwm. Cyflwynodd 'Mari' a 'Hen Groesffordd y Llan' (gan R S Hughes, geiriau gan W J Parry). Yn ôl pob sôn, cafodd yntau, fel y côr, hwyl ysgubol, ac yn enwedig wrth bortreadu ei 'gariad' o'r 'bwthyn bach taclus ar ochr y bryn' a'i holl stoc o anifeiliaid:

Mae ganddi fuwch a llo, a moch a hwch,  
Hwyaid ac ieir, a'r ceffyl a'r bwch,  
Defaid ac ŵyn, a'r mul a'r ci,  
A'r cwbul yn eiddo i Mari.<sup>26</sup>

Er yr hwyl a gafwyd yn Neuadd Picton y noson honno, 22 Medi, diwrnod trist iawn oedd hwnnw. Dyna ddyddiad y danchwa yng Ngresffordd pan laddwyd 265 o lowyr. Gwnaed casgliad, a dyna, o bosibl, y casgliad cyhoeddus cyntaf tuag at gronfa'r gweddwon wedi'r drychineb fawr. Yr oedd cynorthwyo fel hyn yn gwbl unol â natur garedig David Jones, Pen y Bont. Byddai, er enghraifft, yn trefnu i'r côr

ymweld yn gyson â'r hen a'r methodig ac i ganu mewn canolfannau megis Corwen. Arferai hefyd roi anrheg i bob aelod o'r côr fyddai'n mentro i'r 'stad briodasol'.<sup>27</sup>

Yr oedd Côr Meibion Llangwm yng nghyfnod David Jones - ac y mae'n parhau i fod felly heddiw - yn fwy na chôr, yr oedd hefyd yn gymdeithas ddifyr, braf. Y mae gan Emrys Jones, yntau, atgofion diddorol lawer. A dyma un atgof am dro pur drwstan o'r dyddiau cynnar. Byddai cyngerdd bob blwyddyn yn Ysgol Llangwm, a'r côr yn cymryd rhan.

'Anghofia'i fyth', meddai, ' y tro hwnnw pan ganodd y côr "Y Milwyr Rhufeinig". Dyna lle'r oedd pawb ohonom yn gwrando'n astud, a'r côr yn 'i morio hi. Wrthi'n canu "Os cleddir fi ger y Tiber ..." yr oedden nhw pan ddaeth y stêj i lawr odditanyn nhw! Dyna be ydi amseru da!<sup>28</sup>

Ymunodd Emrys Jones â'r côr yn ddwy ar bymtheg mlwydd oed, yn 1937, ac ef bellach yw'r unig un o'r aelodau gwreiddiol. Bu hefyd yn Ysgrifennydd gweithgar i'r côr, 1959-94, ac fe'i holynwyd gan ei fab, Dewi Prys Jones.

Wedi marw disyfyd David Jones yn 1944, bu Thomas William Jones, Ty'n Pistyll, Tŷ Nant, ac Ifor Hughes, Ystrad Fawr, Llangwm, yn arwain y Côr Meibion. Yr arweinydd presennol yw Bethan Smallwood, un o blant cerddgar Gwyneth a Trefor Jones, Bryn Ffynnon, Gellioedd, gynt. O dan ei harweiniad hi, enillodd y côr droeon yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Buont hefyd ar ymweliad â Bafaria, Yr Almaen, ddwywaith, a daeth Côr Sangerrunde Mittich, Bafaria, i Langwm yn 1989 ac 1994. Cyfeilydd ymroddedig y côr ers dros ddeugain mlynedd yw Ellen Ellis, Llaethwryd, Cerrigydrudion. Yr is-arweinydd yw Rhian Jones, Bryn Medrad, merch yng nghyfraith Emrys Jones.

Ar y pedwerydd ar bymtheg o Dachwedd 1990 cafwyd noson gofiadwy iawn i ddathlu pen blwydd y côr yn drigain mlwydd oed. Cyfansoddwyd englynion cyfarch gan Medwyn Jones, Y Rhyl, brawd i Trefor Jones, Bryn Ffynnon, Gellioedd, y

cyfeiriwyd ato eisoes. Ynddynt y mae'r bardd yn sôn am 'winrawn o leisiau', 'bagad o gymeriadau', a'r 'to hŷn wedi tewhau!' A dyma un o'r chwe englyn:

Hen dadau gwych nodedig - yn moli  
Y milwyr Rhufeinig,  
A rhoi bryd ar ddod i'r brig  
Ym maes ymryson miwsig.<sup>29</sup>

### **'Cwm cerddgar, llengar Llangwm ...': Adran ac Aelwyd yr Urdd a pharhad y traddodiad cerddorol**

Ar ganol y llan yn Llangwm, ar lan nant o'r enw Cemig ac yn agos i Bont y Jiwibili (1887), fe welwn adeilad bychan twt. Yr 'Hen Ysgol Gerrig' neu'r 'Neuadd Fach' yw enw'r trigolion lleol arno. Ar y 15fed o Fedi 1934, agorwyd y 'Neuadd Fach' yn ganolfan ddiwylliannol i'r ardal, a bu wedi hynny'n fan cyfarfod pwysig i hybu diddordeb mewn canu, adrodd a drama. Am flynyddoedd bu'n 'aelwyd' yng ngwir ystyr y gair i aelodau cangen Llangwm o Aelwyd yr Urdd. A dyma un arall o gymwynasau David Jones, Pen y Bont. Ei weledigaeth a'i frwdfrydedd ef a fu'n bennaf gyfrifol am addasu'r 'Hen Ysgol Gerrig' yn fan cyfarfod hwylus i ieuenctid y fro, ac wedyn, yn 1941, bwrw iddi i sefydlu Aelwyd yr Urdd yn Llangwm.

Yn 1964 cafwyd neuadd dros dro, a mwy o le ynddi, mewn cae ger yr Ysgol - yr 'Ysgol Frics', fel y gelwid hi gynt. Yna, yn 1984, agorwyd y neuadd newydd - y 'Gorlan Ddiwylliant' yw'r enw cymwys a roed iddi - ac y mae'r gweithgareddau niferus a gynhelir ynddi bron bob nos o'r wythnos yn adlewyrchu'r bwrlwm diwylliannol sydd yn yr ardal heddiw. Bu Emrys Jones ar flaen y gad i sicrhau neuadd newydd deilwng. Rhaid i bob diwylliant byw gael canolfannau cyfarfod i gynnal y diwylliant hwnnw. Pan ofynnwyd i Emrys Jones am ddylanwad llyfrau arno, ei ateb oedd: 'Dywedd! i ni, nid llyfre oedd yn bwysig, ond Dei Gwern Nanne a Dwalad, Ifor ac Oli Hughes, Ystrad, a rheine... Dyne oedd sgwrs rhywun... canu... a dosbarthiade WEA... Bob Owen, Croesor, a Tecwyn Lloyd... 'Rhen Neuadd Bach 'ma a'r Aelwyd...' 'Dei Gwern Nanne' oedd Dafydd Evans, Gwern Nannau; 'Dwalad'

oedd Cadwaladr Davies, Tŷ Tan Dderwen. Dau fardd, dau ganwr, a dau gyfaill a fu'n cyfarfod gyda'r nos i gyd-gwmniâ, cyd-ganu a chyd-ddifyrru.

Heddiw mae'r hen 'Neuadd Fach' ar lan Cemig yn storfa i gyhoeddiadau Cymdeithas Cerdd Dant Cymru. Ac y mae hynny'n addas iawn. Y mae Ysgrifennydd y Gymdeithas a Threfnydd ei Gwyliau, Dewi Prys Jones, mab Emrys, yn byw gerllaw. Pwysicach na hyn, fodd bynnag (fel y cawn sôn eto mewn pennod arall), yw fod y traddodiad cerdd dant yn ardal Llangwm heddiw mor loyw ag erioed.

Er pan sefydlwyd Aelwyd yr Urdd yn Llangwm yn 1941 bu iddi swyddogaeth hollbwysig fel cyfrwng i hybu diwylliant ymhlith y to ifanc, a phan ddathlwyd hanner can mlynedd sefydlu'r Aelwyd yn 1991, mynegodd Trefor Jones, Bryn Ffynnon gynt, ddyled yr ardal iddi yn yr englyn hwn:

I roi arlwy'n awr hirlwm - bu i'r Urdd  
Hybu'r Iaith â'i bwrlwm,  
A'i hwyl hi a fu ynghlwm  
Â'n llawengerdd yn Llangwm.<sup>30</sup>

Gŵyr pawb sy'n dilyn Eisteddfodau'r Urdd mor aml y gwelir aelodau o Aelwyd Llangwm ar y llwyfan - yn gorau ac yn bartïon. Ac eto, er ennill yn aml, nid yr ennill sydd bwysicaf, ond y boddhad o gystadlu - 'llawengerdd', chwedl Trefor Jones.

O ddiwedd y chwedegau hyd heddiw bu bri mawr ar gorau meibion a chorau cymysg Aelwyd yr Urdd, Llangwm. Dyna pryd y sefydlodd Emrys Gôr Meibion yr Aelwyd ac, yn fuan wedyn, sefydlodd Bethan Smallwood Gôr Cymysg. Am rai blynyddoedd hyd ganol yr wythdegau bu'r ddau gôr o dan ofal Rhian Jones, Bryd Medrad. Wedi hynny arweiniwyd y corau gan Meinir Lynch, Bryn Ffynnon, chwaer Bethan. A dyma enghraifft eto o bwysigrwydd teuluoedd. Y mae Bethan a Meinir yn perthyn i Thomas Roberts, Gwern Nannau, arweinydd cyntaf (?) Côr Cymysg Llangwm. Y maent hefyd o'r un llinach â Thomas Jones, y cerddor dawnus o Isgaer Wen, Pentrellyncymer, a thad Gaerwen Jones a fu, fel y cawn sylwi eto, yn cyfeilio i Gôr Cerdd Dant Cwm Eithin. Heddiw arweinir Côr Cymysg yr Aelwyd gan Rhian

Jones; Côt Meibion yr Aelwyd gan Falmai Edwards, Gaer Fechan; a Chôt Merched yr Aelwyd gan Bethan Smallwood.

Bu bri hefyd ar gorau plant yn Llangwm, ac athrawon yr Ysgol a phobl megis Mrs Ruth Winifred Jones, Ty'n 'Ronnen, yn barod eu cymorth fel hyfforddwyr. Ond y prif hyfforddwr am flynyddoedd lawer fu Emrys Jones. Yn ystod y blynyddoedd 1955-75, yn arbennig, bu'n arwain corau plant yn gyson. Heddiw mae'r traddodiad yn cael ei barhau yn ardderchog iawn gan ei ferch yng nghyfraith, Rhian Jones. Meddai Emrys Jones mewn englyn i'w hoff fro:

Cwm cerddgar, llengar Llangwm, - y diliau  
A'r delyn yn fwrlwm;  
Ei meibion glewion yn glwm  
A dagodd drais y Degwm. <sup>31</sup>

'Cwm cerddgar, llengar Llangwm...' Hir y parhao felly.

*'Gwŷr wrth Gerdd': Telyn a Thelynor a**Theulu Abram Wood*

Eu hoffter oedd dilyn hudoliaeth y delyn,  
 Ar aelwyd pob bwthyn ceid emyn ar dant;  
 Ni welwyd yn unman fugeiliaid mwy diddan  
 Am gadw'r hen gân mewn gogoniant.<sup>1</sup>

Dyna eiriau ab Ifan ym mugeilgerdd John Davies (Taliesin Hiraethog, 1841-1894), 'Ab Ifan ac ab Einion'. 'Dau o hen fugeiliaid Mynydd Hiraethog yn cwrdd ar y bryniau, yn adolygu helyntion eu hoes, gan goffáu rhai o hen drigolion yr ardal' yw'r cefndir.<sup>1</sup> Yn y fugeilgerdd hon hefyd cyfeirir at Ifan Delynor. Yr oedd gŵr o'r enw Ieuan neu Ifan Delynor yn ennill gradd disgybl pencerdddaidd yn Eisteddfod Caerwys, 1523, a chanodd Wiliam Cynwal (bu f. 1587/8) farwnad iddo.<sup>2</sup> Ond y mae'n bosibl hefyd mai at Ifan Edward (c. 1723-53?), y telynor o Greigiau'r Bleiddiau, Hafod Elwy, y cyfeirir. Fodd bynnag, Ifan Delynor oedd y gŵr na 'phoenai un mymryn am ddim ond ei delyn', a

Chwarae 'Serch Hudol', neu 'Blygiad y Bedol'  
 Oedd rheòl olynol ei anian.<sup>3</sup>

Er bod, mae'n sicr, beth gor-ddelfrydu a rhamanteiddio yn y fugeilgerdd hon, y mae cyfeiriad Taliesin Hiraethog at 'gadw'r hen gân mewn gogoniant' yn addas ac arwyddocaol. Dyma'r gân a drosglwyddwyd o gyfnod cynnar iawn drwy lawysgrif a llyfr ac ar dafod leferydd, mewn geiriau ac alawon, o genhedlaeth i genhedlaeth hyd at ein dyddiau ni. Dyma'r gân a berthynai i'r 'gwŷr wrth gerdd', fel y cyfeirid at y beirdd a'r cerddorion gynt. Crefft neu gelfyddyd oedd ystyr wreiddiol y gair 'cerdd', a'r 'gwŷr wrth gerdd' (o leiaf hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg) oedd y gwŷr a feistrolodd naill ai grefft cerdd dafod, sef prydyddiaeth, neu grefft cerdd dant, sef y grefft o ganu offerynnau cerdd â thannau iddynt: y delyn a'r crwth. Yn ddiweddarach y datblygodd cerdd dant i olygu 'canu penillion', neu 'ganu gyda'r tannau'.



Ym Mro Hiraethog ac Uwchaled bu perthynas agos erioed rhwng y ddwy gelfyddyd, sef cerdd dafod a cherdd dant, ac esgorodd y briodas ar draddodiad cyfoethog iawn o ganu - yn gyfansoddi cerddi a'u cyflwyno, boed ar lafar neu ar gân, gan ddatgeiniaid a chorau cerdd dant, cantorion gwerin a baledwyr. Cawn drafod hynny eto. Yn y bennod hon rhown y sylw, yn bennaf, i rai o delynorion a thelynoresau'r fro ac i un teulu arbennig o delynorion a ffidleriaid.

### 'Wels tunes' yr 'humble scribe' o fro Owain Myfyr

Yn gyntaf, fodd bynnag, gair byr am y 'wels tunes' a gofnodwyd gan 'humble scribe' anhysbys o'r cylch, ar gais y cymwynaswr mawr, Owen Jones (Owain Myfyr, 1741-1814).<sup>4</sup> Yn The Welsh Harper, cyfrol 2 (1848), cynhwysodd John Parry (Bardd Alaw) gasgliad o alawon o dan y pennawd: 'Coffadwriaeth am Owain Jones, Myvyr. A tribute to the memory of the late patriotic Owen Jones, Myvyr.' Ychwanegodd hefyd y nodyn a ganlyn:

'The following tribute consists chiefly of fragments of Welsh Airs, to which Mr Jones was very partial, and which were always performed by the Harpers at the meeting of the Gwyneddigion Society. M<sup>r</sup> Jones gave me a small Book in 1809 containing thirty airs in M.S. which I value very much, and not a bit the less, because of the humble scribe whom he employed to copy them, when he was on a visit to his native place, called them wels tunes. J.P.'<sup>5</sup>

Dyma deitlau'r alawon yn union fel yr ysgrifennwyd hwy gan John Parry uwchben y gerddoriaeth:

'Of noble race was Shenkin'; 'The dawn of Day'; 'Pen Rhaw, the Spade head'; 'Serch Hudol: The allurements of love'; 'The Ash Grove'; 'Margaret's Garter'; 'Three hundred pounds'; 'Rising of the Lark'; 'Ar hyd y nos'; 'New year's Eve'; 'The dying bard (Davydd y Gareg Wen).'

Fel brodor o Uwchaled fe fyddai gan Owain Myfyr, mae'n sicr, ddiddordeb arbennig hefyd mewn un alaw arall a gynhwyswyd gan John Parry yn The Welsh Harper, sef alaw a enwir ganddo yn 'Havod Elwy' (enw ar gwmwd a phlasty ar Fynydd Hiraethog).<sup>6</sup>

## **Crwth a phibgorn y Foelas**

Yn yr un modd, o gofio am gefnogaeth nodedig Owain Myfyr i lenyddiaeth a diwylliant Cymru, byddai'n falch o wybod i gangen o hen deulu Pryisiaid Plas Iolyn a'r Giler a Wyniaid y Foelas, ddiogelu enghreifftiau prin o ddau o'n hofferynnau cerdd traddodiadol, sef crwth a phibgorn. Gwnaed y crwth ('Crwth y Foelas', fel y cyfeirir ato) yn 1742, gan Richard Evans, Llanfihangel Bachellaeth, sir Gaernarfon. Perthyn y bibgorn hefyd i'r ddeunawfed ganrif, a daeth yn wreiddiol, mae'n debyg, o Fôn. Bu teulu Wynne-Finch, Y Foelas, Pentrefoelas, mor garedig â chyflwyno'r crwth a'r bibgorn ar fenthyg i Amgueddfa Werin Cymru yn 1939, ac y maent i'w gweld yn un o'r orielau.<sup>7</sup>

## **Rhys Grythor; 'Robert Siôn o Nantfach', ac Ifan Edward, y telynor o Greigiau'r Bleiddiau**

Er bod mwy nag un cyfeiriad at ffidleriaid o Uwchaled (cyfeiriwyd eisoes, er enghraifft, at Robert Cadwaladr, mab Cwmorwr, Cerrigydrudion, a symudodd i fyw i Gellioedd Bach, Llangwm), prin yw'r cyfeiriadau at grythorion. Enillodd cymeriad ffraeth o'r enw Rhys Grythor radd disgybl disgyblaidd yn Eisteddfod Caerwys, 1523.<sup>8</sup> Mae'n debyg mai'r un gŵr oedd hwn â Rhys Grythor Hiraethog (yn ôl Llawysgrif Wrecsam 1) a dderbyniodd radd disgybl disgyblaidd eto yn Ail Eisteddfod Caerwys, 1567/8 (er mai at Rys Grythor o Lansannan a Rhys Grythor o Gerrigydrudion y cyfeirir yn Llawysgrif Peniarth 132).<sup>9</sup> Ni wyddys am unrhyw gyfeiriad at chwaraewyr pibgyrn o Uwchaled. Ceir sawl cyfeiriad, fodd bynnag, o'r ddeunawfed ganrif ymlaen at delynorion o Uwchaled.

Yn ei lyfr Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards (ail arg. 1794) cofnododd Edward Jones (Bardd y Brenin) y pennill a ganlyn, gan awdur anhysbys, sy'n cyfeirio at delynor o Gwm Penanner, plwyf Cerrigydrudion:

Mi glywais lawer iawn o sôn  
Am Robert Siôn o Nantfach;  
Mi adwaenwn hwn petai ym Môn  
Wrth lais ei ebillion bellach.<sup>10</sup>

Ebillion yw'r pegiau neu'r pinnau dur trwy grib telyn i ddal y tannau, fel y gellir eu tynhau neu eu llacio, yn ôl y gofyn. Ychwanegodd Robert Griffith yn Llyfr Cerdd Dannau yr eglurhad a ganlyn: 'O'r bwlch sydd yn un pen iddynt [h.y. yr ebillion] y mae'r tannau yn hongian; a phan roir y cywair-gorn am y pen arall, y maent yn cael eu troi yn eu tyllau, ac felly yn debyg i ebill y saer.' <sup>11</sup>

Cyfeiriwyd eisoes ar ddechrau'r bennod hon at Ifan Edward, y telynor o Greigiau'r Bleiddiau, Hafod Elwy. Yn ôl traddodiad lleol, roedd ef hefyd yn fardd, ac iddo ef y priodolir dau bennill tri thrawiad hyfryd sy'n dechrau fel hyn:

Pan oeddwn yn fachgen ar ochr Bryn Alwen  
Mi welwn hwyaden ar donnen y 'dŵr... <sup>12</sup>

Cysylltir y ddau bennill â thraddodiad trist i Ifan Edward (c. 1723-53?) farw o'r diciâu, cyn priodi Sioned, merch fferm gyfagos Foty Tai Canol. <sup>13</sup> Pennill telyn arall a briodolir gan rai i Ifan Edward, ond gan eraill i Edward Morris (1607-89), Perthillwydion, yw'r un a ganlyn:

Yn Hafod Elwy'r gog ni chân  
Ond llais y frân sydd amla',  
A phan fo uchaf gynffon buwch,  
Bydd yno luwch o eira. <sup>14</sup>

### 'Mi af oddi yma i'r Hafod Lom...'

Yn agos i Greigiau'r Bleiddiau hefyd yr oedd hen ffermdy enwog Hafod Lom, y cyfeirir ato yn y pennill telyn adnabyddus:

Mi af oddi yma i'r Hafod Lom  
Er bod hi'n drom o siwrne,  
Ac mi gaf yno ganu cainc  
Ac eistedd ar fainc y simdde;  
Ac, ond odid, dyna'r fan,  
Y byddaf tan y bore. <sup>15</sup>

Priodolir y pennill hwn eto gan rai i Ifan Edward. Yn ôl Hugh Hughes, fodd bynnag, Edward Morris, Perthillwydion, yw'r awdur. <sup>16</sup> Ceir traddodiad hefyd i Ifan Edward

farw wrth ganu'r delyn mewn noson lawen yn Hafod Lom, ond y mae hwn yn fotîff cyffredin mewn llên gwerin, a cheir traddodiadau cyffelyb am delynion eraill o Gymru yn marw wrth ganu'r delyn. <sup>17</sup>

### 'Dic Aelwyd Brys a'i delyn'

Rai milltiroedd o Greigiau'r Bleiddiau a Hafod Lom fe anwyd telynor arall: Richard Roberts, 'Dic Aelwyd Brys'. Mab Tŷ Nant, bwthyn ar fferm Clust-y-blaidd (neu Glust Dyble, fel y'i gelwid unwaith) ym mhlwyf Cerrigydrudion oedd ef. Symudodd i fyw i Aelwyd Brys, Cefn Brith, hen dafarn a man cyfarfod o bwys gynt. Yn ôl Hugh Hughes, treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Ninbych, ac yno y claddwyd ef. <sup>18</sup> Cyfeirir ato gan Jac Glan-y-gors yn ei gerdd 'Priodas Siencyn Morgan':

Yr hen Gadwaladr Siors,  
Dic Aelwyd Brys a'i delyn,  
A Jac o Lan-y-gors,  
A Robin Ddu o Nantglyn. <sup>19</sup>

### 'A dyma 'na fellten yn dwad - taro'r delyn - malu hi - a lladd y telynor a'r mul'

Gyda thwf Ymneilltuaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg cafwyd cryn ragfarn yn erbyn y delyn, dawnsfeydd a hen chwaraeon a difyrion yr oes. Meddai ab Einion ym Mugeilgerdd Taliesin Hiraethog:

Y gân a anghofiwyd, o'r wlad fe'i herlidiwyd,  
Y delyn ddiolwyd o'r aelwyd lle'r oedd... <sup>20</sup>

Dyma, er enghraifft, un hanesyn a glywodd Lewis T Evans (1882-1975), mab Ty'n-y-gilfach, Cefn Brith, pan oedd yn hogyn oddeutu deuddeg oed ar fferm ei ewyrth a'i fodryb ym Mhenffordd Ddu, Llanelidan. Bu'n gwrando ar ei ewyrth a Robert Parry, Tyddyn Draw, Llanelidan (mab Moelfre Fawr, Cerrigydrudion), yn sgwrsio.

'... a mi aeth yn sôn rywbeth ynglŷn â'r Sul - torri Saboth. Dyma Robert Parry'n dweud hanes - dw i ddim yn cofio digon da ble oedd y peth wedi

digwydd na pwy oedd y pregethwr chwaith, ond roedd Robert Parry'n deud be' oedden nhw, daswn i'n medru cofio. Ond mi ddudodd y stori bo yno wyl fab sant yn mynd i gael 'i chynnal ddydd Sul yn ymyl y capel. A mi ddoth y pregethwr yno a mi glywodd am yr wyl fab sant, a mi aeth i weddi yn daer iawn am i'r Arglwydd ddwad â ryw beth i'w atal o. Ac odd hi'n digwydd bod yn g'leuo mell, a dyma'r telynor yn dwad â thelyn ar gefn mul. A dyma 'na fellten yn dwad - taro'r delyn - malu hi, ac yn lladd y telynor a'r mul. A mi redodd y bobol i'r capel am 'u bywyd. Dene stori'r wyl fab sant.' <sup>21</sup>

Rhodes Lewis T Evans wybodaeth werthfawr hefyd pan holwyd ef am wrthwynebiad i ganu'r ffidil yn ardal Pentrellyncymer. Athro telyn Ifan Edward, Creigiau'r Bleiddiau, yn ôl traddodiad, oedd y gŵr y cyfeirid ato, medd Lewis Evans, fel 'Ffidler Befar Gro'. <sup>22</sup> (Cymreigiad o enw tŷ yn y pentre, sef: 'Beaver Grove'.) Bu'n canu'r ffidil, meddir, yn yr wylfab sant ym Mhentrellyncymer. Soniodd Lewis T Evans hefyd am ffidler yn yr ardal (ni wn ai yr un un) yn difyrru'i gynulleidfa ar y Sul, a'r Parchg Thomas Ellis (1765-1843), Tyddyn Eli, Llangwm, arloeswr brwd Annibyniaeth y fro (a hen, hen daid i Emrys Jones), yn mentro yno i bregethu. Wedi llawer o wrthwynebiad, dywedir i'r ffidler a'i ganlynwyr dderbyn yr Efengyl, ond cymaint oedd eu hofn pan aed ati i adeiladu capel Hermon (Ann.) yn 1823, fel y bu raid galw ar ddyn hysbys i ddweud wrthynt ble i'w godi. Cynghorwyd hwy ganddo i adeiladu yn yr union fan lle porai hwch ddu. Roedd honno'n cynrychioli'r Diafol. Ac felly y bu. Yn ôl tyb y bobol, trechwyd drygioni gan ddaioni. <sup>23</sup>

### **Gwylfab sant a thwmpath chwarae**

Rhoddir mynegiant i'r gwrthwynebiad i ddifyrrwch yr oes hefyd mewn llyfrau crefyddol, megis Methodistiaeth Dwyrain Meirionydd (1902), gan y Parchg William Williams, Glyndyfrdwy. Yn y bennod agoriadol: 'Sefyllfa Foesol a Chrefyddol...' y mae'r awdur yn dyfynnu, er enghraifft, dystiolaeth y Parchg John Evans, Y Bala, a gyhoeddwyd yn Y Drysorfa Ysbrydol (Ebrill 1799). Meddai'r hynafgwr duwiol hwnnw:

'Nid oedd odid Sul brydnawn na byddai y peth a elwid chwara'yddfa gampau yn rhyw fan yn y wlad... Ar nos Sadyrnau, yn enwedig yn yr haf, y byddai ieuencyd, meibion a merched, yn cadw y pethau a elwid 'Nosweithiau Canu', ac yn difyrru eu hunain wrth ganu efo y delyn a'r ddawns hyd doriad y wawr ddydd Sabboth. Yn y dref yma (Bala) hwy fyddent ar brydnawniau Sabbothau yn canu ac yn dawnsio yn y tafarndai, yn chwaraeu tennis yn yr Hall, yn hobiau, etc... tra y parhai goleu dydd Sul. Yn yr haf, byddai Interludiau yn cael eu chwaraeu ar fwrdd yr Hall ar brydnawniau Sabbothau...' <sup>24</sup>

Yn ffodus, y mae un hanesydd lleol diwyd, sef Hugh Hughes (bu f. 1901), athro ysgol Cerrigydrudion ac aelod o deulu diwylliedig Ty'n Pant, Cefn Brith, wedi rhoi disgrifiad pur fanwl a gwerthfawr inni o dwmpathau chwarae yn Uwchaled. Mewn llawysgrif sy'n cynnwys ei atgofion am 'ddechreuadau cynnar Methodistiaeth' yng Nghefn Brith mae'n nodi yn gyntaf ei bod yn 'ofynnol ystyried sefyllfa foesol' yr ardal, ac meddai:

'Yng Nghefn Brith yn yr hen amser yr oedd ar y gwastad rhwng Bryn-y-gloddfa a gwal Mynydd y Plas dri o "bitiau ceiliogod" ac yr oedd yno "herber" yr ochr uchaf iddynt... Am yr "herber" mae yn debyg... mai yn y fan hon y byddai y telynor yn canu ei delyn a'r ieuencyd a'r hen bobl, y gwagedd a'r plant, yn eistedd a gorweddian ar yr hen oglawdd oedd yn cylchynu yr herber, yn edrych ar y ddawns... Yn is i lawr o amgylch y pitiau ceiliogod byddai lluoedd eraill yn difyrru eu hunain wrth edrych ar y ceiliogod yn ymladd; ac yn is i lawr wedi hyn byddai nifer fawr yn dangos eu medrusrwydd mewn "bowllo ceulus" yn yr ale fowlio. Yn isaf oll byddai amryw eraill yn Nhafarn Aelwyd Brys yn yfed breici Siôn Heidden ac yn baldorddi dan ddylanwad Syr John.

Yr oedd herber fechan hefyd ar y Gwastad Gwyn, oddi ar Ty'n Pant. Hefyd gynt yr oedd twmpath chwarae ar y gwastad ym mhen uchaf y Foel, yn agos i wal mynydd Tai'n-y-foel. Yr oedd un arall hefyd ar ben y Llechwedd, yn Swch Pen-y-fron, Rhosgaerwen, a llawer man arall.

Ar Sul Gwylmabsant Cerrigydrudion, sef yr ail Sul yn Awst, byddai chwaraewyr yr holl dwmpathau cylchynol yn dod ynghyd i Dwmpath Chwarae Rhos-y-mawn yr hwn oedd lannerch wastad o gryn faintioli a elwid Gardd y Bwlch. Yr oedd y lle hwn gyferbyn â'r Entrance Gate bresennol sydd yn arwain i'r Bwlch a gwrym fel hen oglawdd o'i gwmpas (ac yr wyf yn ei gofio). Yn y fan hon y byddai y gwahanol dwmpathau yn ymdrechu mewn neidio, rhedeg, ymaflyd codwm, taflu maen a throsol, gyda phob gwrhydri arall, ac eraill yn dangos eu medrusrwydd mewn dawnsio wrth sain telyn llawn tannau rhyw hen



delynor.

Yr oedd Sul Gwylmabsant Cerrig fel math o eisteddfod flynyddol gan holl drigolion y cwmpasoedd, a chlywais hen bobl yn dweud y byddai cannoedd lawer o bobl wedi dod ynghyd i Cerrig ar yr ŵyl hon. Ond mae yn ddiamau mai Twmpath Chwarae Cefn Brith oedd y pennaf o'r twmpathau yn yr ardaloedd hyn am nad oedd yn y lleoedd eraill ddim pitiau cœiliogod, dim rale fowlio ac, fel yr oedd gorau, nid oedd yno yr un dafarn...

Ar ryw brynhawn Sul pan oedd nifer fawr wedi dod ynghyd i'r chwaraeon (yng Nghefn Brith) daeth yno rhyw Bregethwr i'r lle (Mr Charles tybed?)... a chydag ef yr oedd Wardeiniaid y Plwyf. A bu y Pregethwr yn dangos yn garedig i'r chwaraewyr ei fod yn bechod mawr treulio y Sabath yn y dull yr oeddynt hwy yn ei dreulio, gan eu hannog a'u cynghori yn addfwyn i roddi yr arferiad pechadurus heibio... A bu y cynghorion a'r anogaethau hyn yn foddion i'r chwaraewyr roddi eu chwaraeon heibio ar y Sabath o hynny allan, a byddai llawer ohonynt yn mynd i'r capel.' <sup>25</sup>

### **Lois Blake: arloeswraig dawnsio gwerin**

Prin yw'r dystiolaeth am ddawnsio gwerin yn Uwchaled. Tua phedwardegau a phumdegau'r ganrif hon, fodd bynnag, cafwyd adfywiad. Rhwng 1930 a 1950 bu Lois Blake (1890 - 1974), yn byw ym Melysfan, Llangwm, a bu ganddi ddsbarthiadau dawnsio i fechgyn a merched yr ardal yn yr Ysgol a'r Neuadd Fach. Ymledodd y diddordeb hefyd i rannau eraill o Uwchaled a'r cyffiniau, ac erbyn y pumdegau a'r chwedegau, gyda chefnogaeth frwd nifer o unigolion a hyfforddwy'r megis Austen Goodman, Corwen, daeth y twmpath dawns yn rhan bwysig o adloniant yr ifanc. Gwnaeth Lois Blake, yr arloeswraig fonheddig o Saesnes, gyfraniad cyfoethog ym maes dawnsio gwerin yng Nghymru. Hi yw awdur y ddau lyfryn: Welsh Folk Dance and Costume (1965) a Traditional Dance and Customs in Wales (1972). Chwaraeodd ran amlwg hefyd gyda Chymdeithas Ddawns Werin Cymru a sefydlwyd yn 1949, ac y mae ei merch, Felicity Blake, Marshfield, yn un o'r Is-Lywyddion presennol. Heddiw mae athrawon yn ysgolion Uwchaled, fel mewn rhannau helaeth eraill o Gymru, yn rhoi lle dyladwy i ddawnsio gwerin, a'r un modd yn Ysgol Llangwm. Y mae Emrys Jones yntau yn ymddiddori'n fawr yn y gangen liwgar a gwerthfawr hon o'n diwylliant ac yn barod ei gefnogaeth bob amser i bartïon dawns o'r ardal.

## Y Sipsiwn yn Uwchaled: priodas Siôn Robert Lewis a Sarah Wood

Bu gan Emrys Jones ddiddordeb mawr hefyd yn hanes y Sipsiwn Cymreig, teulu Abram Wood, a'u cysylltiad arbennig â bro Uwchaled. Nid amharodd y diwygiadau crefyddol a thwf Ymneilltuaeth ddim ar eu cyfraniad pwysig hwy fel cynheiliaid traddodiad y delyn a'r ffidil, y ddawns a'r hen alawon. Pan ddechreuais holi rhai o drigolion hŷn Uwchaled yn y chwedegau, yr oedd gan amryw ohonynt atgofion byw am ymweliadau'r Sipsiwn â'r fro. Cofiai Lewis T Evans, er enghraifft, amdano ef a llanciau ifanc eraill y cylch ar dro'r ganrif yn dawnsio ar sgwâr Cerrigydrudion, a Chornelius Wood yn chwarae alawon megis Llwyn Onn, Pen Rhaw, Cadair Idris a Mwynen Cynwyd. Lewis Evans â soniodd wrthyf hefyd fel y bu raid i Hywel Wood, y dawnsiwr nodedig, werthu ei ffidil am ddwybunt er mwyn talu dirwy a gafodd am botsio!<sup>26</sup>

Hoff gyrchfan y Sipsiwn yn Uwchaled yn ail hanner y ganrif ddiwethaf a hanner cyntaf y ganrif hon oedd glannau Afon Alwen yn Llanfihangel Glyn Myfyr a Betws Gwerful Goch, a glannau Afon Medrad a Cheirw yn Llangwm a Maerdy. Dyma rai sylwadau yn awr am un ymweliad ag Uwchaled, mewn cyfnod ychydig yn gynharach, y bu iddo ganlyniadau eithriadol o bellgyrhaeddol. Cydgyfarfyddiad dau berson yn sgîl yr ymweliad hwn a fu'n gyfrifol am sefydlu teulu o delynorion gyda'r pwysicaf a fu erioed yn hanes Cymru, ac y mae rhai o'r disgynyddion yn parhau i ganu'r delyn heddiw. Un ohonynt yw Eldra Jarman, Caerdydd, cyd-awdur y gyfrol werthfawr, Y Sipsiwn Cymreig.<sup>27</sup>

Am rai misoedd ddiwedd haf 1815 oeddod mintai o deulu'r Woodiaid yn ardal Pentrefoelas i werthu basgedi a dweud ffortiwn, gweithio ar y ffermydd, a chanu eu telynau a'u ffidlau. Un o'r fintai oedd Sarah, wyres Abram Wood, a merch William Wood (chwaraewr ffidil medrus), a Mary Stanley, aelod o deulu'r Sipsiwn Saesneg. Yn ôl yr hanes roedd trefniadau i Sarah briodi cefnder iddi, ond ni fynnai hi neb o'i thylwyth ei hun. Rhoes ei bryd ar lanc o Gymro a gyfarfu ym Mhentrefoelas. Enw'r gŵr ifanc hwn oedd John, neu Siôn Robert Lewis (g. 1786). Fe'i gelwid hefyd weithiau yn John Roberts. Cysylltir enw ei rieni ac yntau â thri lle yn ardal

Pentrefoelas: Y Tyddyn, Gaer Bach a'r Foel Las. Câl ei alw yn ogystal ar adegau wrth yr enw 'Jac yr Hors', oherwydd iddo fod am gyfnod yn gofalu am geffylau'r mêl yng Nghernioge, y gwesty pwysig gynt yn nyddiau'r Goets Fawr, rhwng Glasfryn a Rhydlydan, ger Pentrefoelas. Yn ôl traddodiad teuluol bu Siôn Robert Lewis yn filwr ym Mrwydr Waterloo, ac yn yr unig lun y gwn i amdano fe'i gwelir yn gwisgo medalau y dywedir iddo eu hennill yn y frwydr honno.<sup>28</sup>

Gwen (Davies gynt) oedd enw mam Siôn Robert Lewis, a Robert Lewis oedd enw'i dad. Dywedir ei fod yn fardd gwlad (er na welais hyd yn hyn ddim o'i waith). Saer maen ardderchog oedd Lewis Roberts, brawd Siôn Robert Lewis. Aeth i fyw i Lidiart y Gwartheg, Cerrigydrudion. Roedd yntau'n barddoni ac yn englynwr. Yn ôl Thomas Jones, Cerrigelltgwm, ef yw awdur y gerdd ddifyr honno i dri neu bedwar o lanciau Rhydlydan a aeth i hela sgwarnog ar eira:

Gwrandewch ar hanes trwstan  
Rhyw bobol o Rydlydan  
A aeth i hela pant a bryn  
Rhyw ddiwrnod cyn y Calan...<sup>29</sup>

Fel y gellid disgwyl, roedd teulu'r Woodiaid yn wrthwynebus iawn i fwriad eu merch i briodi'r llanc o Bentrefoelas. 'Go drapia! Gajo (un nad oedd yn Sipsi) yn priodi ein Sarah ni?' O'r diwedd dyma gytuno i'r briodas, ar ddwy amod. Yn gyntaf roedd yn rhaid i Siôn a chefnider Sarah ymladd â'i gilydd â dyrnau noeth, a'r buddugwr oedd â'r hawl i'w phriodi. Yr ail amod oedd: pe digwyddai i Siôn ennill, roedd yn rhaid iddo roi dwy gasgen o gwrw, rhai sacheidiau o datws, ynghyd â menyn, wyau a nwyddau eraill yn rhodd i deulu Sarah. Ac felly y bu. Er ystwythed oedd y Sipsi, y llanc cyhyrog o odre Hiraethog a orfu.<sup>30</sup>

Wedi byw am gyfnod yng nghartref ei fam, aeth Siôn Robert Lewis a Sarah i grwydro yn null y Sipsiwn. Cawsant naw o blant a'r enwocaf ydoedd John Roberts (1816-94), Y Drenewydd, 'Alaw Elwy', fel y galwai ei hun gyntaf, ac wedi hynny 'Telynor Cymru'. Priododd John Roberts ag Elinor, ei gyfnither, neu 'Perpina', fel yr hoffai ei galw. Cawsant hwythau naw o feibion a thair merch. Roedd pob un o'r

meibion yn nodedig am eu gallu i chwarae offerynnau cerdd, y delyn yn arbennig, ac yr oedd o leiaf un o'r merched, Mary Ann, hithau yn canu'r delyn.

### **'Te soves misto': chwalu llwch y Romano Rai ar Y Foel Goch**

Cyfaill mawr i'r Sipsiwn Cymreig a'u prif hanesydd oedd y Dr John Sampson, Llyfrgellydd Coleg y Brifysgol, Lerpwl, 1892-1928. Gelwid ef gan y Sipsiwn gyda pharch ac anwylder yn Romano Rai (rai = arglwydd). Cyflawnodd waith ymchwil o'r pwys mwyaf, fel y dengys ei erthyglau yng nghylchgrawn The Gypsy Lore Society a'i gyfrolau: The Dialect of the Gypsies of Wales (1926); The Wind on the Heath (1930), a XXI Welsh Gypsy Folk Tales, a olygwyd gan Dora E Yates (1933). Sylfaen y gyfrol olaf hon oedd storïau a adroddwyd wrth Dr Sampson gan Mathew Wood. Roedd ganddo ef stôr ddi-hysbydd ohonynt. Yr oedd hefyd yn ffidler ardderchog.

Ailddarganfu Dr Sampson y Sipsi Mathew Wood a'i fab Harri ddiwedd haf 1908. Roeddynt yn byw mewn bwthyn bychan ym Metws Gwerful Goch, gyferbyn â thafarn y White Horse (neu'r Porno Grai, fel y galwai'r Sipsiwn hi). Roedd Harri, fel ei dad, yn storïwr ac yn ffidler penigamp ac yn bysgotwr a daliwr cwingod heb ei ail. Oherwydd ei hoffter o'r awyr agored a'i edmygedd di-ben-draw o'i arwr mawr, Dic Turpin, mabwysiadodd Harri'r enw 'Turpin', ac fel Turpin Wood yr adwaenid ef yn aml. Brawd iddo oedd Hywel Wood, y clocsiwr, a ymgartrefodd ym Mhant-y-neuadd, Parc.

Er mwyn cael cwmni beunyddiol Mathew Wood a'i fab a chofnodi eu llên a'u llafar, symudodd John Sampson a'i deulu i fyw i dŷ ar rent o'r enw Cae Gwyn uwchben pentref Betws. Ac i'r tŷ hwn, o 1909 hyd 1914, y daeth personau o bell ac agos i aros o dro i dro, sef cyfeillion yr hanesydd o Lerpwl a chyfeillion y Sipsiwn. Yn eu plith yr oedd Augustus John, yr arlunydd. Gyda'r nos, ac yn arbennig ar nos Sadwrn, yr oedd y ddwy dafarn yn y Betws, Yr Hand a'r White Horse, yn fan cyfarfod poblogaidd iawn i'r personau hyn a rhai o'r trigolion lleol a fyddai wrth eu bodd yn gwrandao ar Mathew Wood, Turpin Wood, ac eraill o'r Sipsiwn yn mynd trwy'u pethau, yn adrodd storïau ac yn canu'r ffidil a dawnsio.

Un o'r ymwelwyr cyson â Chae Gwyn oedd y Sipsi o Sais, Ithel Lee. Iddo ef y gofynnodd y Dr Sampson i sicrhau wedi iddo farw fod ei llwch yn cael ei wasgaru i'r pedwar gwynt ar fynydd Y Foel Goch, y foel sy'n cysgodi pentref Llangwm ac sydd i'w gweld yn amlwg o gyfeiriad y Betws. Bu farw John Sampson ar y nawfed o Dachwedd 1931, a llosgwyd ei gorff ar yr unfed ar ddeg o'r un mis. Y dyddiad a ddewiswyd ar gyfer chwalu'r llwch oedd dydd Sadwrn yr unfed ar hugain o Dachwedd.

Ar y diwrnod hanesyddol hwn daeth cyfeillion a chydnabod lawer i dalu'r gymwynas olaf i'r Romano Rai. Yn arwain yr orymdaith o Langwm i fyny'r Foel Goch roedd Ithel Lee (a gludai gist fechan o dderw du yn cynnwys llwch Dr Sampson) a Manffre Wood, mab hynaf Mathew Wood. Yn dilyn, roedd brodyr Manffre, sef Harri (Turpin), Jim a Hywel, ynghyd â nifer o'r Sipsiwn eraill. O'u hôl hwy cerddai Michael Treviskey Sampson, mab Dr Sampson; Augustus John gyda'i sgarff ysgarlad Ulsteraidd; a'r hynafgwr o'r Alban, Scott Macfie, yn marchogaeth ar ferlen. O'u hôl hwythau dilynai tyrfa luosog o'r trigolion lleol ac, yn gymysg â hwy, enwogion megis T Gwynn Jones a Dora E Yates.

Wedi cyrraedd o fewn oddeutu 500 troedfedd i gopa'r Foel cynhaliwyd defod syml yn unol â dull y Romani. Arweiniwyd y gweithgareddau gan Augustus John, ac ef a draddododd yr anerchiad byr a baratowyd gan Scott Macfie. Chwalwyd y llwch gan Michael Sampson. Yn ystod y gwasanaeth canwyd alawon Cymreig ar y ffidil gan dri Sipsi o'r enw Reuben Roberts: Reuben, y taid (mab 'Telynor Cymru'); Reuben, y mab, a Reuben yr ŵyr. Canwyd alawon ar y delyn hefyd gan Mrs Mary Lizzie Roberts, gwraig Reuben Roberts, y taid, ac ar y ffidil gan Harri 'Turpin' Wood. I gloi'r gwasanaeth canodd Reuben Roberts (mab 'Telynor Cymru') gainc 'Dafydd y Garreg Wen' ar ei delyn - hoff alaw John Sampson, a llefarwyd y fendith Romani: 'Te soves misto' ('boed iti gwsg hyfryd'), gan Augustus John.<sup>31</sup>

Roedd rhai plant yn bresennol hefyd yn angladd Dr Sampson. Yn eu plith yr oedd Ifor Owen, Llanuwchllyn, wedi cerdded o ochr Cefnddwysarn, o'i gartref, sef

Pentre Tai'n y Cwm, yng nghysgod y Foel Goch, neu Foel Daran, fel y gelwid hi gan rai. Yno o Langwm yr oedd Gwyneth Jones (Bryn Ffynnon), Islwyn Morgan, Hugh Iorwerth Jones ac Emrys Jones. Flynyddoedd yn ddiweddarach ysgrifennodd Emrys Jones beth o hanes y diwrnod bythgofiadwy hwnnw yn Y Faner.<sup>32</sup> Y mae hefyd wedi cadw mewn cysylltiad â theulu'r Dr John Sampson.



## *'Gwlad Telyn, Englyn a Hwyl': Parhad Traddodiad*

### *Cerdd Dant*

Yn y bennod ddiwethaf crybwyllwyd rhai o'r mannau yn Uwchaled a oedd wrth fodd y Sipsiwn pan ddeuent yn eu tro i'r ardal. Hoff gyrchfan arall oedd y llain o dir comin ger Nant Rhydgaregog (Nant Gregog ar lafar), rhwng Glasfryn a Chefn Brith. Yno yn llanc ifanc yr ymhoedd y bardd a'r gŵr diwylliedig T O (Tommy) Jones (1883-1958), Aelwyd Brys, Cefn Brith, yn y teulu crwydrol ac y dotiodd at eu gallu i ganu'r delyn a'r ffidil. Ymddiddorai yntau yn yr offerynnau cerdd hyn, ac meddai ar ddechrau ei gerdd 'Alawon fy Ngwlad':

Yng Nghymru fach dirion, hen gartref y dewrion,  
Y clywais y delyn tro cyntaf erioed,  
A'r sipsi wallt cyrliog wrth Nant Rhydgaregog  
Yn tynnu o'r tannau alawon fy ngwlad.<sup>1</sup>

Y mae Côr Meibion Llangwm wedi canu llawer, a chydag arddeliad, ar gerdd T O Jones; Emrys Jones yn canu'r penillion, a'r côr yn ymuno yn y gytgan: 'Alawon fy ngwlad, alawon fy ngwlad...'

### **Tri chyfaill, tri bardd, a thri cherddor o Gefn Brith**

Yn fachgen ifanc yng Nghefn Brith bryd hynny cafodd Tommy Jones, Aelwyd Brys, lawer o gwmni'i gyfeillion, sef Thomas Jones (1860-1932), Bryn Du (Cerrigelltgwm Isa, Ysbyty Ifan, yn ddiweddarach), a Lewis T Evans (1882-1975), a symudodd yn seithmlwydd oed o Dy'n-y-gilfach i stryd enwog am ei chymeriadau yng Nghefn Brith o'r enw Acar Las. Roedd cerdd dafod a cherdd dant yn aml yn destun sgwrs y tri gŵr cerddgar hyn, a'r tri yn feirdd ac yn chwarae'r ffidil.<sup>2</sup>

Gwnaeth Lewis Evans delyn a bu'n trwsio telynau i gyfeillion.<sup>3</sup> Flynyddoedd yn ddiweddarach fe wnaeth gitâr. Cyfansoddodd hefyd gywydd i'r ffidil, a cherdd i Ifan Edward, y telynor o Greigiau'r Bleiddiau. Rhwng 1964-75 cefais yr hyfrydwch o roi ar gof a chadw beth o stôr ddi-hysbydd ei atgofion. Recordiwyd 134 o dapiau, sydd bellach yn Amgueddfa Werin Cymru, wedi'u testuno. Y mae'r tapiau hyn yn cynnwys dros 350 o storïau a thros 100 o gerddi, pytau o gerddi, hen benillion a rhigymau. Gwnaeth gasgliad hefyd yn ei lawysgrifen o gerddi beirdd Pentrellyncymer a'r cylch.<sup>4</sup> Dyma, er enghraifft, fras gynnwys un o'r tapiau (rhif 3195), sy'n sôn am rai o'r Sipsiwn:

- i. Cornelius Wood yn dod i Gefn Brith gyda'i delyn - telyn a wnaed ganddo ef ei hun. Yn chwarae'r alawon: Llwyn Onn, Cadair Idris a Mwynen Cynwyd.
- ii. Lovell Wood yng Ngellioedd Ganol, Llangwm.
- iii. Sipsiwn yn rhostio draenog mewn clai glas. Blingo dau dwrch daear a'u bwyta.
- iv. Lewis Evans yn hogyn ifanc yn Hafod Llan Isa, Pentrellyncymer, yn clywed 'Jac y Brain', o Ddinbych yn canu 'Cân y Bachgen Drwg': 'Mi ês i dy nhad ryw fore dydd Sul...'
- v. Cân 'Hela'r Llwynog': 'Awn i hela'r llwynog, medde Dibyn wrth Dobyn...' (Fersiwn gyflawn a diddorol iawn ar 'Gân Hela'r Dryw Bach'.)
- vi. Teulu Brynllwyd, Nantglyn, ac Annie Davies, 'Telynores Hiraethog'.

### **Telynores Maldwyn; teulu Brynllwyd; Telynores Hiraethog, a Megan Hiraethog o Dafarn Bryntrillyn**

Telynores yr oedd gan Annie Davies barch mawr iddi oedd Nansi Richards Jones (Telynores Maldwyn, 1888-1979). Yr oedd y tri chyfaill o Gefn Brith: Thomas Jones, T O Jones a Lewis T Evans, hefyd yn edmygwyr mawr ohoni. Telynores Maldwyn a fu'n fwy cyfrifol na neb am yr adfywiad yn hanes y delyn yn Uwchaled a Bro Hiraethog yn chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif. Y mae'n addas iawn hefyd inni roi peth sylw i'r Sipsiwn Cymreig, cynheiliaid traddodiad y delyn, yn y bennod

ddiwethaf, oherwydd yr oedd Telynores Maldwyn yn ddyledus iawn i'r Sipsiwn am y dylanwadau cynnar a fu arni.

Merch teulu diwylliedig Brynllwyd, Nantglyn, oedd Annie Davies (Telynores Hiraethog, 1900-63). Bu Nansi yn mynd i Frynllwyd am rai blynyddoedd ac yn aros yno rai dyddiau ar y tro, ac yn rhoi gwersi telyn i Annie Davies. Weithiau deuai R O Davies, brawd Annie, i'w mofyn i'r orsaf yn Ninbych gyda'r 'trap bach', ond byddai 'R O' yn ymgolli gymaint yn y sgwrs wrth sôn am feirdd a barddoniaeth fel yr anghofiai, ar adegau, ei briod waith!

I Frynllwyd hefyd, yn awr ac yn y man (ac yn arbennig pan fyddai Telynores Maldwyn yno) deuai Tom Owen, Hafod Elwy; H Ll W Hughes ('Huws y Geufron'), Geufron Fawr, Llawrybetws, y bardd; Mrs Gaerwen Jones, merch Isgaer Wen, Pentrellyncymer; John Herbert Jones ('J Aitsh'), golygydd Y Brython, ac amryw eraill. Byddai yno ganu penillion a hen gerddi, trin a thrafod beirdd, a nyddu pwt o gân. A mwyn iawn oedd y cwmni. Ar aelwyd Brynllwyd y clywodd Telynores Maldwyn 'Gân y Beibl Mawr' am y tro cyntaf, yn cael ei chanu gan 'Bob y Wern'. Yno hefyd y clywodd Annie Davies yn canu caneuon megis 'Y Saith Rhyfeddod', 'Hela'r Dryw Bach' ('Ple cawn ni fynd, meddai Dibyn wrth Dobyn...'), a gân 'Y Bachgen Afradlon', ar alaw 'Tôn y Melinydd':

Fe gododd fy mam i roi imi fwyd,  
I roi imi fwyd, i roi imi fwyd,  
Fy machgen llwyd tyrd heibio...<sup>5</sup>

O Frynllwyd efallai yr âi Telynores Maldwyn i Dafarn Bryntrillyn - y 'Sportsman's Arms' - i ymweld â Megan Evans, 'Megan Hiraethog', y delynores. Yn ei chartref hi y clywodd 'Gân yr Eira Gwyn' ('O ienctid teg a hawddgar...') am y tro cyntaf, yn cael ei chanu gan William Jones, Y Felin Ucha, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch. Canai Megan Hiraethog hithau'r gân hon, ynghyd â chaneuon eraill tebyg iddi, megis 'Palmant y Dref'.<sup>6</sup>

## Aelwyd yr Henblas a 'Dei Llwyn Cwpwl', y 'Telynor Ieuanc o Langwm'

Rhwng oddeutu 1909-18 bu Telynores Maldwyn yn ymweld yn bur gyson hefyd â Llwyn Cwpwl, tyddyn yn ardal Gellioedd, Llangwm. Dyna gartref David Jones, 'Dei Llwyn Cwpwl', y 'Telynor Ieuanc o Langwm', a fu farw yn Ffrainc, 7 Ionawr 1917, yn 26 mlwydd oed. Pan ofynnais i Delynores Maldwyn: 'Ellwch chi ddweud wrtha i rwan be ydech chi'n 'i gofio am Defi Llwyn Cwpwl', dyma ran o'i hateb:

'O, rargien! Fi ddysgodd o. Yn gynta i gyd, o'n i'n chwarae yng Nghorwen, mewn stedd fod fawr iawn, yntê. A oedd o wedi gwirioni. Oedd o erioed wedi clywed telyn.

'Wyddoch chi ddim lle ca'i delyn?'

'O mae genna i un; mi wertha i un i chi. Hen delyn deir-rhes ydi hi, gynta gês i 'rioed, a mi ddo i acw i Llwyn Cwpwl i roi wsnos o lessons am ddim ichi i'ch cychwyn chi.' [Telyn Tom Lloyd, Telynor Ceiriog, oedd hon, mae'n debyg.]

A mi prynodd hi. A mi aeth y delyn yno i Llwyn Cwpwl. Dyna'i ddechre fo. Wel, mi dorrodd Defi'r delyn yna, rywsut, a mi giath delyn arall, pedal harp. Ac o'n i'n 'i ddysgu o i chwarae. A'i favourite alaw o oedd "Greek Pirate's March"... A wnaï o ddim dysgu alaw leddf. Isio iddo fo ddysgu "Dafydd y Garreg Wen", "Morfa Rhuddlan", "Llanofar", a rheina. "Wnâ'i ddim dysgu ddim byd lleddf." Pethe bywiog oedd o isio wastad... Wel, o'n i'n mynd yno ar wahân i'w ddysgu o, o'n i mor ffond o'r hen aelwyd a'r hen bobol annwyl... Oeddwn i'n cael croeso di-ben-draw... Canu tan un o'r gloch a dau y bore yno.'<sup>7</sup>

Daeth aelwyd Llwyn Cwpwl, fel Brynllwyd, yn gyrchfan boblogaidd i nifer o bobl a ymddiddorai mewn cerdd dant a cherdd dafod, ac yn arbennig os âi si ar led fod 'Nansi' yn aros yno. Ar adegau, oherwydd prinder lle yn Llwyn Cwpwl, cludid telyn Nansi ac un Dafydd i'r Henblas gerllaw, a mawr fyddai croeso Elin a Robert Jones yno i bawb. Dyma enwau rhai o'r cwmni a arferai ymweld â Llwyn Cwpwl a'r Henblas: Thomas Jones, Cerrigelltgwm (a ganodd gerdd goffa i'r telynor); Huws y Geufron; Tom Owen, Hafod Elwy; Robert Jones (Bob y Greigwen), o ardal Dre-fach, ger Cwm Tirmynach; Lewis T Evans (Tŷ Capel, Pentrellyncymer, a Bryn Ffynnon, Llechwedd, Cerrigydrudion, bryd hynny); Owen Hughes, Pen-y-gob, Llangwm; a Thomas Jones, Isgaer Wen, Pentrellyncymer. Yr oedd ef yn frawd i Robert Jones, Henblas, ac yn dad i Mrs Gaerwen Jones, cyfeilydd Côr Cerdd Dant Cwm Eithin.

Bu Dafydd Llwyn Cwpwl yn ymweld fwy nag unwaith ag Isgaer Wen. Felly hefyd â chartref Lewis T Evans, yr adeg yr oedd yn byw yn Nhŷ Capel, Pentrellyncymer, 'pan oedd yr hen delyn honno gin i, yndê, ac mi fydde'n 'i chanu hi...' <sup>8</sup> A dyma frawddeg yn unig o atgofion byw Lewis Evans o'r tro hwnnw y bu'n bwrw Sul gyda Dei yn Llwyn Cwpwl.

'A dene lle buon ni'n gwrando ar Nansi Richards yn chware'r delyn [yn yr Henblas] dan nes oedd hi wedi mynd rywle o un i ddau o'r gloch y bore, ac yn mynd wedyn, Dei a finne a hithe, am Llwyn Cwpwl a'r delyn ar ein cefne, yndê, bob yn ail blwc.' <sup>9</sup>

### **'Mwyn yw telyn o fewn tŷ ...': aelwydydd Isgaer Wen a Thai Ucha, Hafod Elwy**

Mor wir am y gymdeithas braf ar aelwydydd yr Henblas a Llwyn Cwpwl tua'r blynyddoedd 1909-17 yw'r hen bennill:

Mwyn yw telyn o fewn tŷ  
 Lle byddo teulu dedwydd;  
 Pawb a'i bennill yn ei gwrs  
 Heb sôn am bwrs y cybydd. <sup>10</sup>

A gwir iawn hefyd am ddwy aelwyd yn ardal Pentrellyncymer a Hafod Elwy ar Fynydd Hiraethog. Cawn sôn eto fel y bu i 'draddodiad Hafod Elwy' ddylanwadu ar Emrys Jones, Llangwm, yn fwyaf arbennig drwy Gaerwen Jones, merch Thomas Jones, Isgaer Wen, ac Owen Hughes, Pen-y-gob - dau oedd yn y cwmni difyr yn yr Henblas. Fel y nodwyd, roedd Tom Owen, Hafod Elwy, yno hefyd, a Thomas Jones, gynt o Dai Isa, Hafod Elwy. Ar un adeg, roedd dwy delyn yn Isgaer Wen: telyn deir-rhes a thelyn bedal, a Winifred ('Min'), chwaer Gaerwen, yn eu chwarae. (Bu Mrs Winifred Roberts, Marial Gwyn, Cerrigydrudion, farw yn 1979, yn 85 mlwydd oed.) Difyr iawn oedd y cwmni ar yr aelwyd gerddorol hon. Meddai Gwynfor Jones, Cerrigydrudion (mab Gaerwen Jones): 'Roedd 'ne giang yn Isgaer Wen gyda'r nos; mi fydde'r tŷ yn llawn bron bob nos.' <sup>11</sup>

Difyr odiaeth hefyd oedd y cwmni ar aelwyd Tai Ucha. Dyma gartref Dafydd Jones (1859-1936): bardd dawnus, awdurdod ar lôn a llafar ei fro, a chymeriad nodedig. Yn aml cyfeirid ato'n chwareus gan ei gyfeillion a'i gydnabod wrth y llysenwau: 'Dafydd Jones, Goes Bren' a 'Dafydd Jones, Lord Elwy'. Gelwid Tai Ucha yn 'Ysgol Farddol' ac 'Ysgol y Werin'. Dafydd Jones yw awdur yr englyn i'r 'llwydrew' gyda'i esgyll rhagorol:

Lleidr holl ddilladau'r ha',  
Brodor oer, brawd yr eira. <sup>12</sup>

Arial i'r galon i T Gwynn Jones oedd ymweld â'i gyfeillion llengar ym Mhentrellyncymer a Hafod Elwy. Un o'i hoff deithiau oedd yng nghwmni Tom Owen ar draws y mynydd o Dan Graig, Hafod Elwy, i hir-seiadu â Dafydd Jones yn Nhau Ucha, ac i wrando ar ei ferch Catherine yn canu'r delyn. Bu brawd Catherine, 'Dafydd Bach', yn trwsio'r hen delyn honno, a heddiw (1999) mae'n cael gofal arbennig gan ferch Catherine (Catherine Morris ar ôl priodi), sef Mrs Alwen Jones Davies, Glandŵr, Clocaenog. <sup>13</sup>

### **Telynores Gwynedd; Plas Llanofer, a thystiolaeth disgyblion**

Yn awr, fodd bynnag, rhaid dweud gair pellach am barhad traddodiad y delyn mewn teulu yr ydym eisoes wedi cael ein cyflwyno iddo, sef teulu Llwyn Cwpwl. <sup>14</sup> Yr oedd gan y 'Telynor Ieuanc o Langwm', ddwy chwaer. Priododd Margaret Jane â William Jones, 'Ci Glas', yr hyfforddwr canu y soniwyd amdano cyn hyn. Mary oedd enw'r chwaer arall, a meibion i'w merch hi (Ann) yw Gwyndaf a Dafydd Roberts o'r grŵp gwerin 'Ar Log', a hyfforddwyd gan Delynores Maldwyn i ganu'r delyn deir-rhes.

Roedd David Jones, Llwyn Cwpwl, hefyd yn ewyrth i Laura Margaret Jones (Telynores Gwynedd, 1892-1981), Cerrigydrudion. (Roedd ei dad, Robert Jones, yn frawd i John Jones, tad mam Laura Jones.) Y mae'n werth ychwanegu paragraff i sôn fel y dechreuodd hi ymddiddori yn y delyn. Y mae'r hanes yn ein hatgoffa yn fyw



iawn o'r hyn sy'n thema ganolog yn y gyfrol hon, sef cyfraniad cwbl allweddol teulu ac athro.

Wedi blwyddyn neu ddwy yn unig yn Ysgol Ramadeg Llangollen, daeth Laura Jones adre at ei rhieni. Pan oedd oddeutu un ar bymtheg mlwydd oed, fodd bynnag, daeth tro ar fyd. Yr oedd eisoes wedi bod yn ymweld â'i pherthnasau yn Llwyn Cwpwl (fel 'Dewyrth' yr arferai gyfeirio at Dafydd Jones), ond un noson - 'noson y moch', fel y galwai hi, fe benderfynodd fynd eto. Roedd ei hewyrth newydd gael telyn single action newydd, ac roedd hi wedi clywed hefyd bod 'Nansi' yno. Byddai'n cofio'r noson honno am byth, meddai hi. Cofio'r daith yno: cerdded heibio Gaerfechan a gweld moch bach yn ymyl y clawdd; rhoi ei llaw i anwesu un ohonyn nhw a chloben o hwch fawr yn rhuthro amdani! Cofio'n arbennig iawn yr oriau difyr ar aelwyd Llwyn Cwpwl wedi iddi gyrraedd yno. Nansi yn chwarae 'Pen Rhaw' ac alawon eraill, a gofyn i Defi: 'Pa alaw 'dech chi'n licio?' Yntau'n ateb: 'Dŵr Glân'. Laura Jones yn synnu, heb glywed erioed o'r blaen am y fath enw. A chofio'r daith am adre - cofio am ddim ond am sŵn hyfryd telyn Nansi yn chwarae 'Pen Rhaw' yn llenwi'i phen ar hyd y ffordd, ac am ei phenderfyniad hithau i brynu telyn ac i ddysgu ei chanu.

Ac fe brynodd delyn yn fuan wedyn, telyn deir-rhes, gan George Morley, Llundain. Cafodd wersi gan Dafydd Jones, ac yna, yn 1912, enillodd un o ysgoloriaethau'r Anrhydeddus Mrs Augusta Herbert (Gwenynen Gwent yr Ail), a bu ym Mhlas Llanofor am flwyddyn a hanner yn cael gwersi pellach ar y delyn deir-rhes gan Mrs Gruffydd Richards (Pencerddes y De). Yr oedd yn aelod o Gôr Telynau Teir-Rhes Llanofor adeg Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Fenni, 1913, ac, yn ôl barn Telynores Maldwyn, nid oedd brin neb yng Nghymru a allai ganu'r delyn deir-rhes yn well na hi yn ardegau ac ugeiniau'r ganrif hon.

Yn ystod y cyfnod y bu'n byw yng Nghwm Rhondda (1916-33) bu'n cyfeilio'n aml i ddatgeiniaid, megis Llyfni Huws. Wedi dychwelyd i Uwchaled, bu'n cyfeilio llawer mewn eisteddfodau a chyngherddau ac i ddatgeiniaid megis Robert Parry

(Alawydd Alwen, 1880-1953), o Gerrigydrudion. Telynores Gwynedd, er enghraifft, oedd yn cyfeilio yn Eisteddfod y Wesleaid, Cerrigydrudion, 1914, a Robert Parry yn canu 'cân y cadeirio', sef 'Dafydd y Garreg Wen'. A dyma nodyn diddorol o'r wasg leol yn cyfeirio at yr eitem gyntaf un a ddewiswyd i agor y steddfod:

'Canu penillion gyda'r Delyn, ar yr alaw "Cainc y Datgeiniaid", gan Bob Parry, The Bungalow, y geiriau wedi eu cyfansoddi gan Madoc Môn ar ddyfodiad y delyn yn ôl i gôl aelwydau Cymru.'<sup>15</sup>

Mewn erthygl yn Allwedd y Tannau (1977), 'Teulu a Thelyn: Telynores Maldwyn, Dei Llwyn Cwpwl, Telynores Gwynedd a Phlas Llanofor', cefais gyfle i dalu teyrnged haeddiannol i Laura M Jones am ei llafur tawel, cyson. Y deyrnged bwysicaf, fodd bynnag, yw tystiolaeth ei llu disgyblion a'u cyfraniad pwysig tuag at sicrhau parhad traddodiad y delyn a cherdd dant yn Uwchaled a'r cyffiniau heddiw. Bellach, y mae eu plant hwythau yn canu penillion ac yn cystadlu mewn eisteddfodau. Dyma enwau rhai o'r disgyblion hynny.

- i. Mrs Ceri Owen, Rhewl (Pencraig Fawr, Betws Gwerful Goch, gynt). Hyfforddwyd hi hefyd gan Delynores Hiraethog. Bu hi yn cyfeilio i Emrys Jones ar y delyn, a bu John, ei phriod, yn canu deuawd gydag ef droeon. Bellach y mae plant Ceri a John yn canu gyda'u rhieni ac, yn addas iawn, yn galw eu hunain yn 'Barti Hafod y Gân'.
- ii. Mrs Selina Watson (Jones cyn priodi), Ystrad Bach, Llangwm; cyfeilydd Côr Cerdd Dant Cwm Eithin am rai blynyddoedd.
- iii. Mrs Eleri Thomas, Cwmorwr, Cerrigydrudion, merch Emlyn Edwards, Pentredraw, ac wyres i William Charles Edwards, arweinydd Côr Meibion, Pentrellyncymer; cyfeilydd Parti Cerdd Dant Brenig a Chôr Aelwyd Bro Gwerful.
- iv. Mrs Nesta Lewis, Rhos-fraith, Cerrigydrudion, merch William John Edwards, bardd a datgeinydd, Pen y Bryn, Cerrigydrudion, mab Pentredraw gynt, a brawd i dad Eleri Thomas.
- v. Mrs Mair Owen, Tyddyn Eli, Llangwm (Morris cyn priodi), merch Cefn Hir Fynydd Isa, Glasfryn.
- vi. Mrs Alice Davies a Mrs Gwenda Rees (Jones cyn priodi), plant Penyfed, Tŷ Nant.

- vii. Mrs Glenys Goddard, Hiraethog, Cerrigydrudion, a Mrs Rhiannon Evans, Rhoshelyg, Llansannan, plant Yr Hafod, Llangwm (a chwiorydd yr awdur), o deulu'r hyfforddwr canu, William Jones, 'Ci Glas'.

### Partïon cerdd dant

Canlyniad diddordeb brwd unigolion mewn telyn a chanu gyda'r tannau oedd sefydlu nifer o bartïon a chorau cerdd dant. Yn arbennig yn sgîl sefydlu Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, yn Y Bala yn 1934, tyfodd y diddordeb, ac o'r pedwardegau ymlaen fe welwyd ym Mhenllyn - cadarnle'r gelfyddyd - nifer cynyddol o bartïon.<sup>16</sup> Felly hefyd ym Mro Hiraethog a Dyffryn Clwyd, yr ochr arall i Uwchaled. Bu Annie Davies (Telynores Hiraethog) yn cyfeilio i ddau ohonynt. Parti Bro Aled, Llansannan, oedd un, gyda Joseph Davies, Nant y Merddun, yn arwain. Yr oedd Gwen Wyn Jones yn aelod ifanc o'r parti hwn, a bu hi wedyn yn arweinydd llwyddiannus i Barti Blodau'r Grug, Llansannan. Parti J O Jones, Plas yr Esgob, Rhewl, oedd y llall. Cofiwn hefyd am gyfraniad gwerthfawr Mrs Bryn Williams, Y Gyffylliog, yn hyfforddi unigolion a phartïon, megis Parti Hogiau Clwyd, ac am nythle o delynoresau ac arweinyddion partïon a fagwyd yn yr ardal hon, megis Bethan Bryn, Morfudd Maesaleg a Meinir Lloyd. Gŵr o Uwchaled, Medwyn Jones, Gellioedd (a bardd fel ei frawd, Trefor Jones, Bryn Ffynnon), oedd arweinydd cyntaf Parti Meibion Menlli (1956-9). Fe'i holynwyd gan Aled Lloyd Davies.<sup>17</sup>

Un o'r partïon enwocaf yn Uwchaled ei hun oedd Parti'r Brenig, a sefydlwyd gan Janet Parry Jones, Cerrigydrudion, yn 1973, a'i hyfforddi gan Dan Puw, Parc. Bryd hynny roedd Cronfa Ddŵr Llyn Brenig, Pentrellyncymer, yn cael ei pharatoi, a dyna paham y dewiswyd yr enw. Wedi ennill yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Dyffryn Clwyd, 1973, ac yna yn yr un flwyddyn yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llangefni, aeth y parti o nerth i nerth gan ennill sawl cystadleuaeth mewn eisteddfod a gŵyl yn y saithdegau a'r wythdegau.<sup>18</sup>

## Côr Cerdd Dant Cwm Eithin

Flynyddoedd cyn sefydlu Parti'r Brenig, fodd bynnag, bu yn Uwchaled barti cerdd dant adnabyddus iawn arall a fu'n diddanu cynulleidfaoedd o bell ac agos am dros ddeng mlynedd ar hugain, gan ddwyn bri ac anrhydedd i'r fro. Dyma, wrth gwrs, Gôr Cerdd Dant Cwm Eithin a sefydlwyd yn 1948, gan Emrys Jones, ac ef a fu'n ei arwain drwy gydol yr amser. Y wefr o wrando ar bartïon cerdd dant yn Eisteddfod Llangwm, 1947, a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Colwyn yr un flwyddyn, oedd y prif gymhelliad i sefydlu'r parti. Cafodd Emrys Jones ei ysbrydoli o wrando yn Eisteddfod Llangwm ar barti o Ddinas Mawddwy; parti o Lanfihangel Glyn Myfyr, gan Robert Jones, Traian; a pharti o Lidiardau, gan Garadog Puw. A'r un modd, y partiïon ym Mae Colwyn, gyda pharti W H Pugh, Parc, yn ennill.

Dyma, felly, sefydlu parti cerdd dant newydd sbon erbyn Eisteddfod Llangwm, 1948, dan yr enw: 'Llanciau Llangwm'. 'Eu Hiaith a Gadwant', gan Eifion Wyn oedd y geiriau; yr alaw oedd: 'Gwenynen Gwent'; a'r gosodiad gan Watcyn Jones (Watcyn o Feirion). Meddai Emrys Jones wrth ddwyn i gof y gystadleuaeth gyntaf honno:

'Wyth ohonom ni oedd yn y parti, ac mi gawson ni hwyl go lew arni. Ond dwi'n cofio dod i lawr o'r llwyfan a Caradog Puw yn mynd i fyny hefo'i barti o, a dyma ddeudodd o: "Wst ti be, mae genti ddeunydd parti da, sticia iddo fo, ond dwn i ddim be ddiawch oedd y 'fa' yna oedd genti". Cyfeirio roedd o at y cwpled:

O fannau Epynt i fannau Llŷn,  
Mynnwn gael siarad ein hiaith ein hun -  
a finne wedi dal yn annaturiol ar y gair 'fannau'. Ac mi fu hynny yn wers i mi byth wedyn, bod isio dweud pob gair ar ei ben wrth ganu penillion.'<sup>19</sup>

Erbyn Eisteddfod Caernarfon roedd y parti wedi tyfu'n gôr ac yn canu ar y llwyfan o dan yr enw 'Côr Cerdd Dant Cwm Eithin'. Bu'r parti'n cystadlu, gan ennill, er enghraifft, yng Ngwyliau Cerdd Dant Hen Golwyn, 1958, a Llanfyllin, 1968, ac yn cynnal cyngherddau lawer. Fel gyda'r Côr Meibion, tyfodd y Côr Cerdd Dant yn gymdeithas braf, a'r 'hogie' wrth eu bodd yn canu. Am ddeng mlynedd ar hugain cafodd cynulleidfaoedd lawer gyfle euraid i glywed detholiad ardderchog o farddoniaeth Gymraeg. Cynhwysai'r detholiad hwnnw gerddi megis 'Ar Wyl

Ddiolchgarwch', R Ithel Williams; 'Simon, Mab Jona', I D Hooson (gydag Emrys Jones yn canu geiriau Simon Pedr); 'Cwm Eithin', Trebor Roberts; awdl 'Y Cynhaeaf', Dic Jones (alaw 'Hafren'); awdl 'Y Graig', Rolant o Fôn; awdl 'Patagonia', R Bryn Williams; a nifer o emynau, megis 'Mab y Dyn', George Rees (cainc 'Llanofer').

Pan ddathlodd y côr ei ben blwydd yn un ar hugain, cyhoeddwyd ysgrif yn Allwedd y Tannau (1970), gan T Vaughan Roberts, Fron Isa; cerddi gan Ifan Roberts, Llanuwchllyn, a Dafydd Evans, Gwern Nannau; englyn gan Medwyn Jones, Gelliöedd, gynt; a chywydd gan ei frawd Trefor: 'Cywydd Brysiog i Gôr Cwm Eithin'. Dyma ychydig linellau o'r cywydd hwyliog hwn. Ynddynt cyfeirir at ddau frawd cerddgar: Ifor Hughes, Ystrad Fawr, ac Oliver Hughes, Tŷ Cerrig; Owen Huw Owen, Plasau, a Selina Watson, Ystrad Bach. Hi oedd olynnydd Gaerwen Jones fel cyfeilydd y côr.

Dyma gôr tra rhagorol,  
 Heb yr un wyneb ar ôl;  
 Rhai cysact amser practis,  
 Yn brydlon a llon i'w llys!...  
 Wel, ni chawn, er chwilio'n chwÿs,  
 Gymro mwy iach nag Emrys.  
 Ef yw mirain arweinydd  
 Y côr - prif denor ein dydd.  
 'Pwy 'di hwn ar y top do?'  
 'Tendiwch y rallentando!'...  
 Nid oes dim, led-led ei stad,  
 I rwystro Ifor Ystrad,  
 Ac 'Ol' heb ddim tremolo  
 Yn ei lais tra swynol o...  
 Am chwyddo'r tenor, yntê,  
 Pa leisiwr fel 'Now Plase'?...  
 Slei iawn fu llaw Selina  
 'N crynu tant mewn c'weirnod da...' <sup>20</sup>

### **'Mynd at yr hen blant i 'marfer': partiön cerdd dant Adran ac Aelwyd yr Urdd a Pharti Blodau'r Eithin**

Bu Emrys yn Arweinydd Adran yr Urdd yn Llangwm am dros ddeugain mlynedd, tua'r cyfnod 1948-88. Bu hefyd yn Arweinydd Aelwyd yr Urdd am oddeutu chwarter

canrif, ar ddau gyfnod gwahanol. Drwy gydol y blynyddoedd hyn yr oedd gan yr Adran a'r Aelwyd bartïon cerdd dant, ac Emrys yn gofalu amdanynt gydag ymroddiad cwbl nodedig. Wedi diwrnod prysur o waith, 'roedd 'na drïo dod adre o hyd, a thafllu bwyd i'r gwartheg, mwy neu lai, er mwyn cael mynd at yr hen blant i 'marfer'.<sup>21</sup> Buont yn cystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau, ac yn arbennig eisteddfodau'r Urdd, ac yn canu hefyd mewn cyngherddau yn Ysgol Llangwm ac, wedi hynny, yn y Neuadd. Yn ystod y deugain mlynedd hyn y mae'n rhaid ei fod wedi llunio ugeiniau lawer o osodiadau i bartïon plant, ieuenctid ac oedolion.

Gwerth arbennig yr ymarfer cyson hwn dros gyfnod maith o flynyddoedd yw bod y diddordeb mewn canu yn cael ei drosglwyddo'n gwbl naturiol o blentyn i blentyn ac o un genhedlaeth i'r llall. Y mae'r bri a roir heddiw yn niwedd yr ugeinfed ganrif yn ardal Llangwm ar yr hen gelfyddyd o ganu gyda'r tannau yn enghraifft ardderchog o hyn. Yn Eisteddfod yr Urdd yn Y Bala, 1972, roedd gan Emrys Jones barti cerdd dant merched o Langwm yn ennill y gystadleuaeth o dan 15 oed (detholiad o gerdd Trebor Roberts: 'Cwm Eithin'). Chwe blynedd yn ddiweddarach, yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd, 1978, roedd ganddo barti cerdd dant buddugol eto, y tro hwn i Aelwydydd. Ond hyn sy'n bwysig: roedd chwe aelod o barti'r Aelwyd yn cystadlu o dan 15 oed yn Y Bala, yn 1972, ac felly wedi hen arfer â chyd-ganu.

Y merched ifanc hyn oedd sylfaen y parti enwog a enwyd yn fuan wedyn yn Barti Blodau'r Eithin, o dan arweiniad Rhian Jones. Roedd hi wedi symud i fyw i Langwm o'r Wenallt, Rhosygwalia, yn 1974, ar ôl priodi Dewi Prys Jones, mab Emrys Jones. Merch gerddorol ydyw a dawn ganddi i wneud gosodiadau ardderchog. O dan ei harweiniad hi daeth Blodau'r Eithin yn niwedd y saithdegau ac yn ystod yr wythdegau yn un o bartïon cerdd dant gorau Cymru, gan ennill droeon ac yn olynol yn yr Ŵyl Gerdd Dant a'r Eisteddfod Genedlaethol. Hi hefyd, erbyn hyn, sydd wedi olynu Emrys Jones fel hyfforddwraig plant ac ieuenctid ardal Llangwm ym myd canu penillion. Yr oedd rhai o blant aelodau Côr Cerdd Dant Cwm Eithin yn canu ym mharti Blodau'r Eithin. Bellach, mae nifer o blant aelodau Blodau'r Eithin yn canu ac



yn cystadlu mewn partiön newydd, ac fel unigolion. A dyna beth yw parhad traddodiad, yn wir.<sup>22</sup>

Un o ganlyniadau gwerthfawr dysgu cerddi ar y cof i'w canu, fel y gwneir wrth ganu penillion, yw meithrin a chynnal diddordeb byw mewn barddoniaeth.

Digwyddodd hyn yn amlwg iawn, er enghraifft, yn hanes aelodau Côr Cerdd Dant Cwm Eithin, fel y cawn sylwi yn y bennod nesaf. I gloi'r bennod hon, fodd bynnag, dyfynnwn gwpled o gywydd y Parchg Huw Roberts i Uwchaled (gweinidog y Methodistiaid Calфинаidd yn Llanfihangel Glyn Myfyr a Llangwm; bu f. 1973 yn 74 mlwydd oed). Y mae'n gwpled addas iawn i ddisgrifio diddordeb y trigolion mewn cerdd dant a barddoniaeth:

Nyth hen yr heniaith annwyl;  
Gwlad telyn, englyn a hwyl.<sup>23</sup>

Dyma wlad y 'gwŷr wrth gerdd'; gwŷr y ddwy hen gelfyddyd: cerdd dant a cherdd dafod. A gwlad lle mae pobl yn cael llawer iawn o 'hwyl' a mwynhad yn creu ac yn cynnal y diddordebau hyn.

***'I Gadw Cerdd yng Nghof': Beirdd a Baledwyr,  
Datgeiniaid a Chantorion Gwerin***

Yn y ddwy bennod ddiwethaf cafwyd cipolwg ar y traddodiad cerdd dant yn Uwchaled. Bu yn y fro hon hefyd draddodiad cerdd dafod cyfoethog, traddodiad o gyfansoddi cerddi a'u cyflwyno ar lafar ac ar gân, a hynny, yng ngeiriau un hen groniclydd, gyda 'boddhad ac oddi ar y cof' (*'iocunde et memoriter'*).<sup>1</sup> Bu yma, yn ogystal, draddodiad yr un mor gyfoethog o gyflwyno cerddi mewn llyfr a llawysgrif, cylchgrawn a phapur newydd.

**Dyffrynnoedd Conwy, Clwyd, Edeirnion, Llangollen, a'r Porthmyn**

Ar ochr ogleddol Uwchaled a Mynydd Hiraethog saif Dyffryn Clwyd, ac fe gofiwn mai Dyffryn Clwyd a'r cyffiniau yn yr unfed ganrif ar bymtheg oedd crud y Dadeni Dysg, bro Gruffudd Hiraethog, Tudur Aled a William Salesbury.<sup>2</sup> Cofiwn hefyd i Thomas Parry, yn ei gyfrol Baledi'r Ddeunawfed Ganrif, ein hatgoffa fod y mwyafrif o brif awduron baledi'r ganrif honno yn perthyn yn fras i bedwar dyffryn, sef Conwy, Clwyd, Edeirnion a Llangollen. Y mae Uwchaled, wrth gwrs, wedi'i hamgylchynu gan y dyffrynnoedd hyn.

Yr un modd, yr oedd Uwchaled yn union ar lwybr y porthmyn gynt, a hen dafarn enwog Cernioge Mawr ar y ffordd dyrpeg, neu'r ffordd bost, rhwng Glasfryn a Phentrefoelas, yn fan cyfarfod pwysig. Dyffryn Llangollen oedd y porth i Gymru. Teithiai'r porthmyn yn ôl o Loegr i Wynedd, a manau eraill yn y Gogledd, drwy drefi Llangollen a Chorwen, gan gludo gyda hwy, o bosib, geinciau a chaneuon newydd. Dyma, yn nyffrynnoedd Edeirnion a Llangollen, wlad Thomas Jones (1648-1713), 'Yr Almanaciwr', o Dre'r-ddôl, Corwen; Huw Morus (Eos Ceiriog, 1622-70), o Bont y Meibion, plwyf Llansilin, ond o Hafodgynfor, Llansanffraid

Glynceiriog, yn wreiddiol; a'r bardd Jonathan Hughes (1721-1805), o Bengwern, ger Llangollen.

**Bro Wiliam Cynwal, Tomas Prys, Plas Iolyn, ac Edward Morris, Perthillwydion; Jeremiah Gruffydd, 'Y Teiliwr Llawen', a Siôn Llwyd o Gwm Penanner; Huw Jones, o Langwm, a Jac Glan-y-gors**

Yn Uwchaled yr ydym ym mro'r beirdd Wiliam Cynwal (bu'n byw yng Ngherrigelltgwm, Ysbyty Ifan, c. 1567-88), a Tomas Prys (c. 1564-1634), Plas Iolyn. Yr ydym ym mro Edward Morris (1607-89), y bardd-borthmon o Berthillwydion, Cerrigydrudion, a fu farw, meddir, ar daith borthmona i Essex, a bro dau fardd arall o'r ail ganrif ar bymtheg y cyhoeddwyd cerddi o'u heiddo yng nghyfrol Ffowc Owen, Nantglyn: Cerddlyfr, yr hwn sydd yn cynnwys amryw garolau a dyrifiau o waith amryw awdwyr (1686). Jeremiah Gruffydd, 'Y Teiliwr Llawen', o Gerrigydrudion, oedd un ohonynt, a John neu Siôn Llwyd (bu f. 1690), Tŷ Mawr, Cwm Penanner, oedd y llall.<sup>3</sup> Perthynai ef i hen deulu uchelwrol y Llwydiaid y ceir canghennau lawer ohono yn Uwchaled, a rhai ohonynt gynt yn noddwyr beirdd, megis teulu Llwyn Dedwydd, Llangwm. Olrheiniai aelodau Teulu'r Llwydiad eu hachau yn ôl i Ririd Flaidd (fl. 1160) ac Owain Brogyntyn (fl. 1180), Tywysog Powys ac Arglwydd Dinmael ac Edeirnion. Perthynai Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn) a Thecwyn Lloyd i'r teulu hwn (cangen Llwydiaid Defeity), ac i'r un gangen y perthyn Aled Lloyd Davies. Ar ochr ei fam, y mae Emrys Jones, Llangwm, yntau, yn gallu olrhain yr achau yn ôl i hen deulu'r Llwydiaid.<sup>4</sup> Uwchaled, hefyd, wrth gwrs, oedd bro enedigol Huw Jones (1700?-82), o Langwm, y gwas fferm diwyd hwnnw a gyhoeddodd dros gant o'i gerddi a'i faledi ar ffurf taflenni. Gwnaeth gymwynas bellach drwy olygu a gwerthu hyd y wlad ddwy gyfrol gynhwysfawr o waith Morrisiaid Môn ac eraill o feirdd y ddeunawfed ganrif, sef Dewisol Ganiadau yr Oes Hon (1759) a Diddanwech Teuluaid (1763). Dyma hefyd fro enedigol John Jones (Jac Glan-y-gors, 1766-1821), Cerrigydrudion, y bardd a'r diwygiwr gwleidyddol a dreuliodd ran helaeth o'i oes yn cadw tŷ tafarn yn Llundain. Roedd yn frwd ei gefnogaeth i Gymdeithas y

Gwyneddigion (fel y sylwyd eisoes) ac yn un o gyd-sefydlwyr Cymdeithas y Cymreigyddion.

### **Ymryson y Beirdd a meistrolï'r gynghanedd**

Cylch Pentrellyncymer a Hafod Elwy oedd enwocaf am ei beirdd yn Uwchaled a'r cyffiniau yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chwarter cyntaf y ganrif hon. O ganol yr ugeinfed ganrif hyd heddiw, fodd bynnag, daeth ardal Llangwm yn gartref i nythaid o feirdd ac yn ganolfan bwrlwm o weithgarwch barddol, gan gynnwys 'Pawb yn ei Dro', <sup>5</sup> 'Ymryson y Beirdd' ac, yn ddiweddarach, 'Talwrn y Beirdd'.

Digwyddodd yr adfywiad yn yr union gyfnod pan fŷ bri yn yr ardal ar eisteddfod ac Aelwyd yr Urdd, canu corawl a cherdd dant. Ac nid cyd-ddigwyddiad mo hynny. Yr oedd yr amrywiol diddordebau hyn yn cyd-blethu i'w gilydd a'r naill yn hybu'r llall. Am ennyn diddordeb o'r newydd mewn barddoniaeth ac awydd i feistrolï'r cynganeddion, y mae llawer o'r diolch yn ddyledus i Emrys Jones, Côr Cerdd Dant Cwm Eithin, Medwyn Jones, Gellioedd, a Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn).

Emyr Roberts, Dinmael, oedd arweinydd swyddogol a dawnus Parti Cerdd Dant Llanciau Llangwm (fel y'i gelwid bryd hynny yn y blynyddoedd cynnar, wedi'r sefydlu yn 1948), ond pan fethai ef ddod atynt, yna deuai Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn), fel arfer, i'r adwy. A mawr oedd yr hwyl ar y siwrneiau hynny. Roedd gan rai o aelodau'r parti eisoes ryw grap ar gynghanedd, ac un aelod, o leiaf, Cadwaladr Davies, Tŷ Tan Dderwen, Dinmael, yn gryn bencampwr. Ar y daith arferai Llwyd o'r Bryn osod tasgau. Un dasg oedd cynganeddu enwau'r pentrefi a'r trefi yr aent heibio iddynt. Cafwyd llinellau megis: 'Rhaid yw mynd drwy Rydymain'; 'I Gorwen af i garu'; 'Hen falwen Pentrefoelas'. Tasg arall oedd cynganeddu enwau tai a ffermydd ardal Llangwm - dyma enghreifftiau: 'Gwerthu mulod Garthmeilio'; 'Ninety pounds am Nant-y-pyd'; 'Hen frain oesau Fron Isa'.

Yn y man, yn nechrau'r pumdegau, trefnodd Emrys Jones ac eraill i Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn) ddod i Langwm i gynnal dosbarthiadau dysgu'r cynganeddion. Bu

ef a'i gyd-gyfeillion barddol yn brysur hefyd yn trefnu Ymrysonfeydd y Beirdd yn Uwchaled, ac y mae Emrys Jones wedi rhoi disgrifiad byw o'r ymrysonau hynny mewn ysgrif yn Awelon o Uwchaled.<sup>6</sup> Rhoesant gyfle i feirdd yr ardal loywi eu crefft, ac aed i sôn am ddarpar feirdd yn dal dôs go dda o'r 'clwy barddoni'! Ar ben hyn oll, deil yr Ymryson, fel y Talwrn, i roi oriau lawer o bleser i drigolion y fro ac i ennyn mwy a mwy o ddiddordeb mewn barddoniaeth. Dyma un enghraifft yn unig o'r hwyl a'r tynnu coes: Dan Puw, Cystyllen (Castell Hen), Parc, yn Feuryn mewn Ymryson ac yn derbyn y cwpled gogleisiol hwn gan un o'r beirdd:

Saith o wartheg Castell Hen  
Fethodd lenwi gwaelod stên!<sup>7</sup>

### 'Ti yw euraid grud derwen...'

Fel canwr y byddwn yn meddwl, gan amlaf, am Emrys Jones, ond y mae yntau, fel cymaint o'i gyd-ardalwyr, yn ymddiddori'n fawr hefyd mewn barddoniaeth. Canodd gerddi cyfarch a cherddi coffa i gymydog a chyfaill, gan barhau swyddogaeth bwysig y bardd bro. Dyma ddau o'i englynion:

#### Y Ddafad Ddu

Er i'w chwaer ei charcharu, - er i'w bro,  
Er i'w brawd ei gwerthu;  
Ac er i'w thad ei gwadu,  
Un ddinam i'r fam a fu.

#### Y Fesen

Ti yw euraid grud derwen, - hynod wy  
Yn dynn mewn nyth cymen;  
Gwael o nawdd rhag awel nen  
Yw eiddilwch dy ddeilen.<sup>8</sup>

### 'Creu melyster i'r glust, ac o'r glust i'r galon'

Bu'r dosbarthiadau nos, yr ymrysonau a'r dileit mewn barddoniaeth o fudd mawr i gynheiliaid cerdd dant yn Llangwm a'r cyffiniau. Y mae gwybodaeth o'r gynghanedd ac elfennau cerdd dafod, gan gynnwys y pedwar mesur ar hugain, yn gymorth

amhrisiadwy - yn wir, y mae'n angenrheidiol ar lawer ystyr - i bwy bynnag a fynn feistroli'r gelfyddyd o ganu gyda'r tannau. Yr un modd, y mae gwybod sut i gyfansoddi cerddi fel eu bod yn addas ar gyfer eu canu, neu i'w cyflwyno ar lafar, o werth amhrisiadwy i'r bardd cyhoeddus ymhob oes. Y cyswllt agos hwn rhwng cyfansoddi cerddi a'u cyflwyno fydd prif bwnc y bennod hon.

Ni wyddom sut yn union y byddai'r bardd yn llys y Tywysog a'r Uchelwr gynt yn cyflwyno ei gerddi. Ai eu hadrodd yn unig a wnâi? Ai eu canu i gyfeiliant telyn neu grwth ar un neu ragor o bedwar mesur ar hugain cerdd dant? Ai eu llafarganu, a'r isalaw neu'r gyfalaw yn ddim namyn cefndir i'r geiriau? I ba raddau yr oedd canu telyn a chrwth yn gelfyddyd er ei mwyn ei hun, yn ogystal â bod yn gyfeiliant i'r farddoniaeth? A pha mor aml y disgwyliid i'r datgeiniaid neu'r 'atgeiniaid', yn hytrach na'r bardd ei hunan, ddatgan neu 'atgan' cerdd? Ni wyddom yr atebion yn llwyr i'r cwestiynau hyn, ond fe wyddom, fodd bynnag, fod perthynas agos iawn rhwng cyfansoddi cerddi a'u cyflwyno. Rhoddid pwys arbennig ar yr hyn a ystyriai Simwnt Fychan yn nod pennaf barddoniaeth, sef 'creu melyster i'r glust, ac o'r glust i'r galon'.<sup>9</sup> Yr oedd cyfeiliant telyn a chrwth yn gyfrwng pellach i greu'r melyster hwn ac i drosglwyddo'r cerddi'n effeithiol.

Y mae'n berthnasol dal sylw yn y cyswllt hwn hefyd beth oedd prif amcan ysgrifennu'r traethawd 'Cadwedigaeth Cerdd Dannau' ('llyfr' y ceir mwy nag un copi ohono ymhlith llawysgrifau Peniarth, yn perthyn i ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg):

'Ac o dri achos y gwnaethpwyd: y cyntaf i wneuthur cerdd; yr ail i adnabod cerddi; y trydydd i gadw cerdd yng nghof.'<sup>10</sup>

'... i gadw cerdd yng nghof' - ceisio ymgynraedd at y nod hwn y bu'r bardd, ac yn arbennig y bardd cyhoeddus, ymhob oes, yn enwedig felly mewn cyfnodau pan drosglwyddid cerddi yn bennaf ar lafar. Hyd yn oed heddiw, a ninnau'n hen gyfarwydd â darllen barddoniaeth mewn llyfr, cylchgrawn a phapur newydd, onid nod



amgen cerdd dda yw bod modd ei chofio, neu, o leiaf, fod rhai llinellau a geiriau ynddi fel petaent yn mynnu glynu yn y cof? Cyfrwng pellach i gynorthwyo'r cof yw cerddoriaeth. Pa faint o bobl sydd yng Nghymru heddiw, tybed, nad ydynt fyth yn darllen llyfr o farddoniaeth, o angenrheidrwydd, sydd eto'n cofio nifer o gerddi oherwydd iddynt fwynhau gwrando arnynt yn cael eu canu?

Ac eithrio cyfansoddiadau megis awdlau a phryddestau meithion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid cerddi i'w darllen gan unigolion ac i fyfyrion hir uwch eu pennau, o angenrheidrwydd, yw corff mawr barddoniaeth Gymraeg. Yn hytrach, cerddi ydynt i'w canu a'u hadrodd, ac i'w mwynhau ar y gwrandawriad cyntaf, os yn bosibl, a hynny gan y nifer fwyaf o bobl. Cerddi ydynt sy'n gynnwys 'gwŷr wrth gerdd' - y gwŷr a roddai sylw arbennig i 'grefft' barddoniaeth, er mwyn sicrhau'r bont neu'r gyfathrach orau rhwng bardd a'i gynulleidfa. Mewn gair, cerddi llafar, canadwy, gydag apêl arbennig i'r glust. Nid damwain yw fod cymaint ohonynt wedi eu cyfansoddi ar fesurau canadwy, megis yr awdl (yng nghyfnod Beirdd y Tywysogion gyda defnydd helaeth o'r gyhydedd naw ban, cyhydedd hir, rhupunt a thoddaid); y cywydd (yng nghyfnod Beirdd yr Uchelwyr), a'r englyn. Dyna wedyn y mesur tri thrawiad (a ddaeth yn boblogaidd iawn o'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen); a'r 'canu rhydd cynganeddol', neu'r 'canu caeth newydd' yng ngharolau Mai a Haf, carolau plygain, dyriau a baledi'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif lle ddefnyddid cynghanedd a chlec cynghanedd i briodi ag aceniad yr alaw. Gellid nodi hefyd benillion pedair llinell, wyth sillaf (fel llawer o'r hen benillion telyn); penillion saith a chwe sillaf bob yn ail ymhob llinell (fel llawer o gerddi llafar gwlad o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw); a'r mesur triban, mesur a ddefnyddiwyd yn helaeth gan awduron yr hen benillion telyn, a mesur a ddaeth yn boblogaidd iawn unwaith eto yn ystod yr ugeinfed ganrif.

### **'Mae'r coedydd yn glasu...': hen benillion telyn**

Y mae'r hyn a ddywedwyd uchod yn wir hefyd am y traddodiad cerdd dafod yn Uwchaled a'r cyffiniau. Y mae llawer iawn o'r cerddi'n ganadwy, hyd yn oed os nad

ar gyfer eu canu, o angenrheidrwydd, y bwriadwyd hwy. Yr oedd apêl rhythm, mydr ac odl yn gryf, a gwnâi'r beirdd ddefnydd helaeth o unrhyw gyfrwng arall, megis cynghanedd, cyseinedd ac ailadrodd, er mwyn sicrhau bod y mynegiant yn rhwydd a phersain. Gwelir hyn yn amlwg, er enghraifft, yng ngherddi un o feirdd praffaf yr ail ganrif ar bymtheg, sef Edward Morris, Perthillwydion. Dyma bennill tri thrawiad o'i gerdd 'Carol yn Gyrru'r Haf at ei Gariad':

Mae'r coedydd yn glasu, mae'r meillion o'u deutu,  
Mae dail y briallu yn tyfu 'mhob twyn,  
A'r adar diniwed yn lleisio cyn fwyned,  
I'w clywed a'u gweled mewn gwiwlwyn. <sup>11</sup>

Gwelir yr un perseinedd yn yr hen benillion. Dyfynnwyd rhai eisoes, megis y pennill: 'Mi af oddi yma i'r Hafod Lom...' Dyma ddau bennill sy'n dibynnu'n amlwg ar batrwm o ailadrodd:

Tai'n-y-foel a Thy'n-y-gilfach;  
Llechwedd Llyfn sydd dipyn pellach;  
Glan-y-gors a Pherthillwydion -  
Dyna flodau Cerrig'drudion.

Tŷ Nant Llwyn a Thŷ Tan Dderwen,  
Y Tai Mawr a Phentrellawen,  
Foty Arddwyfan a Cheseilgwm -  
Dyna flodau ardal Llangwm. <sup>12</sup>

**'Cadwodd hen gelfyddyd ei dadau': Thomas Jones, Cerrigelltgwm, bardd, cerddor a datgeinydd**

Y mae'r un rhwyddineb ac eglurdeb mynegiant, er nad yr un cynildeb, i'w ganfod hefyd yn y rhigymanau o Uwchaled. Mewn cyfres o bum erthygl a gyhoeddwyd yn Allwedd y Tannau (1976-80): 'Traddodiad yr Hen Bennill a'r Rhigwm yn Uwchaled', cefais gyfle i drafod cyfoeth arbennig y lliaws mawr o hen benillion a rhigymanau a berthyn i'r fro. Heb os, prif feistr y pennill telyn yn Uwchaled, fodd bynnag, oedd Thomas Jones, Cerrigelltgwm. Dyfynnwyd eisoes ei hwiangerdd: 'Si hwi, fy mhlentyn mwyn...' Yr oedd Thomas Jones yn gyfuniad ardderchog o fardd, cerddor a

datgeinydd. Fel y dengys rhai o'i lawysgrifau, roedd ganddo lawer o wybodaeth am yr hen benillion telyn, a bu'n darlithio arnynt. Bu hefyd yn hyfforddi nifer o ddisgyblion i ganu gyda'r tannau. Meddai ei gyfaill T Gwynn Jones amdano yn y rhagair a ysgrifennodd i'w gyfrol Pitar Puw a'i Berthynasau (1932): 'cadwodd hen gelfyddyd ei dadau...' <sup>13</sup>

Gwelwn y cyfuniad o'r bardd a'r cerddor ar ei orau yn y nifer helaeth o benillion telyn rhagorol a luniwyd ganddo, megis hwn sy'n cyfeirio at ddwy fferm ac un nant ar Fynydd Hiraethog:

Holai dyn wrth guro o gwmpas -  
 Ble mae'r Nilig? Ble mae'r Cruclas?  
 Oes afalau yno'n tyfu?  
 Oes, ebr finnau, a chogau'n canu,  
 Bron drwy'r flwyddyn, hyd Lafarddu! <sup>14</sup>

Neu'r pennill a ganlyn, i'w ganu ar alaw 'Pant Corlan yr Ŵyn'. Y mae'r pennill (sy'n un o gyfres), gyda'i acenion sionc a'r gynghanedd sain gytbwys ddiacen yn y llinell olaf yn cyfleu i'r dim hwyl a bwrlwm corlannu defaid:

Dyma ni ym Mhant y Gorlan,  
 Curwch hefo'ch ffyn y dorlan;  
 'Sa draw, Mot', 'tyrd yma, Pero',  
 Gwaeddwch fechgyn, pwyswn atyn, neu pasian eto! <sup>15</sup>

Bu Arthur, un o feibion Thomas Jones, yn ddisgybl i Syr John Morris-Jones yng Ngholeg Bangor, ond bu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf, 23 Gorffennaf 1917, yn 27 mlwydd oed. Roedd yntau, fel ei dad, yn barddoni, yn canu'r ffidil, ac yn ymddiddori'n fawr mewn cerdd dant. Meddai ei dad mewn llythyr at ei gyfaill, Evan Roberts, yr hanesydd, o Landderfel (1931):

'Ni thiwniais byth fy offeryn, na'i un yntau; maent yma a'u tannau'n doredig. Ac mae rhywbeth yn doredig yn fy nghalon innau byth.' <sup>16</sup>

Fel y nodwyd eisoes roedd Thomas Jones yn un o'r cwmni difyr ar aelwydydd Llwyn Cwplwl a'r Henblas, a phan sgwrsiwn â Thelynos Maldwyn, ym Mehefin 1971, roedd hi'n ei gofio'n dda, ac ychwanegodd:

'Oedd o'n canu hefyd, a does genna i ddim ond cof am un peth oedd o'n ganu: "Does ond fy hunan heno". Mi cane hi o hyd, ac ar ôl colli'i fab, yndê, oedd hi. Dwi'n siŵr mai "Llwyn Onn" yn y lleddf oedd o'n 'i ganu.' <sup>17</sup>

Dyma'r trydydd pennill o'r gyfres honno o benillion telyn:

Paham y ceisiwch genny' gân,  
A'r galon yn gofidio?  
Wrth Ffynnon Mara, chwerw ddŵr,  
Mae'n haws i waelwr wylo;  
O'r rhai oedd gynt yn hoywi'r gân,  
Does ond fy hunan heno. <sup>18</sup>

Y mae gan Thomas Jones hefyd un gerdd hyfryd, ond trist, i 'gofio cyfaill cu'. Ei theitl yw 'Cŵyn y Galon Drom'. Ni wn, er holi, pwy yw'r 'cyfaill cu' hwn, ond dyma'r pennill dwys olaf, sydd hefyd yn cyfeirio at rai alawon gwerin y gwyddai'r bardd yn dda amdanynt:

Gofynnant imi ganu  
Fel yn y dyddiau fu  
'Orhoffedd Wiliam Owen',  
A 'Cherdd y Deryn Du';  
Does ganu ar fy nghalon,  
Fy seiniau sydd yn siom,  
A'r geiriau'n torri'n deilchion  
Ar draeth y 'Galon Drom'. <sup>19</sup>

**'Mae alawon hen y wlad / At alwad pawb o'r teulu': Robert Jones, Traian, a John Edwards, Pen y Bryn**

Bardd, cerddor a datgeinydd dawnus arall o Uwchaled oedd Robert Jones (1894-1957), 'Bob Traian', Llanfihangel Glyn Myfyr. Cyfansoddodd yntau dri phennill i'w canu ar alaw 'Pant Corlan yr Ŵyn'. Penillion ydynt i gyfarch 'Bechgyn Cymru' ar faes y gad yn yr Ail Ryfel Byd. <sup>20</sup> Cyfansoddodd hefyd, er enghraifft, chwe phennill telyn, 'Bro Uwchaled', i'w canu ar alaw 'Cainc y Datgeiniad', y caniad cyntaf o chwech a enillodd iddo gadair Eisteddfod Uwchaled, 1944. Meddai yn un o'r

penillion: 'Sain y delyn, diliau da, / Ni chilia o Uwchaled'. A dyma un pennill cyflawn o'r gyfres:

Os yw'r coedydd yma'n llwm,  
Mae ffrwd y cwm yn llamu;  
A thra pery sŵn y nant,  
Fe ddeil dy blant i ganu;  
Mae alawon hen y wlad  
At alwad pawb o'r teulu. <sup>21</sup>

Gŵr arall o'r fro a fu'n brysur yn barddoni ac yn cyflwyno'r cerddi hynny ar gân oedd William John Edwards (1898-1978), Pen y Bryn, Cerrigydrudion. Roedd ef wedi etifeddu talent gerddorol teulu Pentredraw, ac yn fab i William Charles Edwards, arweinydd Côr Meibion Pentrellyncymer, y cyfeiriwyd ato eisoes. Cyfansoddodd lu o ganeuon ar bob math o achlysuron lleol, ac yr oedd galw mawr arno i ganu rhai o'r cerddi rhydd hyn yn gyhoeddus. O dro i dro cyflwynai gerddi o waith beirdd eraill yn ogystal ac yr oedd hefyd yn canu gyda'r tannau. Bydd trigolion Uwchaled yn cofio, er enghraifft, amdano'n cyflwyno gydag afiaith benillion telyn Thomas Jones: 'Dyma ni ym Mhant y Gorlan...' ar alaw 'Pant Corlan yr Ŵyn'. At John Edwards yr aeth Emrys Jones i gael ei wers gyntaf mewn canu penillion, a chawn sôn am hynny eto.

### **'O ben Hiraethog draw...': R H Jones, 'Bardd y Drysau'**

Thomas Jones, 'Bob Traian' a William John Edwards, dyma dri gŵr yn cyfuno tair celfyddyd, sef celfyddyd y bardd, y cerddor a'r datgeiniad. Nid oedd mwyafrif beirdd Uwchaled, mwy nag unrhyw ardal arall, yn gerddorion ac yn gantorion, o anghenrheidrwydd. Er hyn, yr oedd gan amryw byd ohonynt glust gerddorol a dawn i gyfansoddi cerddi canadwy a oedd yn glynu'n rhwydd yn y cof. Enghraifft deg o'r beirdd hyn yw R(ober) H(enry) Jones (1860-1943), mab Tal-y-cefn Uchaf, Pentrellyncymer. Treuliodd ran helaeth o'i oes yn Lerpwl, yn gweithio mewn banc, ond y mae dylanwad bro ei febyd yn drwm ar ei farddoniaeth. Bu llawer o ganu ar rai o'r cerddi a gyhoeddwyd yn ei gyfrolau Drwy Gil y Drws (1907), Drws y Galon (1907), Y Drws Agored (1909), Drysau Eraill (1923), a Caneuon (1927). Dwy

enghraifft yw: 'Mae'n rhaid fy mod mewn cariad',<sup>22</sup> a 'Ddoi di, Dei'.<sup>23</sup> Bu ei gân i Afon Alwen ('Rhedaf atat unwaith eto, Alwen hoff...'), a'r gerddoriaeth gan J Morgan Lloyd, yn arbennig o boblogaidd fel unawd.<sup>24</sup> Bu llawer o ganu hefyd ar ei gerdd 'O Ben Hiraethog Draw' i gyfeiliant telyn, cerdd sy'n agor â'r llinellau 'Mi welais Afon Clwyd / Yn cychwyn ar ei thaith...'.<sup>25</sup> Bu nifer o'i gerddi'n boblogaidd fel darnau adrodd mewn eisteddfodau, a daeth rhai llinellau a phenillion o'i ganeuon eraill yn wybyddus ar lafar gwlad, megis y ddau gwpled epigramatig a ganlyn o'r gerdd 'Rhanna dy Bethau Gorau':

Y ffordd i gadw trysor yw  
Ei roi yn ôl ar allor Duw.

Rhyw nefoedd wael yw eiddo'r dyn  
Fynn gadw'i nefoedd iddo'i hun.<sup>26</sup>

### 'Pwy wela'i fel f'Anwylyd...': emynau llafar gwlad

Roedd 'creu melyster i'r glust ac o'r glust i'r galon' yn nod arbennig gan yr emynwyr hwythau. Bu bri mawr ar ganu emynau yn Uwchaled, fel yn yr ardaloedd cyfagos. Emynau llafar gwlad oedd rhai o'r rhain, a neb yn rhyw siwr iawn pwy oedd yr awduron. Canai Owen Hughes, Pen-y-gob, Llangwm, bennill felly. Fe'i clywodd yn hogyn pump i chwe mlwydd oed gan ei dad. Roedd yntau'n ei ganu. Clywsai ef y pennill yn cael ei ganu gan 'hen wraig Foty Bach, pen oedd hi'n gweithio yn Tŷ Ucha, Aeddren: hen wraig dda am helpu'.<sup>27</sup> Dyma'r pennill, ond y mae'n dra phosibl fod y drydedd a'r bedwaredd linell yn eisiau:

Os hebot ti, fy Arglwydd da,  
Mi fyddai'n boddi'n siwr...  
Dwg fi o fewn i'r Graig,  
Y Graig sydd uwch na mi,  
Ac yna rhodiaf is y rhod  
Er clod fy Arglwydd cu.<sup>28</sup>

Gŵyr y cyfarwydd fod y geiriau 'Y Graig sydd uwch na mi' yn hen drawiad. Fe'u gwelir, er enghraifft, mewn emyn gan Dyfed ac yng nghyfieithiad Ieuan Gwyllt o emyn yr Americanwr, Lewis Hartsough: 'Tyn fi, Iesu, o bob tonnau/At y Graig sydd



uwch na mi...' Defnyddir hwy hefyd yn emyn cyfarwydd Samuel Jonathan Griffith (Morswyn): 'Arglwydd Iesu, arwain f'enaid / At y Graig sydd uwch na mi...' Y mae'r ddelwedd yn seiliedig ar adnodau a welir, er enghraifft, yn Ex. 33: 21-2; Salm 40: 2-3; a Salm 61: 2.<sup>29</sup>

O bob ffurf lenyddol, y mae'n rhaid i emyn fod yn ganadwy, ac fe wŷr Emrys Jones, Llangwm, hynny'n dda, fel un a gyfansoddodd garolau Nadolig ei hunan ac un a fu'n codi canu yng Nghapel y Groes am flynyddoedd. Ac, yn sicr, fe wyddai John Thomas (Eos Gwynedd, 1742-1818) hynny, y siopwr, yr amaethwr, a'r codwr waliau hwnnw o Bentrefoelas, clerc cymwynasgar cyntaf y Cyngor Plwyf. Dyma bennill agoriadol ei emyn 'Mae Efe Oll yn Hawddgar':

Pwy wela'i fel f'Anwylyd,  
 Yn hyfryd ac yn hardd,  
 Fel ffrwythlon bren afalau  
 'N rhagori ar brennau'r ardd?  
 Cês eistedd dan ei gysgod  
 Ar lawer cawod flin,  
 A'i ffrwyth oedd fil o weithiau  
 I'm genau'n well na gwin.<sup>30</sup>

Gwyddom am amryw feirdd sy'n awduron awdlau a phryddestau digon diawen, ac eto sydd wedi cyfansoddi rhai emynau canadwy a chofiadwy. Enghraifft yn Uwchaled yw Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfa, 1827-95). Bu'n ficer yn Llanfihangel Glyn Myfyr, 1866-72, yna yn Llangwm o 1872 hyd flwyddyn ei farw. Ef yw awdur y nofelau cynnar, eithaf pwysig yn eu dydd: Llanaber (1886-7) a Llan Cwm Awen (1891-2), a bu'n brysur yn golygu'r Haul, 1885-95. Nid oes fawr o sôn amdano heddiw fel bardd - a bardd eisteddfodol cynhyrchiol iawn ydoedd - ond ceir llawer o ganu o hyd ar ei garol: 'Yn nhawel wlad Jiwdea dlos...' a'i gyfieithiad o garol Charles Wesley:

Clywch lu'r nef yn seinio'n un,  
 Henffych eni Ceidwad dyn...

**'Mwynen Mai' a 'Drops of Brandy': alawon gwerin beirdd y ddeunawfed ganrif; John Thomas, Pentrefoelas; Huw Jones, Llangwm, a Jac Glan-y-gors**

Yr oedd John Thomas, Pentrefoelas, fel eraill o feirdd a baledwyr y ddeunawfed ganrif yn Uwchaled, yn gyfarwydd iawn ag alawon y cyfnod, alawon o Gymru a Lloegr. Cyhoeddwyd cyfrol o'i farddoniaeth yn 1845, wedi'i golygu gan Galedfryn: Eos Gwynedd: sef Casgliad o ganiadau ar destunau Crefyddol, Moesol a Difyrol. Yn ail ran y llyfr: 'Caniadau ar Amryw destunau Moesol', cynhwysir 25 cerdd, ac y mae 17 ohonynt, yn ôl cyfarwyddyd y bardd, i'w canu ar alawon penodol, 15 ohonynt i gyd. Fe'u rhestrir yma yn yr un drefn ag y nodwyd hwy yn y llyfr: Gwêl yr Adeilad; King George's Delight (2); Mwynen Merch (2); Difyrrwch y Brenin Charles; Ffarwel Gwŷr Aberffraw; Miller's Key; Glân Medd-dod Mwyn; Sailor's Bold; Briton's Bold; Difyrrwch Gwŷr Dyfi; Duke y Dero; Y Galon Drom; Trymder; Mwynen Mai, a Leave Land. Yn nhrydedd ran y gyfrol: 'Caniadau Difyrus ar destunau Gwladol', cynhwysir 19 o gerddi (a rhai ohonynt yn englynion) a nodir 6 o alawon gwahanol ar gyfer 7 o'r cerddi, sef: Toriad y Dydd; Hope to Have (2); King George's Delight; Mentra Gwen; Glân Medd-dod Mwyn; a Difyrrwch y Brenin Charles.

Roedd y baledwr cynhyrchiol Huw Jones (1700?-82), o Langwm, yntau yr un mor gyfarwydd ag alawon ei oes. Felly hefyd Jac Glan-y-gors (1766-1821). Yn Gwaith Glan y Gors (Cyfres y Fil, 1905) nodir yr alawon a ganlyn (15 ohonynt): Ymadawiad y Brenin; Belisle March; Calon Drom; Trymder (2); Calon Derwen; Drops of Brandy; Derry Down ('y ffordd fyrraf'); Cil y Fwyalch neu Queen Bess; Auld Lang Syne (Yr Hen Amser Gynt); Duw Gadwo'r Brenin; Breuddwyd y Frenhines; Mentra Gwen ('yr hen ffordd'); Mesur Gwyddelig; a Poor Jack.

## **Cerddi llafar gwlad beirdd Pentrellyncymer a Hafod Elwy a 'Huw Hendre Ddu'**

Cyhoeddwyd cerddi a baledi beirdd megis Huw Jones, John Thomas a Jac Glan-y-gors, ond yr oedd yn Uwchaled hefyd draddodiad yr un mor gyfoethog o gyfansoddi cerddi nas cyhoeddwyd o gwbl, o angenrheidrwydd, ac eithrio ambell un mwy chwaethus na'i gilydd, yn awr ac yn y man, mewn papurau newyddion lleol. Er i lawer o'r cerddi o dro i dro gael eu hysgrifennu ar ddarnau o bapur a'u hail-gopiö, ar lafar, yn bennaf, y trosglwyddwyd hwy. Aeth ugeiniau ohonynt bellach, bid siwr, yn angof. (A dyma bwynt y dylem yn wastad roi sylw teg iddo wrth drafod canu gwerin, neu unrhyw agwedd arall ar ein diwylliant llafar, er ein bod, yn naturiol, yn gorfod llunio'n damcaniaethau bron yn gyfan gwbl ar sail yr hyn sydd wedi goroesi.) Mae blas y pridd ar y cerddi anghyhoeddedig hyn; blas daear a bro y gymdeithas gymdogol, glö's a roes fod i'r cerddi, a'r gymdeithas yr oedd y beirdd hwythau yn rhan annatod ohoni.

Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ganrif hon roedd ardal wledig Pentrellyncymer a Hafod Elwy yn nodedig am gerddi llafar gwlad o'r fath. Braint fawr i mi yn ystod 1964-75 oedd cael cyfle i sgwrsio ag un neu ddau berson a oedd yn dal i gofio'r gymdeithas ar dro'r ganrif a chynt ar lethrau Hiraethog ac yn cofio rhai o'r cerddi, neu bytiau ohonynt, a sawl rhigwm a stori. Yn bwysicach na dim, roedd y cynheiliaid traddodiad hyn yn falch o gael rhoi'r cerddi a'r wybodaeth ar gof a chadw. Mawr fy nyled iddynt: cyfeillion caredig, megis Francis Jones (g. 1874), Parc Newydd, Cefn Brith, ac yn arbennig iawn, Lewis T Evans (1882-1975), Seler, Y Gyffylliog, gynt o Dy'n-y-gilfach, Cefn Brith.<sup>31</sup>

Cefais gyfle i drafod cerddi beirdd Hafod Elwy a'r cyffiniau a natur y gymdeithas mewn dwy erthygl: 'Cerddi Llafar Cymdeithas Fynyddig' (Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 15, 1971, tt. 135-52), a 'Traddodiad y Gwŷr wrth Gerdd yn Nyffryn Clwyd a Bro Hiraethog' (Gwŷr wrth Gerdd, gol. Aled Lloyd Davies; cyfrol i ddathlu pen blwydd Parti Meibion Menlli, 1956-81, tt. 12-71). Ni fydd angen, felly, manylu yn y fan hon, dim ond dweud cymaint â hyn: caneuon am

bobl ydynt, yn bennaf, ac am bobl yr oedd y beirdd yn eu hadnabod yn dda. Caneuon ydynt am hynt a helynt dyn o febyd i fedd ac, yn arbennig iawn, ei droeon trwstan. Fel y cyfarwyddiaid gynt, adrodd stori'n ddifyr oedd camp fawr y beirdd, a'r stori honno ar gân.

Y pen difyrrwr oedd y cymeriad athrylithgar Huw Jones (g. 1821?), Hendre Ddu, Pentrellyncymer.<sup>32</sup> Un o'i gerddi, er enghraifft (ar fesur tri thrawiad), yw honno i 'Helynt y Fules', mules Dafydd Elis, y Bwt, a aeth i grwydro i Bentreddraw, a'r llanciau - y 'lads' - wedi rhwymo cath wrth ei chynffon! Fel hyn y mae'r bardd yn estyn gwahoddiad i'w gynulleidfa wrando ar ei stori:

Os neswch chwi'n isel, cewch chydig o chwedel,  
Dae'n gyfan mewn gafel byddai'n barsel o beth...<sup>33</sup>

Yr un modd ag adrodd storïau, crefft lafar oedd barddoni. Nid er mwyn eu cadw iddynt hwy eu hunain, eu copïo a'u cyhoeddi ryw ddydd yn llyfr i eraill eu darllen, y cyfansoddai'r beirdd y cerddi, ond er mwyn i eraill eu clywed a'u mwynhau. Eu clywed hefyd nid ymhen amser, ond cyn gynted ag yr oedd modd. Pe pylai'r cof am y digwyddiad a ysgogodd y gerdd, nid oedd fawr o bwrpas mwyach i ganu i'r digwyddiad hwnnw. Ail-greu hanes y digwyddiad fyddai hynny; nod y beirdd oedd ail-fyw drama'r digwyddiad. Oherwydd mai crefft lafar oedd barddoni, chwiliai'r beirdd am y cyfryngau llafar gorau i gyflwyno'r farddoniaeth. Dyna paham y cyfansoddwyd y rhan fwyaf o'r caneuon mewn arddull syml ac ar fesurau canadwy, megis mesur tri thrawiad, llinellau 8-7, llinellau 7-6, a llinellau pedwar curiad. Hawdd oedd adrodd y cerddi a'u deall ar y gwrandawriad cyntaf; hawdd oedd eu canu ar 'Lwyn Onn', 'Pen Rhaw', ac alawon poblogaidd eraill.

**Sturmant, organ geg a chordial; difyrrwch min nos gweision ffermydd ac 'athrylith fawr, fras' y 'cantwrs'**

Yn y cyfnod hwn, tua ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd sawl cyfrwng i hybu'r diddordeb mewn canu rhai o'r cerddi. Soniwyd eisoes am y bri a roed yn Uwchaled ar ganiadaeth y cysegr ac am bwysigrwydd

cyfarfodydd cystadleuol, neu gyfarfodydd bach y capeli. Mewn ambell gyfarfod felly ceid hefyd gystadleuaeth 'codi alaw ar y pryd'. Wrth gyfeirio yn y gyfrol hon at offer cerdd, cyfyngwyd ein sylwadau, yn bennaf, i'r delyn. Y mae'n werth cofio, serch hynny, mai fel offeryn hytrach yn 'uwchraddol', chwedl Lewis Evans, yr ystyrir y delyn gan garfan helaeth o'r trigolion. Y pwynt pwysig i'w gofio yw hyn: gan ychydig deuluoedd yn unig yr oedd telyn, neu organ, ond mewn difyrrwch fin nos ymhlith gweision ffermydd ac eraill byddai sawl un a oedd yn bresennol yn gallu chwarae sturmant, ac eraill yn berchen ar organ geg a chordial, neu gonsartina. Tueddwn, efallai, i or-ddibrisio pwysigrwydd offerynnau 'answyddogol' fel y rhain a'r gwŷr anamlwg hynny a fu'n eu chwarae. Ond fe wnaed cyfraniad pwysig ganddynt hwy at gynnal y traddodiad, a gweddus yw cofio amdanynt. Hebddynt hwy, efallai na fyddai cymaint bri ar gerdd dant a chanu gwerin yn Uwchaled a Bro Hiraethog heddiw.<sup>34</sup>

Ym Mhentrellyncymer a'r cyffiniau yn ail hanner y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon roedd adrodd a chanu hen gerddi a cherddi newydd y beirdd lleol yn rhan bwysig o ddifyrrwch gweision a meibion ffermydd fin nos yn y 'lloffydd allan', neu wrth chwarae coetio, 'taflu maen a throsol', a 'Dic ar y maen'. Wrth chwarae coetio, er enghraifft, y canai Jacob Jones (brawd Francis Jones) rigwm sy'n dechrau fel hyn:

Ti-rym, ti-rym, ti-ero, mi ês i garu Gwen,  
Ti-rym, ti-rym, ti-ero, mi chwerthodd am fy mhen...<sup>35</sup>

Mewn ardal anghysbell fel Pentrellyncymer a Hafod Elwy, yn y ffeiriau y ceid y gynulleidfa fwyaf i wrando ar y cerddi. Wedi ymwahanu i'r lloffydd allan a'r tai, nifer fechan oedd y gwrandawyr. Felly, yr oedd pwys mawr ar drosglwyddo'r cerddi o'r naill berson i'r llall, er mwyn iddynt gael eu clywed gan gynifer o bobl ag yr oedd modd. Fel hyn y lledaenai Huw Jones ei gerddi. Adroddai a chanai hwy yn y ffeiriau i laslanciau fel Francis Jones. Codent hwythau'r alaw a dysgu'r geiriau. Yr oedd y 'cantwrs' hyn, fel y beirdd, wedi meithrin eu cof, ac yr oedd clywed y geiriau ychydig droeon yn ddigon. Prif gantwr Huw Jones oedd Wil Jones, na wyddai sol-ffa ond a

feddai ar glust dda a dawn arbennig i boblogeiddio'r cerddi drwy gyfrwng ei lais a'i gordial.<sup>36</sup> Disgrifiwyd y 'cantwrs' hyn gan Lewis T Evans fel 'pobl yr athrylith fawr, fras' ac yr oedd galw aml am eu gwasanaeth, gan mai diddori oedd eu gwaith hwythau, fel gwaith y beirdd a'r storiwyr.

Gŵr yn nhraddodiad gorau 'cantwrs' athrylithgar Pentrellyncymer a'r cylch oedd Owen Hughes, Pen-y-gob, Llangwm. Y mae'r canwr gwerin i Emrys Jones, o Ben y Bont, Llangwm, yntau, yn yr un traddodiad. Fel y cawn sylwi eto, cafodd rhai o gynheiliaid y canu gwerin yn ardal Pentrellyncymer ddylanwad ar y naill a'r llall.

### **'Robert Patagonia' a'i hyrddi-gyrddi; Ap Glaslyn; a William Thomas, Cefn Garw a'i harmoniam fach**

Dyna fanylu beth ar gyfansoddwyr a chyflwynwyr cerddi mewn un rhan yn unig o Uwchaled. Cerddi â blas lleol arnynt, yn bennaf, oedd y rhain. Ond yr oedd yn Uwchaled rai cantorion gwerin a oedd yn gyfrwng hefyd i ddod â hen gerddi a baledi o'r 'tu allan', megis, i sylw'r trigolion. Canwr baledi o'r ddeunawfed ganrif oedd Evan Ellis, Llanfihangel Glyn Myfyr, ond ychydig a wyddom amdano. Tua diwedd y ganrif ddiwethaf arferai gŵr o'r enw Robert Roberts, 'Robert Patagonia', Tan Wiars, Pentrellyncymer, fynd o dŷ i dŷ gyda'i hyrddi-gyrddi.<sup>37</sup> Yr oedd diddordeb mawr hefyd gan John Owen (Ap Glaslyn, 1857-1934), mewn adrodd storiâu a chanu hen gerddi. Tua'r cyfnod 1911-14, ac adeg adeiladu Gwaith Dŵr yr Alwen, bu ef yn lletya yn Nhŷ Capel, Pentrellyncymer, yn ystod ei dymor fel 'cenhadwr' gyda'r Methodistiaid Calfinaidd i'r Nafis.

Gŵr arall a ymddiddorai'n fawr mewn cyflwyno hen gerddi oedd y cymeriad a'r pregethwr, William Thomas, Cefn Garw, Pentrefoelas. Deuai i gylch Pentrellyncymer tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda'i 'harmoniam fach' i gynnal 'cyngerdd un dyn' a chanu caneuon megis: 'Yr oedd hi'n bwrw'n arw / Ym mlwyddyn ninety one...', a'r gân: 'O, prynwch imi un o'r gwyddau'. Cân oedd hon wedi'i seilio ar hen stori werin gydwladol am fachgen na welsai erioed ferch, yn cael



gwahoddiad gan ei dad i fynd i'r ffair. Yno mae'n gweld merched am y tro cyntaf, ond mae'i dad yn dweud wrtho mai gwyddau ydyn nhw! Cyn mynd adre mae'r bachgen yn cael cynnig anrheg gan ei dad. Mae yntau'n ateb: 'O, prynwch imi un o'r gwyddau!' <sup>38</sup>

Câi William Thomas groeso mawr hefyd ar 'Noson y Clwb' yn Llangwm. Clwb y Cleifion, neu'r Gymdeithas Gyfeillgar, oedd hwn, a bu mewn bri o 1857 hyd 1936. Ar y dydd Mercher cyntaf o Fai, cynhelid y wledd flynyddol. A mawr fyddai'r miri, gyda'r seindorf - y 'band' - wedi teithio yno o'r Bala neu Lanuwchllyn, Cynwyd, Cerrigydrudion, Llangollen neu Ruthun. Byddai rhai o fechgyn yr ardal hefyd, megis Bob Preis, yn dawnsio i'r miwsig. <sup>39</sup> Gyda'r nos cynhelid cyngerdd, darlith neu gyfarfod cystadleuol yng Nghapel y Groes, Gellioedd, neu Gefn Nannau. Er yn gynnar yn y ganrif hon, fodd bynnag, Y Groes fyddai'n gyfrifol am drefnu. Meddai David Jones, tad Emrys, mewn ysgrif werthfawr yn adrodd hanes y Clwb yn Cefn Gwlad:

'Câi'r Parch. W W Thomas, Cefn Garw, Pentrefoelas, dŷ llawn bob amser. Cadwai ddiddordeb y cynulliad am ddwy awr gyda'i ganeuon pert a doniol. Cariai harmoniam i'w ganlyn, a meddyliem ei fod yn un o chwaraewyr gorau ein gwlad pan gyfeiliai iddo'i hun wrth ganu, "A glywsoch chwi'r Gog?", neu "Y Flwyddyn '91".' <sup>40</sup>

**Ffeiriau Uwchaled a gwerthwyr llyfrau a hen gerddi: Mynyddog, Abel Jones (Bardd Crwst) ac Elis o'r Nant; 'Wiliam Dafis y Llyfre', 'Robert y Llyfre Budron' a Gwilym Cowlyd**

Cyn dirwyn y bennod hon i ben, rhaid dweud gair byr am y personau diddorol hynny a wnaeth gymwynas fawr â'n diwylliant drwy grwydro'r wlad a mynd o ffair i ffair yn gwerthu baledi, hen gerddi a llyfrau. Ar un adeg deuai Richard Davies (Mynyddog, 1833-77), i 'Ffair Glame', Cerrigydrudion, ar y deuddegfed o Fai, sef un o'r ddwy ffair gyflogi i ardal Pentrellyncymer a Hafod Elwy, er mai fel cyfansoddwr a chanwr cerddi poblogaidd, yn hytrach na gwerthwr, y meddyliwn amdano ef. I 'Ffair Glame',

Pentrefoelas, ar y trydydd ar ddeg o Fai, deuai Abel Jones (Bardd Crwst, 1830-1901). Arferai ganu rhai o gerddi Jac Glan-y-gors a baledi, megis 'hanes Llofruddiaeth Jane, merch Hafoty Dre, Pentrefoelas', gan eu 'hyrjio' i'r bobl: 'Isio cerdd, was, isio cerdd, was; ceiniog ydi hi; ceiniog ydi hi'.<sup>41</sup> I Ffair Glame, Pentrefoelas, hefyd yn ail hanner y ganrif ddiwethaf fe ddeuai Ellis Pierce (Elis o'r Nant, 1841-1912), a llanciau'r 'wlad ucha' yn prynu baledi a llyfrau ganddo. Ambell dro teithiai cyn belled â Phentrellyncymer.<sup>42</sup>

Tua'r un cyfnod fe grwydrai William Davies ('Wiliam Dafis y Llyfre') yn siroedd y Gogledd a'i becyn llyfrau ar ei gefn, er nad oedd ganddo ond un fraich i' w cario! Mab y Cetrys, Nantglyn, oedd ef, a rhoes ddisgrifiad byw iawn inni yn ei lythyrau o'r bobl yr ymwelai â hwy - y prynwyr a'r rhai a wrthodai brynu!<sup>43</sup> 'Robert y Llyfre Budron' oedd llysenw un cymeriad arall o'r Sir a ddeuai heibio yn ei dro i werthu llyfrau a baledi. (Ni wyddys ei briod enw.) Prynodd Hugh Evans (1832-1905), Ty'n-y-gilfach, Cefn Brith (tad Lewis T Evans), nifer o lyfrau ganddo. Prynodd ef lyfrau a hen gerddi hefyd gan William John Roberts (Gwilym Cowlyd, 1827-1904). Deuai yntau yn ei dro i Uwchaled a'r cylch.<sup>44</sup>

### **'R O Ffor Cro' a Robert Hughes, Ty'n Cefn, 'y pedlar olaf'**

Y mae'n dra phosibl mai'r gŵr olaf yn Uwchaled ac Edeirnion i gyfansoddi cân, yna ei hargraffu ar ddalen o bapur a cheisio'i gwerthu wedyn am geiniog neu ddwy oedd y bardd-rigymwr a'r cymeriad hynod, Robert Owen, 'R O, Ffor Cro' (bu f. 1951). Rywdro yn nechrau'r ganrif, ac yntau oddeutu ugain mlwydd oed, symudodd o Glasfryn, yn Uwchaled, ei fro enedigol, i fyw i Fourcrosses, Glanrafon. Pan oedd yn mudo i'r ardal newydd, cafodd wagen a oedd ar ei ffordd i chwarel galch Cobydiri i'w gludo ef a'i bethau. A dyma destun y gân a argraffwyd ganddo i'w gwerthu am geiniog: 'Y Daith Mewn Wagen Ar Hyd y Nos o'r Glasfryn i Lawrbetws'. Cyfeiriai ato'i hun ar ddiwedd cân neu rigwm fel 'R O, Ffor Cro', ac wrth yr enw cofiadwy hwn y cafodd ei adnabod fyth wedyn. Y mae'n enw cymwys iawn i rigymwr parod ei awen a oedd yn ymhyfrydu mewn odlau cofiadwy! Teiliwr ydoedd wrth ei grefft, ond

bu yn ddiweddarach yn cadw siop, a phan aeth yr hwch drwy honno, bu'n gwerthu te hyd y wlad. Yr oedd hefyd yn trwsio clociau. <sup>45</sup>

Y gwerthwr baledi, neu'r 'pedlar' olaf yn y cylch, mae'n bur sicr, oedd y siopwr a'r cymeriad ffraeth, Robert Hughes, Ty'n Cefn, rhwng Maerdy a Chorwen. Roedd trigolion Uwchaled ac Edeirnion yn gyfarwydd iawn â'i siop-llawn-trugareddau, gan gynnwys llyfrau. Ceir llun da ohono, a phrin o'i fath, gan Griffith Williams, dyddiedig 1909, yn gwerthu hen gerddi ger yr orsaf yng Nghorwen. <sup>46</sup> Newidier y wisg a'r flwyddyn, a rhodder pecyn o Lên y Llannau o dan y fraich dde, a hawdd y gallech ddychmygu Emrys Jones yng Nghorwen yn yr union fan lle safai Robert Hughes, Ty'n Cefn gynt. Y mae yntau yn nhraddodiad gorau yr hen werthwyr llyfrau a thafleuni baledi, yn ogystal â'r hen ddatgeiniaid a'r cantorion gwerin. Y mae rheidrwydd i werthu er mwyn talu am argraffu, ond y boddhad pennaf yw cael cyfle i rannu peth o drysorau llên. 'Rhannu': dyma'r gair allweddol a fydd yn sail i'r penodau nesaf am deulu Emrys Jones, ac am y dylanwadau a fu arno. Bu rhywrai yn rhannu, yn trosglwyddo'r etifeddiaeth, gan roi cyfle iddo yntau yn y man i ychwanegu at yr etifeddiaeth honno a'i chyflwyno gyda'r un gofal i eraill.

## *Gwaenfab, Cerddi Cymru a 'Theulu'r Seiri Cochion'*

Ganed Emrys ar yr ail o Dachwedd 1920, ym Mhen y Bont, Llangwm, tyddyn a'i gaeau'n ffinio â'r pentref. Ei enw llawn yw: William Emrys Jones, a'r 'William' yr un enw â'i daid (tad ei dad) a'i hen daid. Ym Mhen y Bont hefyd (16 Chwefror 1918) y ganed Eirlys (Mrs Eirlys Lewis Evans, Y Rhyl), ei unig chwaer. Rhwydd fyddai ysgrifennu llawer am ei diddordebau cerddorol hithau, ac eisoes cyfeiriwyd at ei thraethodau gwerthfawr ar hanes Llangwm yn Llên y Llannau. Ond bwriad y bennod hon yw dweud gair am deulu'r brawd a chwaer. Gellid sôn am ddiddordebau llenyddol amlwg ar ochr y fam, diddordebau cerddorol nodedig iawn ar ochr y tad ac, ar y ddwy ochr, barodrwydd arbennig i drosglwyddo'r dreftadaeth o un genhedlaeth i'r llall o fewn y teulu ac i fod o wasanaeth i'w bro.

### **'Adrodd a phregethwrs oedd 'i phethe hi': Kate Ellen Jones, mam Emrys Jones**

Ganed Kate Ellen Jones (1880-1971), mam Emrys Jones, ym Mryn Golau, Cynwyd. Roedd hi'n ferch i Ann a Robert Roberts (Gwaenfab), a'r hynaf o saith o blant. Gyda'i thaid a'i nain, 'Ymneilltuwyr cadarn', y magwyd hi, a chawsant ddylanwad mawr arni. Wedi iddynt hwy farw, bu'n byw yng Nghorwen gyda'i hewyrth John a'i modryb Betsi. Yn ddeuddeg oed roedd hi'n symud gyda nhw i Benbedw (Birkenhead). Ac yno y buodd hi yn gweithio'n galed i'w modryb am yn agos i ugain mlynedd, 'heb dderbyn dime o gyflog na llawer o wylie chwaith'. Cof da gan Emrys i'w fam ddweud wrtho hefyd fel y rhwystrodd ei modryb iddi un tro fynd gyda'i ffrindiau i Drefriw ar wyliau, gan ei gorfodi, yn lle hynny, i fynd at ei brawd i Langwm. Ond yno fe gyfarfu'r forwyn fach â David Jones, tad Emrys, 'ac roedd yr hen Betsi yn filen iawn pan ddoth hi i wybod!' Wedi gadael Penbedw, bu'n gogyddes mewn plasty yn Nyffryn Clwyd, ac yn Ninbych y byddai hi a David Jones yn cyfarfod. Priodwyd hwy yn 1916 a daeth hithau i Ben y Bont i fyw.

Llenyddiaeth Gymraeg, hanes a'r capel oedd diddordeb mawr Kate Ellen Jones. Ym Mhenbedw bu'n gwranddo ar lawer iawn o bregethwyr, ac Evan Roberts, y Diwygiwr, yn un ohonynt. Arferai fynd i Gapel Parkfield, a bu'n fawr ei ddylanwad arni. Mynychai hefyd ddsbarthiadau Cymraeg Philip Jones, brawd 'J Aitsh, Y Brython'. Meddai Emrys: 'Mi fydde darllen yn bwysig iawn gan Mam. Mam fydde'n dysgu pethe inni - hen hanesion. Roedd ganddi gof anhygoel.' Roedd hi'n 'gwybod geirie yr hen alawon gwerin' ac yn eu cyflwyno i'w phlant, 'ond adrodd a phregethwrs oedd 'i phethe hi'.<sup>1</sup> Hi fydde'n dysgu Eirlys ac Emrys i adrodd a'u paratoi at gyfarfodydd cystadleuol y cylch.

### **'Cenwch im yr hen ganiadau': Gwaenfab a'i gasgliad o 'chwe ugain a deg o gerddi Cymru'**

Ganed Robert Roberts (Gwaenfab, 1850-1933), tad Kate Ellen Jones, yng Ngheunant Isa, Waen, Y Bala. Roedd ei fam yn gyfnither i Robert Thomas (Ap Vychan, 1809-80), ac roedd ei dad, John Tudor, yn hanu o Drawsfynydd. Dywedir i'r gŵr hwnnw newid yr enw 'Tudor' i 'Roberts', oherwydd fod y Tuduriaid (hen deulu brenhinoedd Lloegr) yn 'deulu drwg!' Bu Gwaenfab yn 'gweini ffarmwrs' pan oedd yn llanc ifanc. Bu am 'blwc', er enghraifft, yn Llechwedd Figin, Gelliöedd. Dyna'r adeg, mae'n debyg, y bu'n mynd at Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfaï), ficer Llangwm (1872-95), i ddysgu'r cynganeddion. Bu'n dysgu'r cynganeddion cyn hynny, meddir, yng ngolau kannwyll. Aeth i'r môr yn llanc ifanc, a gwelodd lawer o galedi a llawer o ramant. Bu raid iddo wneud dilladau o sachau a bu mewn tri llongddrylliad. Aeth wedyn i Lerpwl i'r gwaith nwy, a bu'n parhau â gwaith tebyg wedi dychwelyd i'r Bala.

Llyfrau, barddoniaeth a hen gerddi oedd diddordeb mawr Gwaenfab. Bu'n cystadlu hefyd mewn eisteddfodau. Y mae'r gadair hardd o dderw du a enillodd yn 'Eisteddfod Gwŷr Ieuanc Birkenhead', y Pasg 1897, am ei bryddest 'Daniel Owen', bellach gan ei ŵyr ac i'w gweld heddiw ym Mhen y Bont. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth: Murmuron Awen (Davies ac Evans, Y Bala, 1895), a Blaguron Awen (Gwasg y Brython, Lerpwl; dyddiad y 'Gair at y Darllenydd' yw Hydref 1901). Ceir

yn y cyfrolau hyn gerddi ar amrywiaeth mawr o fesurau (y mesurau rhydd, yn bennaf, gyda nifer o englynion), ac amrywiaeth di-ben-draw o destunau, moesol ac athronyddol, dwys a difyr.

Nid oes fawr o sôn heddiw am Gwaenfab fel bardd, ond bu cryn lawer o adrodd ar rai o'i gerddi unwaith. Bu rhai ohonynt hefyd yn cael eu canu; er enghraifft: 'Hiraeth am Feirionnydd', ar alaw 'Difyrrwch Gwŷr Harlech':

Hiraeth sydd yn torri'm calon,  
Hiraeth am hen fryniau Meirion,  
Hiraeth am ei glynnoedd gleision  
A'i haberoedd glân...<sup>2</sup>

Un o'i ganeuon mwyaf poblogaidd oedd: 'Cenwch im yr Hen Ganiadau', a'r gerddoriaeth gan John Henry. Trefnwyd hi fel unawd ar gyfer unrhyw lais. Cyhoeddwyd gyntaf gyda cherddoriaeth tua 1896 (yn ôl Huw Williams), ac yna gan Snell a'i Feibion, ond nid yw'r copïau wedi'u dyddio.<sup>3</sup> Adlewyrchir yn y gân hon hoffter arbennig Gwaenfab o farddoniaeth ac alawon ei wlad. Cyfeiria at 'hen alawon ein telynau', 'hwiangerddi gorau'r byd', a 'hen emynau hoff fy ngwlad'. Cyhoeddwyd ym Murmuron Awen hefyd gyfieithiad o'r gân hon, gan R Drury: 'Sing to me the Songs of Cambria'.

Yn 1917 cyhoeddodd Gwasg H Evans, Y Bala, gyfrol werthfawr: Casgliad o Chwe' Ugain a Deg o Gerddi Cymru, Hen a Diweddar, gan ychwanegu'r geiriau a ganlyn yn hysbyseb dda ar gyfer gwerthiant: 'Yr unig gasgliad yn yr Iaith'. Yr oedd y wasg brysur hon eisoes wedi cyhoeddi cyfresi o 'Gerddi Cymru, Hen a Diweddar' fesul taflenni, yn cynnwys ugain neu lai o gerddi. Ar flaen-ddalen rhai o'r taflenni hyn ceir arwyddluniau. Y mae un ohonynt, er enghraifft, yn cynnwys darlun o'r Ddraig Goch a'r genhinen, ynghyd â'r geiriau: 'Y Ddraig Goch ddyry gychwyn; fy iaith, fy ngwlad, fy nghenedl'. Ar ddechrau'r gyfrol ceir 'Nodiadau Rhagarweiniol ar Hen Faledwyr a Baledi Cymru', gan Gwaenfab. Y pennawd yw 'Hen Gerddi Cymru'. Y mae'r sylwadau hyn yn gytbwys a buddiol. Dyma'i frawddeg agoriadol:



'Mae dau fath o honynt, sef y Cerddi graenus, o waith cyfansoddwyr gwych, a'r Baledi pen ffair, a gyfansoddid gan fath o rigymwyr, talentog yn eu ffordd eu hunain, ac a genid ganddynt i wneud arian bywioliaeth.'<sup>4</sup>

Ac meddai ymhellach, gan fod yn ddigon dewr ac onest i fynegi ei farn ar gyfraniad pwysig anterliwtiau Twm o'r Nant:

'Yr oedd yr hen gerddi bron yn ddieithriad yn gerddi moesol eu chwaeth: yr oeddynt yn gyfryngau gwybodaeth mewn adeg ag yr oedd newyddiaduron yn brinion a drudion. Dysgent wersi bywyd; tueddent y werin i garu y da a chashau y drwg. Cyfansoddiadau felly oedd cerddi ac interliwdiau Twm o'r Nant. Bu "Twm" yn bregethwr mwyaf effeithiol ei oes, er na fynai ei gydoeswyr Piwritanaidd gydnabod hyny. Yr oedd ganddo ef ei ddsbarth ei hun i'w gwastrodi a'u cystwyo, fel y byddai'r angen. Bugail y "bleiddiaid" oedd Twm, fel y dywedodd wrth Mr. Charles o'r Bala, "Edrychwch chwi ar ôl y defaid, Mr. Charles, ac mi edrychaf finau ar ôl y bleiddiaid".

Bu yr hen gerddi hefyd yn foddion difyrwch diniwaid. Cynyrchent afiaeth a llawenydd iach i ysgafnhau mynwesau blinedig gan waith a thrafferth bywyd. Wedi dyfod at gyfnod Talhaiarn a Cheiriog, daeth nodwedd y gerdd yn fwy cain a chaboledig.'<sup>5</sup>

Y mae'n gwbl nodweddiadol o Gwaenfab hefyd iddo gloi ei gyflwyniad gyda dau englyn yn annog ei ddarllenwyr i brynu'r gyfrol!

Awenog ardd o hen gerddi - enwogion,  
Gynygir i'ch lloni;  
Y call ni fyn eu colli,  
Prinach hwy ânt - prynwch hi.

Hen swynol dlysau anian - i wladwr,  
Yw'r baledi dyddan;  
'Nawr ni fu mewn unrhyw fan  
Well toraeth am swllt arian.'<sup>6</sup>

A gwir a ddywedodd. Er bod swllt bryd hynny yn swm sylweddol o arian, yr oedd y gyfrol yn llawer mwy o werth na hynny. Bu'n llyfr eithriadol o boblogaidd. Yr oedd y gyfrol ymhlith llyfrau fy nhad ac ôl traul garw arni, gyda'r clawr yn eisiau, a gwelais gopiau ohoni hefyd mewn sawl cartref arall yn Uwchaled. Bu'n gyfrwng pwysig i gyflwyno rhai cerddi newydd 'diweddar' ac i sicrhau parhad poblogrwydd amrywiaeth mawr o 'hen gerddi', megis: 'Yr Hogen Goch', 'Y Bachgen Main', 'Lisa

Lân', 'Y Blotyn Du', 'Bugail Hafod y Cwm', 'Yr Eneth Gadd ei Gwrthod', 'Hen Ffon fy Nain', 'Hanes y Sesiwn yng Nghymru', 'Y Gwenith Gwyn' a 'Galargan y Mochyn Du'.

Cyfansoddodd Gwaenfab englyn i gyfarch Emrys Jones, ei wŷr. Yn naturiol, roedd ganddo yntau feddwl uchel iawn o gasgliad ei daid o 'Gerddi Cymru'. Gwnaeth ddefnydd helaeth ohono a bu'n canu nifer o'r cerddi ei hunan. Claddwyd Gwaenfab ym Mynwent Llanycil (yr un fynwent ag y claddwyd Bob Roberts, Tai'r Felin). Ar y garreg fedd cerfiwyd englyn o waith Ifan Rowlands, Y Gistfaen, Llandderfel, ac addas iawn yw cloi'r adran hon drwy ddyfynnu'r englyn hwn:

Rhoist alaw i'th fro'n llawen, - am yr hawg  
 Bu'n mawrhau dy awen;  
 Eilchwyl hi ddwed fod talchen  
 'Hen yd y wlad' yn dy lôn.

### **Seiri Cochion Llangwm a'u talent gerddorol: William a John**

Yng ngweddill y bennod hon cyfeirir at deulu Emrys Jones ar ochr ei dad. Dyma'r teulu y mae'r to hŷn yn ardal Llangwm a'r cyffiniau yn cyfeirio ato fel 'Teulu'r Seiri Cochion'.<sup>7</sup>

Yn gyntaf awn i Lŷn ac i Gaer Hendre, Aber-erch, ger Pwllheli. Dyna gartref Elizabeth Williams, merch Mary a William Williams. Rywdro tua diwedd tridegau'r ganrif ddiwethaf daeth Elizabeth i Dŷ Nant Llwyn, Tŷ Nant, ym mhlwyf Llangwm, i 'ofalu am blant i berthynas i'w theulu'. Yn fuan wedyn, yn 1841, priododd â saer coed o'r enw William Jones, Tan-y-fron, Maerdy. Roedd Elizabeth bryd hynny yn ugain oed a William saith mlynedd yn hŷn. Hwyl oedd rhieni'r 'Seiri Cochion'.

Eu cartref cyntaf oedd Tai Newyddion, Maerdy. Ganed iddynt naw o blant, chwe mab a thair merch: William, John, Mary, David, Elizabeth, Hugh, Owen, Robert a Jane. Yr oedd gan bob un o'r meibion wallt coch a llygaid glas, fel eu tad, personoliaeth fyw a llawer o hiwmor. Yr oedd pob un ohonynt hefyd, ac eithrio Robert, yr ieuengaf, yn seiri coed medrus, fel eu tad. Rhoddwn sylw arbennig i'r

meibion yn y bennod hon, fodd bynnag, oherwydd fod rhai ohonynt hefyd wedi etifeddu, yn ogystal, dalent gerddorol eu mam. Parhaodd y diddordeb byw mewn cerddoriaeth ymhlith nifer o'u disgynyddion hwythau hyd heddiw.

William Jones (1842-1920), taid Emrys, oedd y cyntaf o'r Seiri Cochion. Fe'i ganed yn Nhan-y-fron, Maerdy, a phriododd â Jane, merch i'r Parchg Humphrey Ellis, Tyddyn Eli, gweinidog gyda'r Annibynwyr, ac wyres i brif arloeswr Annibyniaeth y fro, y Parchg Thomas Ellis. London House, Cerrigydrudion, oedd eu cartref cyntaf, a bu William yn saer ar Stad Cynol Mainwaring, Bwlch-y-beudy, Cerrigydrudion, ac yn gweithio hefyd mewn mannau eraill. Dywedir ei fod yn bensaer ac yn saer galluog ac, erbyn 1899, roedd wedi cael ei benodi'n oruchwyliwr ar Stad Cynol Lynes, Garthmeilio, Llangwm.<sup>8</sup> Symudodd y teulu yn y flwyddyn honno i Ben y Bont, Llangwm, ac adeiladodd William Jones sied yn ymyl y tŷ. 'Siop Saer William Jones' fu'r enw ar honno am flynyddoedd. Yno y prentisiwyd nifer o seiri ifanc, ond bu'r gweithdy hefyd yn fan cyfarfod diddorol i drigolion yr ardal. Ganed pump o blant i Jane a William Jones, bechgyn i gyd: William, Humphrey, Thomas, John a David. Seiri coed, fel eu tad, oedd William a Humphrey. Ymfudodd y ddau i America yn fuan ar ôl priodi. David oedd yr ieuengaf. Ef oedd tad Eirlys ac Emrys Jones, a chawn sôn amdano eto.

Yr ail o'r Seiri Cochion oedd John. Ganed ef yn Hafoty, Llys Dinmael Uchaf, plwyf Llangwm. Bu'n gweithio fel saer ar Stad y Pale, Llandderfel, ac am gyfnod bu ganddo fusnes gwneud eirch yng Nglan-dŵr, Tŷ Nant. Yno hefyd fe gadwai ef a'i briod siop fach groser. Roedd ganddo rywfaint o ddawn i rigymu a llawer o ddawn fel ffariar gwlad. Ni fu John, mwy na'i frawd hŷn, William, yn canu fel unigolyn nac yn arwain corau, ond yr oedd yntau yn ymddiddori mewn cerddoriaeth. Priododd ei ferch, Elizabeth, â John Griffiths, Ty'n Ffridd, Sarnau, a mab iddynt oedd John William Griffiths. Cyfrannodd y teulu hwn yn helaeth i ganiadaeth y cysegr yng Nghapel yr Annibynwyr, Rhydywernen, ac i gerddoriaeth yn ardal Sarnau a'r cyffiniau hyd heddiw. Un aelod cerddgar o'r teulu, er enghraifft, yw John Ifor Griffiths, mab Megan a'r diweddar Ifor Griffiths, Rhydywernen. Bu Emrys Jones yn

canu deuawd gyda Mona Griffiths, merch John William Griffiths, gan ennill y wobr gyntaf yng Ngŵyl Gerdd Dant Trawsfynydd, 1957, yn y gystadleuaeth 'Portreadu Unrhyw Gân Werin' ('Yr Hen Wŵr Mwyn'). Yr oedd gan Gerallt Lloyd Owen feddwl y byd o John William Griffiths, Ty'n Ffridd - roedd yn gefnder i'w fam - a chanodd gyfres o englynion godidog iawn i gofio amdano. Dyma'r englyn olaf:

I weld gweryd gwladgarwch - af heno  
I fynwent digrifwch,  
Lle bydd llawenydd yn llwch,  
Lle gorwedd cyfeillgarwch.<sup>9</sup>

### **Dafydd Jones, Bryn Saint, a Hugh Jones, Ty'n Foelas**

Erbyn geni'r trydydd o'r Seiri Cochion, sef Dafydd (1850-1936), roedd y rhieni wedi symud i Dy'n Pistyll, Tŷ Nant, plwyf Llangwm. Bu yntau, fel John ei frawd, yn saera yn Lerpwl, a bu'n gweithio ar Stad Bwlch-y-beudy, Cerrigydrudion. Ond gŵr busnes mentrus oedd Dafydd. Soniwyd eisoes yn y bennod gyntaf fel yr adeiladodd dŷ iddo ef a'i deulu a pham y galwyd ef yn Fryn Saint. Fel 'Dafydd Jones, Bryn Saint' y mae trigolion yr ardal yn dal i'w gofio heddiw. Sefydlodd yno hefyd felin lifio coed, a bu'n un o brif gyflogwyr yr ardal. Adeiladodd nifer o dai, ac ef oedd y cyntaf yn y cylch i brynu tracsion. Ond fel gŵr a wnaeth gyfraniad eithriadol o werthfawr i gerddoriaeth y cofiwn amdano'n bennaf yn y gyfrol hon. Soniwyd eisoes (pennod 3) amdano fel unawdydd ac, yn arbennig, fel arweinydd dawnus Côr Cymysg Cerrigydrudion.

Yn Nhy'n Pistyll, Tŷ Nant, y ganed hefyd Hugh (1855-1936), chweched plentyn William ac Elizabeth Jones, a'r pedwerydd o'r Seiri Cochion. Yng Nghyfrifiad 1871 fe'i disgrifir fel 'apprentice carpenter'. Erbyn hynny roedd y teulu wedi symud i fyw i Ganol Llan, Llangwm. Bu'n gweithio fel saer ar stad teulu Wyniaid y Rug, ger Corwen, ac yna yng nghylch Cerrigydrudion. Tua 1890 symudodd ef a'i deulu i fyw i Dy'n Foelas, Llangwm, a chael gwaith ar Stad Garthmeilio. Dyna pryd y daeth i'r adwy fel olynnydd i'w frawd iau, Owen, yn arweinydd Côr Cymysg Llangwm, a pharhaodd yn arweinydd llwyddiannus am ddeng mlynedd ar hugain. Cyfeiriwyd ato eisoes hefyd (gw. pennod 3) fel unawdydd

yn meddu ar lais tenor rhagorol, ac ef am flynyddoedd oedd y Côr Feistr yn Eglwys Llangwm. Priododd ei ferch, Jane, â Hugh Roberts (Eos Nannau), Bryn Nannau, Llangwm, y gŵr y bu David Jones, tad Emrys, yn canu deuawd lawer tro gydag ef. Fel ei dad a'i daid o'i flaen, dilyn crefft y saer a wnaeth mab Hugh Jones yntau.

### **Owen Jones, arweinydd corau enwog Llanegryn**

Saer hefyd oedd Owen (1858-1914), y pumed, a'r ieuengaf, o'r Seiri Cochion. Fe'i ganed yn Nhy'n Pistyll, ond erbyn Cyfrifiad 1871 fe'i disgrifir fel 'scholar' a'i gartref yng Nghanol Llan, Llangwm. Megis ei frodyr, John a Dafydd, bu yntau yn Lerpwl am gyfnod yn dilyn crefft y saer, ond ar ôl priodi yn 1880 dychwelodd i Langwm a mynd i fyw i Dy'n Foelas. Esther Margaret, merch bedair ar bymtheg oed y Parchg Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfaï), ficer Llangwm, oedd ei wraig. Wrth drafod y traddodiad corawl yn Uwchaled (pennod 3) cyfeiriwyd eisoes at ddawn gerddorol Owen ac amdano'n fachgen ifanc iawn yn olynu Thomas Roberts, Gwern Nannau, fel arweinydd Côr Cymysg Llangwm, ac Esther, ei ddarpar wraig, yn y man yn cyfeilio i'r côr.

Yn 1890 penodwyd Owen Jones yn oruchwyliwr ar Stad y Wyniaid, Peniarth, a symudodd ef a'i deulu i Fryngwyn, Llanegryn. Bu'r golled i Langwm yn ennill mawr i'w fro newydd fabwysiedig. Er ei holl brysurdeb, ac er gorfod wynebu profedigaethau teuluol lawer, bu'n weithgar tu hwnt. Sefydlodd gôr yno ac, yn fuan iawn, daeth Côr Llanegryn yn un o'r corau mwyaf disgybledig a llwyddiannus yng Ngogledd Cymru. Bu'r côr yn canu, er enghraifft, am flynyddoedd yng Ngŵyl Gerddorol Castell Harlech. Ar un adeg roedd yn arwain tri chôr: Côr Cymysg, Côr Meibion a Chôr Plant.

Ganed pump o blant i Esther ac Owen Jones: Emily Wyn, William Ellis, John Owen, Ethel May ac Essie Wyn. Bu farw Esther, y fam, ym mis Ebrill 1898, yn ddwy ar bymtheg ar hugain mlwydd oed. Ym mis Tachwedd yr un flwyddyn bu farw Emily Wyn yn ddeunaw oed. Ym Mehefin y flwyddyn ddilynol bu farw Ethel May



yn dair ar ddeg mlwydd oed. Yna, yn 1914, collodd Owen Jones yr olaf o'i ferched pan fu Essie Wyn farw yn dair ar hugain oed.

### **William Ellis Jones ('WE') a'r Dr John Lloyd Williams; y 'Canorion' a sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru**

Wedi derbyn addysg dda yn Ysgol Ramadeg Tywyn, enillodd dau fab Esther ac Owen Jones ysgoloriaethau i Goleg Prifysgol Cymru, Bangor, ac ennill gradd baglor mewn gwyddoniaeth (BSc). Yr oedd gan y ddau: William Ellis Jones (1883-1971) a John Owen Jones (Owen Bryngwyn, 1884-1972), leisiau bariton rhagorol, ac yr oedd y ddau wedi etifeddu'n helaeth o ddiddordebau cerddorol eu rhieni, ac yn arbennig eu tad.

Dilyn gyrfa ym Manc y Midland fu hanes William Ellis Jones, neu 'WE', fel y'i gelwid. Dringodd yn y man i fod yn gynorthwywr i Brif Oruchwyliwr y banc hwnnw. Bu am gyfnod yn Llundain, ond ble bynnag yr âi, roedd byd y gân yn agos iawn at ei galon. Pan weithiai gyda'r banc yn y Bala, er enghraifft, yr oedd yn un o gynhyrchwyr 'Cantata Blodwen', Joseph Parry.

Bu'r brodyr yn ffodus tu hwnt o gael bod yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor (1903-07), yn yr union gyfnod yr oedd y Dr J Lloyd Williams (darlithydd mewn Botaneg) yno yn Gyfarwyddwr Cerdd. Mynegodd 'WE' ddyled y myfyrwyr iddo ef a Phrifathro'r coleg mewn sgwrs a recordiwyd ar dâp gan D Roy Saer, Amgueddfa Werin Cymru, 11 Gorffennaf 1967.

'Mi roedd 'na ysbrydoliaeth ym Mangor y dyddiau hynny efo John Lloyd Williams a 'Principal' Harry Reichel - Syr Harry Reichel. Mi roedd Mrs Reichel yn gantores first class: Irish folk songs. Oedd hi'n werth 'i chlywed hi'n canu rheini; bron y buase hi'n dwyn dagre i'ch llygaid chi...' <sup>10</sup>

Dyma'r cyfnod, tua 1905-6, yr oedd J Lloyd Williams yn casglu bechgyn a merched ifanc y coleg ynghyd ac yn sefydlu'r 'Canorion', a'r ddau frawd o Lanegryn



yn eu plith. Ceir llun o'r 'Canorion', dyddiedig 1908, a 'W E Jones' yn un o'r 24 canwr. Yn y llun hefyd gwelir J Lloyd Williams a Lewis Davies Jones (Llew Tegid).<sup>11</sup> Dyma'r flwyddyn, wrth gwrs, y ffurfiwyd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, ac yr oedd 'WE' yn un o'r sefydlwyr. Mewn cyfarfod cofiadwy yn Llangollen, ym mis Medi 1958, i ddathlu 50 mlynedd sefydlu'r Gymdeithas (2 Medi 1908), roedd chwech o aelodau cynnar y 'Canorion' yn bresennol, a thynnwyd eu llun gan Y Cymro: William Ellis Jones, Bangor; John Morris, Porthaethwy; R E Vaughan Roberts, Wrecsam; Huw D Jones, Sgeti, Abertawe (o Gaerwen, Môn, yn wreiddiol); John Owen Jones (Owen Bryngwyn); a'r Dr T Trefor Jones, Rhuthun.<sup>12</sup> Roedd Emrys Jones, Llangwm, yntau'n bresennol ac yn canu yn y cyfarfod dathlu.

Fel rhan o'r sgwrs a recordiwyd gan D Roy Saer canodd William Ellis Jones ddwy gân: 'Ffarwel i Blwyf Llangywer' a 'Mae Gen i Dipyn o Dŷ Bach Twt'. Wrth ateb y cwestiwn o ble y cafodd y caneuon hyn, meddai:

'Oeddau ni'n 'u canu nhw yn 'Y Canorion' yn Bangor, 1905, pan oedd John Lloyd Williams yn hel ni at ein gilydd...

DRS: 'A John Lloyd Williams oedd yn dwad â rhain ichi?'

Bobol annwyl ie! A'r bechgyn 'u hunen: Jac Morris yn dod â rhai; Huw D [Jones] yn dod â rhai; Vaughan Roberts o'r Bala - R E Vaughan Roberts - yn dod â rhai. Ac fe roedd hi'n dda iawn weithiau pan fyddai Huw D wedi dod â cân o Lannerch-y-medd. Fyddai'n canu'r dôn, a fyddai John Lloyd Williams yn dweud: "Wel, beth am y geiriau?" "Bobol annwyl!" medd Huw D, "di rheina ddim ffit!" A doedd dim i'w wneud wedyn ond cael Llew Tegid i wneud geiriau pwrpasol fedran ni'u canu nhw mewn lle respectable, dach chi'n gweld. Ond roedd yr hen dôn yn first class.'<sup>13</sup>

Llew Tegid a luniodd y geiriau i ail bennill 'Ffarwel i Blwyf Llangywer', y fersiwn a genir gan 'WE'. Dyma'r fersiwn hefyd a genir gan Emrys Jones, ei nai:

Ffarwel i'r Glyn a'r Fedw / A llethrau Craig y Gath,  
Ffarwel i'r hen Siân Elis, / Na welais i erioed 'i bath.  
Rwy'n cychwyn i bentre Llundain, / Dan bwysau hiraeth ffôl;  
Mi ganaf â llais mwy llawen / Pan ddeuaf i'r Bala nôl.<sup>14</sup>

Er i amryw o aelodau'r 'Canorion', megis John Morris, fod o gymorth mawr i J Lloyd Williams wrth gasglu'r hen alawon gwerin, ni chafodd 'WE', yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, 'ddim hwyl' arni. A dyma un o'i atgofion am y dyddiau casglu hynny:

'O'n i'n byw yn Llanegryn; oedd 'na un hen wraig yno, Mari Roberts. Ddeudodd rhywun wrtha'i: "Cerwch at Mari Roberts, mae gynni hi hen ganeuon". A mi ês at Mari Roberts. Ond doedd hi ddim am ganu. "Wel, welwch, Mari Roberts, be dach chi'n feddwl o hon?" medda fi. A dyma fi'n hitio rhyw hen gân. O, dyma hi'n dechrau chwerthin yn iawn: "Oeddwn i'n canu hyna ers talwm". "Wel, canwch o rwan." "Na wna i, Wili bach, ddaru mi droi at grefydd yn o gynnar", medde'r hen wraig.'<sup>15</sup>

### **Owen Bryngwyn, y bariton, a'r 'hen alawon'**

Wedi graddio ym Mangor mewn Cemeg Amaethyddol yn 1907, aeth John Owen Jones, brawd 'WE', yn athro gwyddoniaeth i Ysgol Daventry, swydd Northampton. Ym mis Tachwedd 1910 roedd Syr Harry Reichel, Prifathro Coleg Bangor, yn ysgrifennu geirada ar ei ran am swydd 'Bariton Singer and Choir School Teacher in the Manchester Cathedral'. Rhoes deyrnged arbennig o hael i'w gymeriad a'i 'unselfish public spirit', ac meddai:

'...his real strength lies in the domain of music for which he has unusual gifts. He has one of the best Bariton voices I have ever heard in an amateur, coupled with an artistic insight which is rare among professional singers.'<sup>16</sup>

Ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn roedd Dr J Lloyd Williams yntau yn ysgrifennu llythyr ar ran perchennog y 'best Baritone voice', er nad oes wybodaeth at bwy yr ysgrifennai. Dyma ran o'r llythyr.

'...his remarkable gifts as vocalist were of immense service to the musical functions of the College. At a period when we were fortunate in having a number of very good singers, he proved himself by far the best. He has a full Baritone voice of good compass and of rich and mellow tone. Better than the voice itself, however, is the intelligence and feeling with which he renders the music. The general education that he has had, first of all at the Secondary School and afterwards in

College undoubtedly contributes to his success as a singer, the effectiveness of his singing is due, however, more to a natural dramatic power, an instinctive insight and sympathy than to any acquired capacity...

It is not remarkable that Mr Jones should be such a good singer, for he belongs to an exceedingly musical family. His father is a very successful choral conductor, his sister [Essie Wyn] a very good pianist, and his brother ['WE'] a good amateur vocalist and conductor. It was with very great pleasure that I heard of Mr Jones' decision to devote himself to music...' <sup>17</sup>

Erbyn 1911, fodd bynnag, roedd y canwr o Lanegryn yn athro gwyddoniaeth a mathemateg yn Ysgol Newport, Essex, ac yn ystod y blynyddoedd 1914-18 bu'n brifathro gweithredol yr ysgol. Yna, yn 1919, penderfynodd roi'r gorau i ddysgu a neilltuo ei holl amser i ganu. Symudodd i Lundain i fyw a bu'n cael gwarsi yn y Coleg Cerdd Brenhinol. Bellach, roedd yn adnabyddus, ac yn 1922 dechreuodd ganu'n broffesiynol, gan ddefnyddio'r enw 'Owen Bryngwyn', enw ei gartref yn Llanegryn. Pan dorrodd y Rhyfel yn 1939, dychwelodd i ddysgu, y tro hwn fel athro gwyddoniaeth yng Ngholeg Epsom, ond gan gyfrannu'n helaeth hefyd i fywyd cerddorol y coleg. Wedi ymddeol yn 1954 cafodd unwaith yn rhagor fwy a mwy o gyfle i ddilyn ei hoff ddiddordeb, sef canu a darlithio ar ganu, ac yn arbennig ar Ganeuon Gwerin Cymru.

Wedi priodi yn 1923 â Dorothy Elliot bu ef a'i briod yn byw am ychydig ym Manceinion cyn symud i Hampstead. Yn 1962, symudodd y ddau i Ashted, Surrey, ac yno y bu farw, 24 Ebrill 1972, flwyddyn union i'r diwrnod ar ôl i'w frawd 'WE' farw. Fe'i claddwyd yn Llanegryn. Cynigir Ysgoloriaeth gan y Coleg Cerdd Brenhinol i fyfyrwyr ifanc o Gymru, er cof amdano. Y mae ei enw hefyd yn Llyfr Coffa y Cerddorion yng Nghapel y Cerddorion yn Eglwys y Bedd Sanctaidd (Church of the Holy Sepulchre), Llundain.

Cyhoeddodd Cwmni Decca bedair disg yn cynnwys y caneuon a ganlyn yn cael eu canu gan Owen Bryngwyn i gyfeiliant piano Claude Ivy:

- i. 'Robin Ddiog', 'Hela'r Sgyfarnog', 'Y Deryn Pur'
- ii. 'Dacw Nghariad i', 'Wrth Fynd Efo Deio i Dywyn', 'Ffarwel i Langyfelach Lon', 'Y Cobler Du Bach'
- iii. 'Newyddion Braf', 'Tra Bo Dau'
- iv. 'Unwaith Eto 'Nghymru Annwyl', 'Cân y Cynhaeaf', 'Ffarwel i Blwy' Llangywer'.<sup>18</sup>

Ym mis Ebrill 1977 cyflwynodd gweddw Owen Bryngwyn gasgliad helaeth o'i bapurau yn rhodd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Dengys y llu o lythyrau a thoriadau o'r wasg sydd yn y casgliad hwn yn eglur mor frwd oedd y croeso iddo fel canwr, yng Nghymru a Lloegr.<sup>19</sup> Aeth un beirniad cerdd, Sam Langford, yn y Manchester Guardian, mor bell â dweud y gellid cymharu ei ganu â sylw Shakespeare am arddio: 'This is an art that does not mend nature, the art itself is nature.'<sup>20</sup>

Pan ddarlithiai Owen Bryngwyn ar ganeuon gwerin Cymru a chyflwyno enghreifftiau ohonynt, pwysleisiai dro ar ôl tro eu gwerth cynhenid ymhob oes. Meddai mewn darlith 'Ein Caneuon Cenedlaethol': 'Nid fel gweddillion diddorol o'r hen amser a fu, yn unig, yr edrychaf i ar yr hen ganeuon hyn. Mi gredaf y gallant fod, ac y dylent fod, yn rym bywiol heddiw yn ein bywyd cenedlaethol.'<sup>21</sup> Nododd bedwar pwynt yn arbennig:

- i. '...eu gwerth o safbwynt cerddorol yn unig. Teimlaf fod ynddynt hyfforddiant syml a naturiol i ni gantorion (a chyda hynny i'n gwrandawyr!), yn egwyddorion cerddoriaeth yn gyffredinol.'
- ii. '...yn werthfawr hyd yn oed i gyfansoddwyr ar ddechrau eu gyrfa.'
- iii. 'Y mae'r caneuon eu hunain yn ddrych o feddyliau'r genedl Gymreig ac o'i dulliau byw.'
- iv. '...eu gwerth cymdeithasol fel moddion adloniant.'<sup>22</sup>

Yn Y Cymro, 4 Ebrill 1957, cyhoeddwyd erthygl gynhwysfawr ar fywyd a gwaith Owen Bryngwyn: 'Cerddoriaeth Cymru a'r Gân Werin: Cenwch im yr Hen Ganiadau'. Ynddi y mae'n talu teyrnged haeddiannol i gyfraniad amhrisiadwy personau, megis y Dr J Lloyd Williams, ar ddechrau'r ganrif, a fu'n gyfrwng i sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Yna mae'n ychwanegu'r sylwadau a ganlyn:

'Ni allaf beidio â theimlo, fodd bynnag, nad yw syniadau a delfrydau'r arloeswyr hynny wedi eu dilyn gyda brwdfrydedd ac argyhoeddiad gwirioneddol gan ein Colegau Cymreig neu gan y BBC. Y canlyniad yw bod y werin yn cael ei newynu o fiwsig sy'n gwneud apêl gwirioneddol... Os yw ein miwsig i fod o unrhyw werth gwirioneddol, mae'n rhaid i'w wreiddiau fwrw'n isel i'w bridd ei hun.'<sup>23</sup>

Meddai wrth gloi ei sylwadau: 'Mentraf ddweud fod yr hen alawon yn etifeddiaeth amhrisiadwy, oherwydd y maent yn helpu i gadw'r hen ysbryd Cymreig yn fyw ac i ddyfnhau ynom y cariad at ein gwlad a'i hiaith a'i thraddodiad.'<sup>24</sup>

Yr oedd gan Emrys Jones, Llangwm, yn naturiol ddigon, feddwl uchel iawn o Owen Bryngwyn. Y mae ganddo hefyd gof da amdano yn dod i Ben y Bont. Cymerai ddiddordeb mawr yn ei nai, a byddai'n wastad yn canu ar yr aelwyd. Arferai hefyd ddod i'r Ysgol yn Llangwm. Ar achlysur dathlu hanner can mlynedd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn Llangollen, Medi 1958, cafodd Emrys Jones y fraint o gael canu ar yr un llwyfan ag ef. Braint arall - ac un wahanol iawn - oedd cael bod yn 'rhyw fath o down crier' i gyhoeddi i'r byd fod y bariton enwog yn canu, ar fyr rybudd, mewn cyngerdd yng Nghapel Cefn Nannau, Llangwm. Yr hogyn - ifanc iawn bryd hynny - o Ben y Bont ('bachgen efo llais da!') a gafodd y gorchwyl pwysig o ddweud wrth bawb yn y pentref am ddod i wrando. Erbyn y noson, roedd y capel yn orlawn.

Disgrifiwyd Owen Bryngwyn gan Emrys Jones fel 'bariton ystwyth tu hwnt'. 'Roedden ni'r plant yn credu 'i fod o bron yn dod dros y sêd fawr wrth ganu "Hela'r Sgyfarnog"... oeddech chi'n gweld y sgwarnog... gallu'i dilyn hi.' Yr un fath gyda'r gân 'Efo Deio i Dywyn'... Dene'r gwahaniaeth rhwng artist... gallu dehongli... gwneud y peth yn fyw.'<sup>25</sup>



Wedi dweud cymaint â hynyna am ddau o feibion Owen Jones, yr ieuengaf o Seiri Cochion Llangwm, addas iawn fydd cloi'r adran hon o'r bennod drwy ddyfynnu geiriau un o'r meibion am eu tad. Meddai 'WE', yr hynaf o feibion Owen Jones:

'Roedd e'n arwain corau Llanegryn, a dwi'n cofio yn 1895 yn Eisteddfod Tywyn: côr cymysg, côr meibion a chôr plant. Côr Cymysg Llanegryn yn curo Côr Tywyn; Côr Meibion Llanegryn yn curo Côr Abergynolwyn; a Chôr Plant Llanegryn yn curo Côr Plant Tywyn. Tri chôr yn Eisteddfod Tywyn yn 1895 yn mynd i Lanegryn. Helynt ofnadwy!' <sup>26</sup>

**'O'n nhw'n dweud bod copi honno'n ddu - oedd hi'n practisio "Cytgan yr Haleliwia" wrth flacledio'r grât.'**

Y mae un sylw arall i'w wneud cyn dirwyn y bennod hon i ben. A dyma yw hwnnw: y mae'r dalent gerddorol a berthynai i 'Deulu'r Seiri Cochion' yn parhau heddiw mewn sawl cangen o'r teulu. Nid oes raid manylu yma. Cyfeiriwyd eisoes at ddisgynyddion John, yr ail o'r Seiri, a chawn neilltuo'r penodau nesaf yn gyfan gwbl i sôn am barhad y traddodiad mewn un gangen neilltuol o'r teulu, drwy ganolbwyntio ar ddiddordebau a chyfraniad un person, sef Emrys Jones.

Ni allaf, fodd bynnag, feddwl am fodd gwell i gloi'r bennod bresennol na thrwy gyfeirio'n fyr at Jane ('Jinnie Canol Llan'), yr ieuengaf o 'Deulu'r Seiri Cochion', a nawfed plentyn Elizabeth a William Jones. Bu farw'n wraig ifanc cyn bod yn ddeugain oed. Merch iddi hi oedd Edith Mary Owen a roes wasanaeth gwerthfawr i ganiadaeth y cysegr yng Nghapel Cefn Nannau. Mab iddi hithau yw John Owen, Rhewl (gynt o Ddinmael), a fu'n canu deuawd droeon gydag Emrys. Plant i Ceri Owen ac yntau yw aelodau parti 'Hafod y Gân'. Yn ôl pob sôn roedd gan eu hen nain, 'Jinnie Canol Llan', lais eithriadol o gyfoethog. Bu'n un o'r prif sopranos yng Nghôr Cymysg Llangwm o dan arweiniad ei brawd, Owen Jones. Ac meddai Emrys mewn sylw sy'n ddarlun byw a chofiadwy iawn o ddiddordebau cerddorol yr ieuengaf o 'Deulu'r Seiri Cochion': 'O'n nhw'n dweud bod copi honno'n ddu - oedd hi'n practisio "Cytgan yr Haleliwia" wrth flacledio'r grât'. <sup>27</sup>



## *Calon yn Curo: Cymwynas Tad a Mab*

Neilltuwyd rhan helaeth o'r bennod ddiwethaf i sôn am dalent gerddorol hynafiaid Emrys Jones. Dechreuwn y bennod bresennol drwy ddweud gair pellach am un aelod arall o 'Deulu'r Seiri Cochion', sef ei dad, David Jones. Ef oedd yr ieuengaf o blant William Jones, yr hynaf o'r Seiri. Fe'i ganed yn London House, Cerrigydrudion, 10 Mai 1883, ond symudodd y teulu i fyw i Ben y Bont, Llangwm, yn 1899. Yn ôl pob sôn, roedd yn hogyn go beniog, a chan mai ef oedd y cyw melyn olaf, cafodd fwy o addysg na'r gweddill o'r plant. Enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Tŷ Tan Domen, Y Bala - hen Ysgol Syr O M Edwards, gŵr a ddaeth wedi hynny yn un o'i arwyr pennaf. Talwyd am flwyddyn olaf ei addysg gan Gyrnol Mainwaring, Bwlch-y-beudy, Cerrigydrudion. Ar wahân i lwyddo fel sgoler, disgleiriai hefyd fel peldroediwr a chricedwr.

### **Damwain ddifrifol a thro ar fyd: gwasanaeth di-flino David Jones, Pen y Bont**

Yn y flwyddyn 1901 aeth i Groesoswallt at Thomas Jones, Willow Street, i'w brentisio yn fferyllydd. Ymhen chwe mis, fodd bynnag, cafodd ddamwain ddifrifol a newidiodd holl gwrs ei fywyd. Wrth estyn potel oddi ar un o'r silffoedd yn y siop, fe dywalltwyd asid sulffyrig dros ei wyneb i gyd. Pan gyrhaeddodd y meddyg, dywedir i David Jones, yng nghanol poenau arteithiol, ei glywed yn dweud: 'Don't bother with him, he won't live an hour'. Ond, os gwir y geiriau, fe ymwrolodd y llanc ifanc galluog o Langwm a gwella'n raddol, er bod creithiau mawr ganddo weddill ei oes a'i olwg yn wan iawn. Pan dynnwyd y bandiau oddi ar ei lygaid am y tro cyntaf, mae sôn iddo sylwi ar gerdyn ar y mur ac arno'n ysgrifenedig, mewn llythrennau breision, y geiriau hyn: 'Trust, and be not afraid'. Gofynnodd y meddyg iddo eu darllen. Yn ara deg bach fe lwyddodd, ac aeth y geiriau i'w galon. Buont yn ysbrydiaeth iddo fyth wedyn. Wedi saith mlynedd o fynd a dod i mewn ac allan o ysbytai yng

Nghroesoswallt ac Amwythig, a gofal diflino ei rieni ac, wedi hynny, ei briod, bwriodd iddi'n ddewr i wasanaethu ei fro gydag ymroddiad nodedig hyd ddiwedd ei oes.

O ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at oddeutu chwarter cyntaf y ganrif hon bu bri mawr yng Nghymru ar 'Gymdeithasau Cyfeillgar' i gynorthwyo'r claf a'r anghenus mewn dyddiau blin. Roedd hyn, i raddau, yn ganlyniad gwrthwynebiad y Cymry i Ddeddf y Tlodion (1835) a'r arfer o anfon yr hen a'r methedig i'r tlotai, y 'wyrwys'. Ym mhlwyf Llangwm, sefydlwyd dwy Gymdeithas: 'Cyfrinfa Cader Dinmael' (cangen o 'Gymdeithas Gyfeillgar yr Odyddion') oedd un, ym mhen isa'r plwyf - 'Clwb y Cymro' oedd yr enw poblogaidd ar y gymdeithas hon, oherwydd mai yn hen dafarn Y Cymro ('Y Goat'), Maerdy, yr arferai'r aelodau gyfarfod. Cymdeithas Gyfeillgar Llangwm (1857-1936) oedd y llall, ac yn nhafarn y New Inn (Tŷ Newydd), yn y pentref, y byddai'r aelodau yn cyfarfod. Am wyth mlynedd (1912-20), David Jones, Pen y Bont, oedd Ysgrifennydd Clwb y Cymro. Yn union wedi'i benodi yn 1912, gofynnwyd iddo olynu ei ewyrth yn Ysgrifennydd Clwb Llangwm, yn ogystal, a bu yn y swydd honno hyd nes dirwyn y Clwb i ben yn 1936.<sup>1</sup>

William Jones Ellis, ocsiwnïar, a brawd i'w fam, oedd yr ewyrth hwn. Ef ar y pryd oedd Clerc Cyngor Plwyf Llangwm a chasglwr y Dreth. Pan fu ef farw yn 1916, penodwyd David Jones yn olynydd iddo. Yn 1931 ychwanegwyd y gwaith o gasglu trethi plwyfi Cerrigydrudion a Llanfihangel Glyn Myfyr ac, yn fuan wedyn, Plwyfi Pentrefoelas ac Ysbyty Ifan at ei ddyletswyddau. David Jones hefyd a benodwyd yn Oruchwyliwr yn yr ardal i'r Ddeddf Yswiriant Newydd (Yswiriant Lloyd George), 1911. Yn ddiweddarach, fe'i penodwyd yn Gadeirydd Pwyllgorau Yswiriant Dinbych a Meirionnydd.<sup>2</sup> Roedd dawn arbennig ganddo i drin pobl ac arian. Dyma un sylw gan ei fab Emrys:

'Dwi'n cofio fel y bydde fo'n brysur yn balansio'r llyfre bob nos - yn enwedig ar ddiwrnod ffair. Roedd ganddo ffordd arbennig iawn o gyfri'r arian. Mi fyddwn i'n dweud y ffigyre wrtho fo, ac ynte wedyn yn dweud be oedd y cyfanswm wrth fynd yn 'i flaen. Mi fydde'n gwneud y

cyfan yn 'i ben, er y bydde yn y miloedd weithie. Welish i mohono fo'n methu ddim unwaith - roedd o fel compiwtar.'<sup>3</sup>

David Jones oedd 'twrne answyddogol' yr ardal. Meddai'r diweddar John Morris Jones, Aeddren, Llangwm, amdano mewn ysgrif sy'n mynegi'i edmygedd mawr ohono:

'Ni ellir prisio'r aberth a wnaeth i hyrwyddo pob achos da... Fe wnaeth gymwynasau di-rif i gylch eang; roedd yn hyddysg iawn yn y gyfraith, a thrwm oedd y tramwyo i Ben y Bont i ofyn cyngor neu i lenwi ffurflen; arbedodd gannoedd o bunnau o gost cyfreithio i'r gwan a'r diamddiffyn... Ddiwrnod ei angladd roedd rhesi o atgofion yn gwau trwy fy meddwl: atgof plentyn amdano, ei ffordd dyner o sgwrsio, a'r direidi hapus yn ei lygaid tywyll, ei ddawn fawr i ddyfod i lawr i fyd plentyn ysgol; yna yr atgo amdano ef a minnau wedi tyfu, ie, wedi tyfu digon i ddyfod i berthyn i'r côr a anwylai gymaint, a sychedai yntau am drosglwyddo dysg i ni... Byddai'r côr yn cadw cyngerdd yn aml i helpu rhai mewn angen. Cofiaf y côr yn cynnal cyngerdd yn Soar [Cwm Main, 31 Mai 1933] i helpu brawd ieuanc, ac roedd rhyw wefr neilltuol trwy'r gwasanaeth. Er yr holl ddoniau a godwyd yn Llangwm, nid wyf yn meddwl fod neb mor amlochrog ei ddawn â David Jones: dawn i gymdeithasu ac i adnabod dyn, dawn lydan a oedd yn gwneud i'r distadlaf allu dweud ei gŵyn wrtho.'<sup>4</sup>

### **'Dal ati gyda gwaith ei dad': gofal ac ymroddiad**

Prin i neb gael rhybudd mor fyr ag a gafodd Emrys Jones fod disgwyl iddo, yn ei eiriau ei hun, 'ddal ati' gyda gwaith ei dad. Ond dyna a ddigwyddodd. Wedi ychydig oriau o gystudd yn unig, bu David Jones farw, 7 Rhagfyr 1944. Bachgen ifanc, pedair ar hugain oed, oedd Emrys yr adeg hynny ac yn gweithio ar fferm Ystrad Fawr, yn agos i'w gartref. Mae'n cofio'r diwrnod yn dda.

'A chofio meddwl ar y pryd bod y byd ar ben. Yntoedd o wedi bod yn gyfrifol am gymaint o bethe yn yr ardal. Finne wedyn yn cael fy nhaflu ar unwaith i gymryd drosodd y swyddi roedd o'n 'u dal. Wnaeth pobol ddim gofyn imi, dim ond cymryd yn ganiataol y byddwn i'n gwneud. Cofio un brawd yn dod acw a dweud mai fi oedd i fod yn glerc y Cyngor Plwyf, gan ychwanegu: "Gobeithio y gwnewch chi, yn gwnewch?" Doedd 'na ddim dweud 'na'. Ac felly 'run peth efo'r swyddi eraill roedd o'n 'u dal yn y capel, a phethe fel ymdrin efo yswiriant.'<sup>5</sup>

Gellid ychwanegu hefyd, wrth gwrs, Eisteddfod Llangwm ac, yn y man, gofalu am Adran ac Aelwyd yr Urdd; hyfforddi to ar ôl to o blant ac ieuenctid yr ardal i ganu, a sefydlu ac arwain corau a phartïon. Yn ddiarwybod iddo roedd wedi cael ei baratoi i barhau gwaith ei dad. Er yn hogyn ifanc arferai ei helpu, a phan fu farw mor sydyn, cafodd Emrys yntau bob cymorth a chefnogaeth gan ei fam a'r ardalwyr.

Yr oedd David Jones yn Glerc y Cyngor Plwyf, ond y dywediad oedd ei fod yn 'llawer mwy' na hynny. Roedd yn 'byw y gwaith', ddydd ar ôl dydd. Yr oedd yn fawr ei ofal am bob peth yn y plwyf: y ffyrdd a'r llwybrau, y fynwent (Mynwent y Plwyf) a'r Ysgol. Fel y tad, felly'r mab. Bu'n Glerc Cyngor Cymuned Llangwm am hanner can mlynedd, 1944-94. Ar noson dathlu'r hanner cant o flynyddoedd cyflwynwyd iddo gwpwrdd cornel derw o waith Dilwyn Jones, Ty'n Rhos, Cwm Main (hen gartref Hugh Evans, awdur Cwm Eithin). Cyflwynwyd iddo hefyd gerddi teyrnged ac un ohonynt gan Emyr P Roberts, Dinmael.<sup>6</sup>

### **'Yn y llaw fach mae'r holl fyd': addysg a 'lles yr hen blant'**

Enghraifft deg o ofal Emrys Jones dros les yr ardalwyr yw ei fawr sêl dros sicrhau yr addysg orau i blant y fro. Bu'n un o Lywodraethwyr Ysgol Llangwm yn ystod 1959-85, ac yn Gadeirydd, 1960-85, ond y mae ei gefnogaeth i'r Ysgol yn llawer mwy na hynny. Rai blynyddoedd yn ôl bellach fe fentrodd cynrychiolwyr o Bwyllgor Addysg Sir Ddinbych i Langwm i ddwys ystyried y cwestiwn a ddylid cau rhai o

ysgolion bach Uwchaled, ai peidio. Buan y bu iddynt sylweddoli nad oedd ysbryd Merthyron y Degwm wedi cilio o'r tir. A bellach (1998) y mae Ysgol newydd sbon wedi'i hagog yn Llangwm, yn arwydd sicr o ffydd yn y dyfodol.

Arwyddair yr Ysgol yw llinell o gynghanedd o waith y cyn-Brifathro, Robin Llwyd ab Owain: 'Yn y llaw fach mae'r holl fyd'. Ac arwyddair ardderchog ydyw, yn adlewyrchu bwrlwm o weithgarwch sy'n amrywio o arbrofion gwyddonol a pharatoi cylchgrawn blynyddol: Clecs y Fro, drwy gymorth cyfrifiadur, i ganu cerdd dant a dawnsio gwerin. Y mae Ysgol Llangwm yn enghraifft ragorol hefyd o ysgol frwd mewn pentref bychan gwledig lle mae'r plant i gyd yn siarad Cymraeg, neu, o leiaf, ymhen amser byr iawn yn dod yn Gymry Cymraeg rhugl.

Beth sy'n egluro twf a llwyddiant ysgol fel un Llangwm? Ymroddiad yr athrawon a'u cynorthwywyr; awyrgylch hapus; cefnogaeth y rhieni; a gwaith ar gael o fewn cyffiniau'r ardal i deuluoedd ifanc. Dyna rai atebion. Ond y mae hefyd un ystyriaeth bwysig arall, sef polisi rhagorol Cyngor Bro, neu Gyngor Cymuned, Llangwm, trwy gydweithrediad â Thai Clwyd, yn adeiladu nifer o dai cymen yn y pentref a'u gosod i Gymry Cymraeg, neu drigolion lleol. Bu Emrys Jones ar flaen y gad gyda'r ymgyrch hon i achub yr ysgol, fel gyda'r ymgyrch i gael neuadd deilwng i'r pentref. Er iddo roi'r sylw pennaf i hyrwyddo diwylliant yn ei gylch ei hun, daliodd ar bob cyfle hefyd i rannu ei arbenigedd a'i ddiddordeb ag eraill, ymhell y tu hwnt i ffiniau bro ei febyd. Bu, er enghraifft, yn Gadeirydd Pwyllgor yr Urdd yn Uwchaled, yn Gadeirydd Pwyllgor yr Urdd yn Sir Gorllewin Clwyd, ac yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod yr Urdd, Bro Colwyn (1980). Yr un modd gyda chanu gwerin a cherdd dant. Y mae'n aelod o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru a bu'n darlithio yn un o'i chyrsgiau. Y mae hefyd, fel y gwyddom, yn un o ffyddloniaid Gymdeithas Cerdd Dant Cymru. Bu'n aelod gweithgar o'i Phwyllgor Gwaith er 1963, a bu yn ei dro yn Gadeirydd (1969-70) ac yn Llywydd (1979-80).

Un o ddiddordebau eraill Emrys Jones yw amaethyddiaeth, ac yn arbennig magu gwartheg duon Cymreig. Mae ganddo ddiddordeb mawr hefyd mewn sioeau.

Cynhelir Eisteddfod Llangwm y Sadwrn olaf ym mis Mehefin, a Sioe Llangwm (Treialon Cŵn Defaid, Cynnyrch Gardd a Defaid) y Sadwrn olaf ym mis Awst. Mae'r naill a'r llall yn rhan annatod o ddiwylliant y fro. Pobl ifanc, yn bennaf, sydd wrth y llyw yn trefnu'r sioe, ond y mae Emrys Jones, fel eraill o'i gyd-genhedlaeth, yn frwd ei gefnogaeth. Felly hefyd gyda Sioe Uwchaled ('Sioe Cerrig', fel y cyfeirir ati), y Sadwrn cyntaf ym Medi. Am un flwyddyn (1968) daeth i'r adwy yn Ysgrifennydd y Sioe hon. Wedi hynny rhoes wasanaeth teilwng iddi, gan gynnwys paratoi arddangosfa yn 1994 i ddathlu'r canmlwyddiant. Cyhoeddwyd hefyd draethawd buddugol o'i waith yn Llên y Llannau (Eisteddfodau 1993): 'Sioe Cerrigydrudion, 1894-1994'. Y mae'r traethawd hwn yn fwynglawdd o wybodaeth, gan gynnwys un cwpled tra chofiadwy i darw enwog o Bennal, sef Egryn Garnedd. Bu'r tarw hwn yn ennill am flynyddoedd yn Sioe Cerrigydrudion, a bu fyw'n hen iawn, ac meddai Eunice Roberts, Greigwen, mewn Ymryson y Beirdd yng Nghwm Tirmynach un tro:

Os am weld tarw heb ddim dannedd,  
Ewch i geg 'rhen Egryn Garnedd!

A dyna fynd â ni o fyd cystadlu mewn cae sioe i fyd cystadlu rhwng beirdd mewn festri capel. A bydd sôn am gystadlu eto yn y bennod nesaf, y tro hwn yn bennaf ym myd cerdd dant a chanu gwerin.



## *Drws yn Agor: Canu a Dysgu, Cystadlu a Mwynhau*

Y mae Emrys Jones yn cofio gweld telyn am y tro cyntaf pan oedd yn bedair blwydd oed, a chofio'n dda hefyd ei fod wedi dotio at ei sŵn. Mewn basâr fawr yn Llangwm yr oedd o bryd hynny. Y flwyddyn oedd 1924. Roedd Capel Annibynwyr y Groes wedi adeiladu festri a thŷ gweinidog newydd yn 1923, ac roedd angen codi arian i dalu amdanynt. Yno yn diddanu yr oedd Nansi Richards, Telynores Maldwyn. Yr oedd hi yn cyfeilio ar y delyn a Gaerwen Jones, merch Thomas Jones, Isgaer Wen, yn canu gyda'r tannau. Ac o gwmpas y delyn, yn ôl yr hanes, y mynnai'r darpar gerdd-dantwr oedi. Mae sôn hefyd ei fod yn y basâr honno yn dengid oddi wrth ei fam, a dyna lle byddai yn llanc i gyd yng nghanol twr o bobl yn dynwared ei dad yn canu, ac yn cael ceiniog am wneud hynny! Ei gwario wedyn, i dalu am reid ar y ferlen.

### **'Mynd i gysgu yn sŵn yr hogie'n canu ar Bont y Capel'**

Mae Emrys Jones yn cofio'n dda amdano'i hun hefyd yn hogyn bychan ar Bont y Capel, pont dros Afon Medrad, o fewn tafliad carreg i'w gartref. Yno arferai rhai o fechgyn ifanc a gweision ffermydd yr ardal gyfarfod ar fin nos, a chwestiwn y byddent yn ei ofyn yn aml i'r bychan o Ben y Bont oedd: 'Sut mae dy dad yn canu?' Byddai yntau wedyn yn rhoi cynnig ar ei ddynwared â bloedd neu ddwy, ac yn cael fferins ganddynt am ei drafferth.

Aeth Eirlys, ei chwaer, ac yntau i gysgu lawer noson yn sŵn yr hogie'n canu ar Bont y Capel, a ffenest y lloft yn agored: 'canu emyne, "Cwm Rhondda" a "Llwyn Onn" '. A'r gân olaf bob amser cyn gwahanu fyddai 'Yr Eneth Gadd ei Gwrthod' ('Ar lan hen Afon Ddyfrdwy ddofn / Eisteddai glân forwynig...'). Dyma'r gân a apeliai fwyaf at Emrys pan oedd yn hogyn. Byddai'n crïo wrth ei chlywed. 'Mae sain "Yr Eneth Gadd ei Gwrthod" yn gwneud ichi grïo. Mae honna'n un o'r alawon a'r geirie

mwya perffeth gadd 'u priodi erioed.'<sup>1</sup> Yr oedd rheswm arall hefyd paham y bu i'r gân hon greu'r fath argraff arno: roedd ei fam wedi adrodd hanes yr 'eneth' wrth Eirlys ac yntau droeon. Cofiwn i Kate Jones gael ei magu gyda'i thaid a'i nain yng Nghynwyd, ger Corwen. Roedden nhw yn cofio'r achlysur trist pan fu i Jane, merch William ac Elizabeth Williams, Ty'n Caeau, Cynwyd, farw trwy foddi, 1 Awst 1868, a'i chladdu ym mynwent 'newydd' Cynwyd. Cofiai Kate Jones hithau union eiriau ei thaid (John Roberts, Bryn Golau, Cynwyd, brawd i nain Llwyd o'r Bryn): 'Dwn i ddim be oedd yn mater ar William yn rhwystro'r eneth ddod adre'. John Jones (Llew o'r Wern), brodor o Wyddelwern, piau geiriau'r gerdd, a'r alaw yw 'There is Love Among the Roses'.<sup>2</sup>

Cof cynnar arall gan Emrys Jones yw clywed Llew Cynfal yn canu emynau wrth bregethu yng Nghapel y Groes. Cofiai'n fyw iawn hefyd, wrth gwrs, ei dad yn canu ar yr aelwyd ym Mhen y Bont, ynghyd â'r holl blant a chyfeillion hŷn a arferai alw heibio i ymarfer. Er yn hogyn ifanc iawn roedd wedi clywed caneuon megis 'Ffarwel i Blwyf Llangywer' a'r 'Gelynen'. 'Does ryfedd iddo ddweud: 'Cês fy ngeni i ganu'. Un o'r caneuon yr oedd ei dad yn ei morio hi oedd 'Brethyn Cartref': 'Chwi sy'n cofio 'Newyrth Dafydd, / Patriarch y Felin Dre...', a'r gytgan: 'Brethyn gwlan y defaid mân / Dyna fel y gwisgai'r oes o'r bla'n'. Credai Emrys Jones yn siwr mai Dafydd Jones, Bryn Saint (brawd i'w daid) oedd 'Newyrth Dafydd'!

### **'Roedd "Llwyn Onn" ac "Ar Hyd y Nos" ynon ni'n naturiol': o Langwm i Langollen a Llysfasi**

Ar wahân i ganu yn y capel ac ar aelwyd gartref, ceid llawer o ganu yn yr ysgol. Fe ddechreuodd fynd i'r ysgol cyn bod ei enw yn swyddogol ar y llyfrau. Roedd Eirlys, ei chwaer, yno eisoes, ac arferai yntau 'ddengid' yno pan oedd yn yr oedran teg o dair oed! Rhoddai wybod i athrawes y plant lleiaf (Miss S M Parry, o Dderwen) ei fod wedi cyrraedd drwy wthio ei gap 'rhwng y drws a'r hen garreg las oedd wedi gwisgo'n bant dros y blynyddoedd'. David Williams, brodor o Lansannan, oedd y prifathro (bu yno 1922-35), ac athro rhagorol ydoedd. Trefnodd i gael piano i'r ysgol. Meddai

Emrys amdano: 'Roedd o'n gerddor o'i gorun i'w sawdl... Mi fydde'n drymio'r piano a drymio'r hen alawon gwerin inni. Fydden ni'n 'u dysgu nhw heb yn wybod. A dyna ydi cân werin... Roedd "Llwyn Onn" ac "Ar hyd y Nos" ynon ni'n naturiol...'<sup>3</sup>

Yn 1993 enillodd Emrys Jones ysgoloriaeth i Ysgol Ramadeg Llangollen. A dyna newid byd! Yno bu raid iddo gymysgu gyda phlant uniaith Saesneg o bentrefi megis Y Waun (Chirk), a chael ei addysgu yn Saesneg. Roedd plant y wlad o ardaloedd Cymraeg eu hiaith, oherwydd hynny, yn hir iawn yn cartrefu yno. Bu dylanwad Hugh Jones, y Prifathro, fodd bynnag, yn fawr. Dysgai bwysigrwydd cwrteisi a boneddigeiddrwydd. Bu'r athro Cymraeg, Hughes Roberts, yntau, yn ddylanwad da. Gyda'i gefnogaeth ef, sefydlwyd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yn yr Ysgol. Yr Ysgrifennydd oedd Islwyn Ffowc Elis, Nantyr, y nofelydd; a'r Llywydd oedd Emrys Jones, Llangwm.

Roedd Mrs Grace Jane Jones, merch Y Felin, Llangwm, yn byw yn Llangollen bryd hynny, a bu'n garedig iawn wrth Emrys a phlant eraill o'r un ardal. Arferai sicrhau tocynnau iddynt fynychu dramâu a chyngherddau yn y dref. Bu'n ffodus hefyd yn ei lety. Arhosai gyda theulu arbennig o gymwynasgar o Ddyffryn Ceiriog. Anogent ef i fynd i'r Gymdeithas Gymraeg yn Llangollen. Un noson roedd Dora Herbert Jones yng Nghapel y Wesleaid yn canu a sgwrsio am alawon gwerin Cymru. Aeth Emrys yno, ac meddai: 'Anghofia'i byth moni'n canu "Ar Lan y Môr"... Mi ddoth imi 'radeg honno. O'n i 'di canu gymaint fy hun - ryw ffwrdd â hi. Ond mi ddoth 'na rywbeth imi'r noson honno... A byth wedyn mae 'na rywbeth yn mynd i lawr asgwrn fy nghefn i pan glywa i delyn neu gân werin.'<sup>4</sup>

Ymadawodd â'r ysgol yn Llangollen yn 1938 ac aeth am flwyddyn i Goleg Llysfasi, ger Rhuthun. Yno dilynodd gyrsiau mewn amaethyddiaeth a llaethyddiaeth a mwynhau'r flwyddyn yn fawr. Isaac Jones oedd y Prifathro, a D S Edwards oedd un o'r darlithwyr. Bu'n ysgol brofiad ardderchog a chyfle i ddysgu cyd-fyw gydag eraill. Yr oedd yn gyfnod y 'stansio' a'r aeddfedu ac mi gafodd 'lawer o ganu yno':

canu emynau ac alawon. Roedd piano a bwrdd biliards yn y Stafell Gyffredin. Mae'n cofio, er enghraifft, godi pedwarawd a mynd i Eisteddfod Pentrecelyn i gystadlu.

Yn 1939, ar derfyn y flwyddyn yn Llysfasi, llwyddodd yn yr arholiadau a bwriadai fynd i Aberystwyth i'r Coleg Amaethyddol. Ond daeth y Rhyfel, a derbyniodd swydd yn yr Hufenfa (CWS) yn Y Rhyl. Bu yno am oddeutu hanner blwyddyn go dda a chael llawer o gwmni difyr rhai o 'stiwedents Coleg Clwyd', yn eu plith: Islwyn Morgan, Ty'n Felin, Llangwm, a Trebor Roberts, Porthmadog (awdur y gerdd 'Cwm Eithin').

### **'Fyddden ni'n canu wrth droi... oedden ni'n canu drwy'r dydd': gweithio ar ffermydd**

O 1940 hyd 1945 bu Emrys Jones yn gweithio ar ffermydd yn Llangwm a'r cyffiniau. Gwaith digon caled ydoedd, ond pleserus tu hwnt: bwyd da, meistri caredig a chwmni braf. Câl hefyd fod yn rhan o fwrlwm diwylliannol yr ardal. Ar sail ei brofiad yn gweithio ar ffermydd ac yn 'canlyn y wedd' yr adeg hyn y lluniodd ysgrif ar y testun 'Wagnera', ac fe'i cyhoeddwyd yn y cylchgrawn Cefn Gwlad, 1943-4.

Y fferm gyntaf yr aeth iddi oedd Fron Isa, at Thomas Albert a Maggie Roberts (1940-42). Yno cafodd bob anogaeth i fynychu cyfarfodydd diwylliannol, eisteddfodau a chyfarfodydd pregethu. Wedi dwy flynedd a hanner yno, aeth i 'ganlyn y wedd' i Dŷ Nant Llwyn (1942-3). Roedd hon yn fferm helaeth - 'hen hosan o ffarm', llawer o waith cerdded ac yn gytgae i gyd. Ond roedd John Hugh Jones, Tŷ Nant Llwyn (mab Maesmor Fechan), yn barddoni ac yn ymddiddori mewn cerddoriaeth, a chafodd y mistar a'r gwas sawl sgwrs ddifyr. Llawer seiat braf a gafwyd hefyd yn trin a thrafod cerdd a chân gyda chymydog iddynt, y bardd Cadwaladr Davies, Tŷ Tan Dderwen. Am y flwyddyn y bu Emrys yn gweithio yn Nhŷ Nant Llwyn arferai gefnogi'n ffyddlon yr holl weithgareddau diwylliannol a gynhelid yng Nghapel Dinmael, megis y dramâu a'r dosbarth WEA (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr). Cafodd lawer o gyfle hefyd i ganu a chystadlu. Mae'n cofio'n

dda, er enghraifft, am gystadleuaeth y pedwarawd yng Nghyfarfod Bach Tŷ Nant. Roedd ei dad ac Eirlys, ei chwaer, yn canu mewn pedwarawd o Langwm, ac Emrys, yntau, mewn pedwarawd o Ddinmael. Yn Nhŷ Nant Llwyn yr oedd pan fu raid iddo ymuno â'r 'Home Guard'.

Ar ei ffordd adre o gyfarfod bach yn Soar, Cwm Main, un noson mae Emrys Jones yn cofio Oli (Oliver Hughes), un o feibion Ystrad Fawr, yn gofyn iddo: 'Wyt ti am aros yn dy le?' '...Sgin ti awydd dod acw aton ni?' Ac i Ystrad Fawr yr aeth yn 1943, am ddwy flynedd, at John a Winifred Hughes, a'i ffrindiau pennaf, y meibion Ifor ac Oli. Symudodd at deulu cerddorol iawn. Pan oedd Emrys yn gweithio yn Fron Isa, arferai glywed Ifor 'yn canu mewn ryw gae heb fod yn bell'. Ac felly yr oedd hi nawr, Ifor ac Oli ac yntau yn canu llawer. 'Fyddden ni'n canu wrth droi... Oedden ni'n canu drwy'r dydd.'<sup>5</sup> Gweithio yn Ystrad Fawr yr oedd Emrys pan fu farw ei dad yn sydyn ym mis Rhagfyr 1944. A dyma newid mawr yn ei fywyd. Daeth cyfrifoldebau newydd ac, yn fuan, waith newydd. Ond, er pob newid, parhau a chynyddu a wnâi ei ddiddordeb mewn canu.

### **Cystadlu ar adrodd a chanu**

Bu cystadlu, a mwynhau cystadlu yn rhan annatod o fywyd Emrys Jones er yn ifanc iawn, ac nid yw'n anodd deall pam. 'Roedd o yn y gwaed.' Adrodd, yn bennaf, nid canu, oedd yn mynd â bryd y cystadleuydd brwd o Langwm pan oedd yn ifanc. Ei fam oedd yn ei ddysgu, ond pan ddaeth yn hŷn arferai fynd hefyd i gael tipyn o sglein at bersonau megis William Jenkyn Hughes, Gernant, Dinmael, a John Hugh Jones, Pen-dre, Tŷ Nant (Yr Hafod, Llangwm, yn ddiweddarach, tad yr awdur). Un o'r atgofion cynharaf sydd ganddo yw ennill ar adrodd o dan chwech oed yng Nghyfarfod Cystadleuol Eglwys Llangwm. 'Mul Bach a Throl' oedd enw'r darn, a John Lloyd, Pen y Bryn, Glanrafon (tad D Tecwyn Lloyd) oedd y beirniad. Flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'n cofio ennill, er enghraifft, yn Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel, 1937, ar ddarn poblogaidd o'r enw 'Bugail Bach y Gelli'. Cymaint oedd apêl cystadleuaeth fel y penderfynodd Emrys un tro y dylai ifaciwî bach tywyll ei groen roi cynnig ar yr adrodd yng Nghyfarfod Llenyddol Capel Cefn



Nannau, Llangwm. Gweithio ar y fferm yn Fron Isa yr oedd yr athro brwd ar y pryd (1940-2), ac yno yr oedd yr ifaciwî a'i fam yn byw. Gosodwyd y darpar-adroddwr - Tommy oedd ei enw - 'ar ben cist yn y stabal' i ymarfer ac, yn ôl barn yr hyfforddwr, 'roedd o'n adroddwr bach da, chwarae teg'.

Tua chanol y pedwardegau, cyn bod yn bump ar hugain oed, rhoes Emrys Jones y gorau i gystadlu ar adrodd a chanolbwyntio ar gerdd dant. Ond bu'r adrodd yn ysgol brofiad ardderchog iddo ar gyfer canu, dysgodd lefaru'n glir a lliwio gair a chymal; dysgodd frawddegau a goslefu; dysgodd gyflwyno neges cerdd yn ddiddorol a byw. Eisoed roedd wedi cystadlu llawer ar ganu, yn ogystal ag adrodd, yn arbennig yng nghyfarfodydd llenyddol y capeli. Mynd ar ei feic a wnâi a 'chael pres poced go dda!' Yna mentrodd i eisteddfodau mwy ac phellach o'i gynefin. Cafodd Eisteddfod Llangwm ac eisteddfodau eraill yn y cyffiniau ddylanwad mawr arno. Roedd yn dotio at gerdd dant, a'r deuawdau, yn arbennig, ac meddai: 'Roedden nhw'n wefreiddiol. Y rheini, dwi'n meddwl, wnaeth fy symbylu i roi cynnig ar ganu penillion fy hun. Canu ar geincie syml, fel "Llwyn Onn" fydden i i ddechre, wrth gwrs, canu "Calon Lân" a bally'. Un o'r caneuon eraill oedd 'Y Sipsi' ('Hei-ho heidi ho, / Fi yw Sipsi fach y fro').<sup>6</sup>

### **'Gwirioni'n lân ar gerdd dant'**

Tra bu'n ddisgybl yn Ysgol Llangollen (1933-38) dyma fynd i rai o fân eisteddfodau capeli'r cylch a rhoi cynnig ar adrodd a chanu. Y mae'n dra phosibl mai yng Nghapel Rheoboth, Llangollen, tua 1936, y mentrodd gystadlu ar ganu penillion am y tro cyntaf. Cafodd hyfforddiant gan John Edwards, mab Pentredraw, Pentrellyncymer, ac meddai Emrys Jones am ei athro: 'Roedd o wedi dysgu'r grefft gan hen deulu Hafod Elwy lle roedd canu penillion wedi bod yn cael ei warchod ar hyd y blynyddoedd gan bobol megis Thomas Jones, Isgaer Wen; Thomas Jones, Tai Isa, a Tom Owen.'<sup>7</sup> Penillion telyn Thomas Jones, 'Dyma ni ym Mhant y Gorlan...', ar alaw 'Pant Corlan yr Ŵyn', oedd dewis Emrys ar gyfer y gystadleuaeth.



Un o'r troeon cyntaf iddo ennill ar ganu penillion oedd yn Eisteddfod Betws Gwerful Goch ar ddydd Nadolig. Awdl 'Y Lloer', J J Williams, oedd y darn prawf, i'w chanu ar 'Gainc y Datgeiniad'. Y tro hwn aeth i Bencraig Fawr, Betws Gwerful Goch, at Ceri Evans i ymarfer gyda'r delyn. Bu 'Cainc y Datgeiniad', o waith John Parry (Bardd Alaw), yn ffeffryn mawr gan delynorion a datgeiniaid am flynyddoedd lawer. Hoffodd y datgeinydd o Langwm hi hefyd a hoffi alawon poblogaidd eraill, megis 'Llwyn Onn', 'Llanofer' a 'Phant Corlan yr Wŷn'. Yn hogyn yn ei ardegau, dyma'r alawon, ac eraill tebyg iddynt, oedd wrth ei fodd. Bryd hyn hefyd bu Eirlys, ei chwaer, yn cyfeilio llawer iddo ar y piano.

Ychydig cyn y Rhyfel, ac yntau nawr bron yn ugain mlwydd oed, arferai llawer o fechgyn ifanc y cylch fynd i'r Bala ar nos Sadwrn, ac i'r Aelwyd. Yr atynfa oedd y cymwynaswr o Gystyllen (Castell Hen), Parc: William H Pugh. Cynhaliai gyfarfodydd canu penillion: 'rhyw fath o gymanfa ganu cerdd dant lle bydden ni'n canu ar y pryd, a phawb yn gwneud 'i gyfalawon 'i hun. Mi fydden ni'n cael hwyl garw yno ac yn dysgu llawer iawn hefyd'.<sup>8</sup>

### **Swydd newydd a chyfle newydd: mynd o amgylch ffermydd i gofnodi llaeth a sgwrsio am farddoniaeth a chanu**

Erbyn hyn roedd Emrys Jones 'wedi gwirioni'n lân ar gerdd dant' ac yn dal ar bob cyfle i ymarfer y grefft, i gystadlu a rhoi sylw manwl i feirniadaeth. Cofiai hefyd eiriau ei dad: 'Wnei di ddim unawdydd i ganu solos, ond mi wnei ganwr penillion a chanwr gwerin'.<sup>9</sup> Yn fuan, fe gafodd swydd newydd, ac agorodd drysau eraill. Wedi bod yn gweithio ar rai ffermydd yng nghylch Llangwm o 1940 hyd 1945, dyma dderbyn swydd Cofnodydd Llaeth gyda'r Bwrdd Marchnata Llaeth (1946-68) - cylch Corwen, Y Bala a Llangollen. Amcan y gwaith oedd sicrhau bod y llaeth a werthid o safon deilwng. Ymwelai â fferm yn y bore ac wedyn min nos; cymryd sampl o'r llaeth, a'i bwyso. Câi groeso a chyfle hefyd am sgwrs gyda phobl o'r un anian ag ef. Mae'n cofio'n dda, er enghraifft, mynd i'r Ficerdy ym Mryneglwys at y Parchg Roger Hughes (Rhosier) a gadwai ychydig o wartheg Guernsey, ac wedi cyrraedd, cael seiat

braf yno 'yn sôn am farddoniaeth a chanu'. Roedd Rhosier bryd hynny yn arwain Côr Meibion Bryneglwys. Yr oedd hefyd, wrth gwrs, yn fardd. Dro arall mae'n cofio'n dda mynd i Faesmôr Fechan, Maerdy. Yno roedd David William Jones a'i chwiorydd Mary ac Alice yn byw. Roedd gan y teulu ddiddordeb mawr mewn canu. 'Sôn am ganu oedden ni, mwy na dim byd arall.'

### **'Fyddden ni'n canu drwy'r bore': Telynores Hiraethog a'r 'hen delyn fach' ar ben bwrdd**

Fferm arall yr oedd Emrys Jones wrth ei fodd yn mynd iddi oedd Tai Mawr, Cwm Main (plwyf Llangwm). Dyma gynt gartref un o deuluoedd mwyaf diwylliedig Uwchaled. Yr oedd yno ddeuddeg o blant. Dau o'r meibion oedd Robert Eifion Jones (1897-1983), Llanuwchllyn, bardd a llenor, a'r Parchg Dewi Jones (1915-67), a fu'n brysur yn hyfforddi to ar ôl to o blant ac ieuentid o ogledd Cymru ym myd llen, adrodd a cherdd dant. Mab arall yw William Hughes Jones, Y Bala, awdur y cyfrolau: Hogyn o Gwm Main (Llyfrau'r Faner, 1985) a Casglu Cwysi (Llyfrau'r Faner, 1989). Mewn cyfnod diweddarach, a gŵr o'r enw John Wynne yn byw yn Nhaf Mawr erbyn hyn, daeth Annie Davies (Telynores Hiraethog, 1900-63), yno'n 'howscipar'. Soniwyd eisoes amdani hi yn cyfeilio i Barti Bro Aled a Pharti Hafod yr Esgob, ac am Delynores Maldwyn yn ymweld â'i chartref ym Mrynllwyd, Nantglyn. Byddai Emrys yn cael croeso mawr gan Annie Davies yn Nhaf Mawr, tua'r cyfnod 1946-7. 'Roedd gynni hi ryw hen delyn fach - telyn Geltaidd... Wedyn oedd hi'n i gosod hi ar y bwrdd... a fydden ni'n canu drwy'r bore'<sup>10</sup> - a gwaith yn galw, neu beidio!

Gan Delynores Hiraethog y clywodd Emrys Jones y gân 'Yr Adnod Fach', J J Williams, am y tro cyntaf:

Mae gennyf adnod fechan, / Fy adnod gyntaf yw,  
A dyma ran ohoni: / 'A'r Gair oedd gyda Duw...'

Bu Emrys yn canu llawer ar y gân hon, ar alaw 'Y Bardd yn ei Awen', gan ddilyn fersiwn Annie Davies. Roedd hi wedi ychwanegu dau bennill at y gân wreiddiol er

mwyn ffurfio dau gylch. Clywodd hi'n canu hefyd hen gerdd ddifyr Thomas Jones (Taliesin o Eifion), 'Y Saer a'r Teiliwr' ('Ni fu cenfigen dan fy mron...'), ar alaw 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn'. Cân y byddai Annie Davies yn cael hwyl fawr ar ei chanu oedd 'Cywydd i Ofyn am Dŷ', ac yr oedd yn rhaid, wrth gwrs, i'r 'Cofnodydd Llaeth' ymuno yn y perfformiad.

Ysgwn i a oes gennyh  
 Dŷ cymhedrol, symol sych;  
 Tŷ 'to let', maen neu fetel,  
 O ryw faint, neu o ryw fel;  
 Congol o dân, lle bo annwyd,  
 A chegin bach i gnoi bwyd...

Un o'r ffermydd yn ochrau'r Bala yr oedd Emrys Jones yn ymweld â hi yn gyson oedd Cystyllen, Parc, cartref Gwen a William H Pugh. Cawn sôn eto am yr ymweliadau cofiadwy hyn. Rhaid cyfeirio'n fyr yn awr, fodd bynnag, at un digwyddiad o bwys mawr. Yn 1947 - ac yn lled fuan, felly, wedi dechrau ar ei swydd newydd - fe briododd Emrys ag Anwen Jones, ail ferch fferm Y Gaergoed, Glanrafon. Y mae hi yn rhannu'r un diddordebau ag ef a bu'n gefn eithriadol iddo gydol yr amser. Felly hefyd eu plant, Eleri a Dewi. A bellach, yr wyrion a'r wyresau.

Cyn diwedd ei gyfnod fel Cofnodydd Llaeth roedd Emrys Jones bellach yn arolygu gwaith cydweithwyr iddo ac yn gorfod teithio milltiroedd lawer mewn diwrnod. Ceisiai ddychwelyd i Langwm min nos mewn pryd i hyfforddi partïon a mynychu rhai o gyfarfodydd diwylliannol yr ardal, wedi blino'n lân. Dyma benderfynu, felly, rhoi'r gorau i'r swydd yn 1968. Dyma'r flwyddyn hefyd y rhoes y gorau i werthu llaeth ym Mhen y Bont, gan ganolbwyntio ar fagu gwartheg. O 1968 hyd 1970 bu'n gynrychiolydd i Gwmni Amaethyddol M a G Jones, Gellifor, ger Rhuthun, yn gwerthu bwydydd anifeiliaid a gwrteithiau. Yna, o 1970 hyd nes ymddeol yn 1986, bu'n gynrychiolydd i Gwmni Amaethwyr Corwen. Roedd hwn eto'n yn gyfnod eithriadol o hapus. Câl gydweithio gyda phobl o'r un anian ag ef, megis y ddau Eifion: Eifion Jones, y Rheolwr, ac Eifion Roberts, Llys Tawel, Cefn Brith. Câl gyfle i gwrdd â phobl yn eu cartrefi ac mewn ffeiriau a sioeau, cyfle i

sgwrsio am farddoniaeth a chanu ac eisteddfodau, cyfle hefyd i ddsbarthu rhaglen Eisteddfod Llangwm a gwerthu Llên y Llannau.

### **Wacyn o Feirion**

Soniwyd eisoes fel y bu i'r diddordeb cynyddol mewn cerdd dant yn ardal Llangwm fod yn fodd i greu diddordeb o'r newydd hefyd mewn barddoniaeth - yn arbennig wedi sefydlu Parti Cerdd Dant Llanciau Llangwm (Côr Cerdd Dant Cwm Eithin) yn 1948, cynnal dosbarthiadau dysgu'r cynganeddion, a phoblogrwydd Ymryson y Beirdd yn nechrau'r pumdegau. Un aelod o'r Parti Cerdd Dant oedd Cadwaladr (Dwalad) Davies (1909-63), Dinmael. Roedd ef yn fardd ac yn ddatgeinydd, a chafodd Emrys fudd mawr yn canu deuawdau gydag ef. Bu Gaerwen Jones, hithau, cyfeilydd y Parti, o gymorth amhrisiadwy iddo gyda chyfalawon. Ychydig cyn hyn, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu gan Wacyn Jones (Wacyn o Feirion, 1882-1967) ddsbarth cerdd dant yn yr Aelwyd ('Yr Hen Neuadd Fach'), Llangwm. Roedd ef yn fardd ac yn gerddor ac yn gallu dangos i Emrys a'i gyd-ddisgyblion sut i osod. Bryd hynny y mae'n dra phosibl nad oedd y bechgyn yn 'deall digon am gerdd dant i werthfawrogi'r gwersi yn llwyr... Ymateb efo'r glust oedden ni i ddechre, wedyn y daeth y feistrolaeth ar y grefft.'<sup>11</sup> Eto i gyd, bu'r dosbarthiadau o fudd mawr, a dyma un sylw cofiadwy o eiddo'r athro, sef ei ddiffiniad o groesacen:

'Dychmygwch eich bod chi'n cerdded a merch wrth ych ochr chi. Mae'r mab yn rhoi dau gam a'r ferch yn rhoi tri, ac eto dech chi'ch dau yn cyd-gerdded yn union efo'ch gilydd.'<sup>12</sup>

Yn fuan iawn wedi'r dosbarthiadau yn Llangwm, bu Emrys Jones yn mynd i Gapel Celyn at Wacyn o Feirion am hyfforddiant pellach, a byddai ei ferch, Lisi May Wacyn Jones, yn cyfeilio iddo ar y delyn.<sup>13</sup>

### **William H Pugh ac aelwyd Cystyllen**

Yna, tua diwedd y pedwardegau, cafodd Emrys Jones athro newydd: William Henry Pugh (1897-1973), Parc. Mwyn a chynnes bob amser oedd y croeso ar aelwyd

garedig Cystyllen, yng nghwmni Gwen a Wili Pugh; Beti'r ferch yn cyfeilio'r canu ar y delyn, a Dan, ei brawd, yn llawn diddordeb. Arferai Emrys fynd yno'n gyson gyda'i waith fel Cofnodydd Llaeth ac yn arbennig i ymarfer ar gyfer cystadlu mewn eisteddfod. Dyma atgof neu ddau am ei athro clên:

'Un da fyddai W H Pugh. Os nad oeddech chi wedi dysgu'r node'n hollol iawn, dim bwys, dim ond iddyn nhw gordio. Mi fydden ni wrthi hyd berfeddion nos yn amal... A dwi'n cofio canu rhywbeth un noson ar ôl i Mrs Gwen Pugh fynd i'w gwely, a dyma hi'n gweiddi o'r lloft: "Wyli, mae Emrys yn canu hwnna'n rong rwan, newidia hwnna". A mi fydda 'i chyfraniad hithe yn werthfawr iawn bob amser.'<sup>14</sup>

Ym mis Gorffennaf 1969 cafodd D Roy Saer o Amgueddfa Werin Cymru sgwrs werthfawr gyda W H Pugh, ac fe'i recordiwyd ar dâp. Yn sgîl cwestiwn yn ymwneud â beirniadu a hanfodion canu penillion da, dyma ran o'i ateb:

'Mae'n haws lawer beirniadu heddiw nag oedd hi ddeugain mlynedd yn ôl. Does 'na neb â gwallau gosod heddiw. Mae pawb wedi gofalu, bron yn ddieithriad, bod y gynghanedd yn gywir. Wel, sut dach chi'n medru trosglwyddo'ch stori... ych cyfalaw chi'n bwrpasol i'r farddoniaeth... Be 'di'r argraff gyffredinol dach chi'n mynd i'w roi ar y gwrandäwr, yndê. Wrth gwrs, mae 'na ryw fanion: geirio... ych diweddebe chi'n lân... O, ie, peidiwch â slyrio, os medrwch chi beidio. Yn bendant, peidiwch â slyrio... Buaswn i ddim yn synnu na fydde 'na ryw duedd ambell dro i slyrio, i ryw wthio'r nodyn`allan... i wthio ar ryw gyrf, yn lle bod yn weddol bendant ar ych node... Y llais, 'na'r peth cynta dach chi isio... Mae llais da yn ofynnol i ganu pob peth.'

'Fydde'r hen ddatgeiniaid, fydden nhw ddim yn amrywio dim ar eu cyfalaw, dim ond cychwyn rhes o'r un nodyn am ryw ddeg dwsin o nodau... Sut oedd pobol yn medru mwynhau y peth, er ichi gael cyfalaw weddol wastad? Ond roedd 'na ryw ddawn i greu diddordeb yn y ffordd y byddech chi'n 'i ddweud o, yndê... Waeth ichi heb, beth bynnag oedd ych cyfalaw chi, os na fyddwch chi'n dweud ych stori yn ddiddorol ac yn naturiol, dach chi'n colli pob peth... Oedd yr hen ddatgeiniaid yn canu'n weddol gyflym. Dwi'n condemnio canu ara deg, ond rhaid ichi gael dawn dweud stori... a'i dweud hi mewn amser gweddol - wel, nid mewn amser cyflym, ond mewn amser sy'n gweddu i bob stori. Mae 'na ambell i stori dach chi isio ychydig bach mwy o amser i'w dweud hi, ond rhaid i'r amseriad fod yn gweddu i'r stori. Mae hynny'n bwysig iawn: y ddawn dweud stori a'i dweud hi yn ddiddorol.'<sup>15</sup>



## William Edwards, Rhyd-y-main

Ymhen ychydig amser ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst yn 1951 digwyddai Emrys Jones fod yn canu gyda'r tannau mewn eisteddfod ym Mryneglwys, a chafodd hwyl dda. Y beirniad oedd William Edwards (Eos Wnion, 1888-1957), Tŷ Cerrig, Rhyd-y-main, cymwynaswr mawr arall ym maes cerdd dant. Gofynnodd i Emrys a oedd am gystadlu y flwyddyn wedyn yn y Steddfod Genedlaethol yn Aberystwyth, a chynigiodd ei ddysgu, gan fod W H Pugh yn beirniadu. Felly y bu. William Edwards oedd ei athro am flynyddoedd wedyn. Ac roedd yntau yn athro ardderchog. Roedd o'n 'fwy o drênar na W H Pugh', yn 'fwy strict', ac roedd 'gofyn ichi ganu yn union yn ôl y copi, waeth befo am gordio na dim... "Dwi wedi rhoi'r node 'na iti, rhaid iti eu canu nhw".' Roedd geirio'n bwysig ganddo: 'Cofia ddweud bob gair ar 'i ben'.<sup>16</sup> Gyda William Edwards yr aeth ati o ddifrif hefyd i wneud gosodiadau. Credai'r athro'n gryf y dylai roi cynnig ar feistrolï'r grefft, gan ychwanegu: 'neu ddysgi di byth!' Fe ddysgodd, a bu'n ddiwyd yn llunio gosodiadau lawer yn ystod y blynyddoedd, er iddo gydnabod: 'Mi newidiodd pethe pan ddaeth yr alawon newydd, a do'n i ddim yn ddigon o ddyn i'r rheini! Ond, trwy lwc, mi ddaeth Rhian, y ferch yng nghyfraith, yma i Langwm i fyw, a hithe'n deall o'r gore sut i wneud.'<sup>17</sup>

Wacyn o Feirion, W H Pugh, a William Edwards, dyna dri gŵr cerddgar, cymwynasgar o Feirionnydd, a thri gŵr y bu Emrys Jones, Llangwm, yn ddisgybl iddynt. Roedd ganddo barch mawr hefyd at William Roberts, Y Bala. Yr un modd, dylid ychwanegu enw un cymwynaswr arall o Feirion, sef Caradog Puw (1892-1956), Cynnythog Bach, Llidiardau. Roedd gan Emrys feddwl uchel iawn ohono yntau, fel hyfforddwr, datgeinydd, a dawnsiwr, a chanodd lawer ar 'Gerdd Goffa' James Nicholas iddo, ar alaw 'Caru Doli'. Dyma ddyfyniad byr yn unig o'r gerdd honno:

...Daeth taw ar yr alawon,  
 A lleddf oedd y tannau llon...  
 Yma'n heddwch mynyddoedd  
 Pen dawnsiwr, gwerinwr oedd;  
 Hael ŵr, agored ei law,  
 A'i olud yn ei alaw.



Rhoes nwyf i ddawns y llwyfan,  
Angerdd i gyngerdd y gân...<sup>18</sup>

## Llyfr a chylchgrawn

Y mae'n amlwg ddigon bellach mai pobl, nid llyfrau, oedd y dylanwadau pwysicaf ar Emrys Jones. Ef, wrth gwrs, fyddai'r cyntaf i gydnabod iddo gael budd mawr hefyd o ddarllen llyfr a chylchgrawn, cylchgronau megis: Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru (Canu Gwerin, oedd y teitl yn ddiweddarach), ac Allwedd y Tannau; a llyfrau megis Y Tant Aur, gan David Roberts (Telynor Mawddwy, 1911); Hen Ganu'r Cymry, gan Haydn Morris (1940); Aelwyd y Delyn, gan Llyfni a Mallt Huws (1951), a rhai o gyhoeddiadau W S Gwynn Williams, yn arbennig Caneuon Traddodiadol y Cymry, cyf. 1 a 2 (1961, 1963). Cyfeiriwyd eisoes hefyd at y gyfrol boblogaidd a olygwyd gan ei daid, Gwaenfab, sef Casgliad o Chwe Ugain a Deg o Gerddi Cymru, Hen a Diweddar (1917). Er pwysiced casgliadau gwerthfawr fel y rhain, fodd bynnag, rhaid hefyd i Emrys Jones oedd cael athro a chyfaill, gwers a beirniadaeth, gair caredig o anogaeth a chwmni pobl o'r un anian, yn cyd-drafod, cyd-ddysgu a chyd-fwynhau. Dro ar ôl tro fe fynegodd Emrys Jones ei fawr ddyled i'r personau a enwyd yn y gyfrol hon, yn athrawon ac yn gyfeillion oes.

## Yr Eisteddfod Genedlaethol

Fel eisteddfodwr brwd ei hunan, prin fod yn rhaid dweud bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn agos iawn at galon Emrys Jones. Deg oed oedd pan aeth i'r Genedlaethol am y tro cyntaf. Eisteddfod Bangor, 1931, oedd honno. Cof ganddo eistedd gyda'i rieni yn ymyl Owen Bryngwyn, ei ewyrth, i wrando ar y corau meibion brynhawn Sadwrn. Canodd un côr allan o diwn, a dyna pryd y cododd Owen Bryngwyn a mynd allan! Mae'n cofio Eisteddfod Wrecsam oherwydd i Gôr Cymysg Pentrefoelas ennill, a Bob Ellis, y bariton, yn arwain. Dyma'r côr oedd wedi ennill yn eisteddfod gyntaf Llangwm yn 1930. Yn 1937, mentrodd Emrys Jones bob cam i Fachynlleth gyda bechgyn Ystrad Fawr, Ifor ac Oliver Hughes, mewn 'hen Standard

Twelve'. Yn y steddffod honno y clywodd ganu cylch am y tro cyntaf a dotio ato. Yna daeth eisteddfodau'r Rhyfel, a dyma un atgof byw:

'Ym Mae Colwyn, dwi'n credu, roedd y Steddffod pan ddeudodd Dafydd Williams, Maesgadfa, wrth Ifor ac Oli Ystrad a minne y bydde fo'n siwr o'n cael ni i mewn i'r neuadd, er 'i bod hi dan 'i sang. A dyma fo'n dweud wrth un o'r porthorion 'i fod o'n perthyn i Gymdeithas Cerdd Dant Cymru, ac felly fod ganddo hawl i fynd i mewn, os oedd o'n dymuno gwneud hynny! Doedd y dyn erioed wedi clywed sôn am Gymdeithas Cerdd Dant, ond roedd gweld y cawr o Gwm Tirmynach yn ddigon, ac i mewn â ni heb dalu'r un ddime!' <sup>19</sup>

Ac eithrio rhai eisteddfodau yn y De, yn y cyfnod cynnar, ychydig iawn o wyliau y mae wedi eu colli oddi ar y flwyddyn gyntaf honno yn 1931. Bu hefyd, o 1952 ymlaen hyd heddiw, yn cymryd rhan bron iawn ymhob un eisteddfod, naill ai'n canu ar y llwyfan ar ei ben ei hun, neu fel aelod o ddeuawd, triawd a chôr, neu'n canu yn un o seremonïau'r Orsedd. Bu, er enghraifft, yn canu 'Cân y Coroni' yn Eisteddfodau'r Barri (1968), Porthmadog (1987) a Llanrwst (1989), ac yn canu yn Seremoni'r Fedal Ryddiaith yn Aberystwyth (1992) ac Abergele (1995). Bu'n canu hefyd oddi ar y maen llog yn Llandudno (1963), Rhuthun 1973, a Llanelwedd (1993). Y mae'n cofio'r Orsedd yn ymgynnull ar y Gogarth yn Llandudno yn arbennig - am reswm da! Mae'n debyg i'r uchel swyddogion gymryd yn ganiataol ei fod yn aelod eisoes o'r Orsedd, ond bore Mawrth fe benderfynodd ddweud nad oedd - rhag ofn, ac, yn ei eiriau ei hun, fel hyn y bu:

'Dyma Alun Ogwen yn mynd â fi ar frys at Cynan, a gallwch feddwl y panig wedyn. Mi gês i'n rhybuddio i beidio â sôn gair wrth neb ac i ddod i'r stafell wisgo fore Iau i gael benthg gwisg werdd. Ddalltodd neb ddim byd, trwy drugaredd!' <sup>20</sup>

Yn Eisteddfod y Drenewydd (1965) y cafodd ei urddo'n swyddogol, a'i enw yn yr Orsedd yw 'Emrys Llangwm'. Fe'i dyrchafwyd i'r wisg wen yn Y Rhyl (1985).

Mentrodd gystadlu yn y Genedlaethol am y tro cyntaf yn Nolgellau (1949) ar ran o awdl 'Yr Arwr', Hedd Wyn, a 'darn croesacen', gan Prosser Rhys. Yn Eisteddfod Y Rhyl (1953), enillodd am ganu cerdd dant agored, canu rhan o awdl

'Y Lloer', J J Williams, a 'darn tri thrawiad'. Ymhen dwy flynedd, yn Eisteddfod Pwllheli (1955) roedd yn ennill ar y gân werin agored, Gwobr Goffa y Fonesig Herbert Lewis. Ei ddewis o ganeuon oedd 'Mari' ('Mae bwthyn bach taclus ar ochr y bryn...'), a'r 'Hen Wŕ Mwyn'. Y flwyddyn ganlynol, yn Aberdâr, mentrodd ar gystadleuaeth ddiddorol iawn sef 'canu penillion ar y pryd', yn nhraddodiad yr hen 'ganu cylch', ac ennill. Yn Eisteddfod Caerdydd (1960) bu ef a John Owen, Dinmael (un o 'Deulu'r Seiri Cochion') yn fuddugol ar y ddeuawd: 'Cerdd Goffa i Caradog Puw', gan James Nicholas, ar yr alaw 'Caru Doli', a buont yn llwyddiannus hefyd yn Llandudno (1963), yn canu 'Y Gwanwyn', gan Desmond Healy. Yna yn Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan (1984) enillodd Emrys ar yr unawd gerdd dant dros 50, a chael blas arbennig iawn ar ganu rhan o awdl 'Y Cynhaef', Dic Jones. Cafodd foddhad mawr hefyd yn canu (ac ennill!) yn y gystadleuaeth Gân Werin yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen y flwyddyn ganlynol (1985). Y caneuon a gyflwynodd oedd 'Gwenno Pen y Gelli' a 'Chân Sobri': 'Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher'.

### Yr Wyl Gerdd Dant

Dyddiadau pwysig iawn yng nghalendr Emrys Jones bob blwyddyn yw wythnos Eisteddfod yr Urdd, ddiwedd Mai a dechrau Mehefin; Eisteddfod Llangwm, y Sadwrn olaf ym mis Mehefin; yr Eisteddfod Genedlaethol, yr wythnos gyntaf yn Awst; a'r Wyl Gerdd Dant ym mis Tachwedd. Er pan gynhaliwyd yr wyl hon gyntaf yn Y Felinheli (1947), bu'n fawr ei gefnogaeth iddi, ac y mae'n llawenhau yn ei llwyddiant. Cyfeiriwyd eisoes at lwyddiannau Côr Cerdd Dant Cwm Eithin, ac aelod o'r Côr, Emyr Jones, Gellioedd, a enillodd yr unawd gerdd dant yn Hen Golwyn (1958). Bu Emrys Jones yntau'n fuddugol ar yr unawd gerdd dant yn Rhuthun (1964), ac ar yr unawd dros 50 yn Llandudno (1982). Enillodd ar y ddeuawd gyda Chadwaladr Davies, Tŷ Tan Dderwen, Dinmael, ym Mhen-y-bont-fawr (1955), ac ar y triawd, gyda John Owen, Dinmael, a Dafydd Evans, Gwern Nannau, Llangwm, yn Yr Wyddgrug (1959) a'r Rhyl (1971). Bu'n gydradd gyntaf ar y gân werin yn Hen Golwyn (1958) ac yn fuddugol yn Yr Wyddgrug (1959), Aberystwyth (1962) a Rhuthun (1964). Yng ngŵyl Trawsfynydd (1957) enillodd ef a Mona Griffiths, Ty'n

Ffridd, Sarnau (gor-wyres i John Jones, yr ail o'r Seiri Cochion), yn y gystadleuaeth 'portreadu unrhyw gân werin'. Eu dewis hwy oedd 'Yr Hen Wŷr Mwyn'.

Yn ogystal â chystadlu, prin fod angen ychwanegu i Emrys Jones fod yn ddiwyd ryfeddol hefyd yn canu penillion a chaneuon gwerin mewn cyngherddau a nosweithiau llawen dirifedi, gan roi boddhad mawr i gynulleidfaeod o bell ac agos am flynyddoedd. Bu hefyd yn canu ar achlysuron arbennig, megis y cyfarfod cofiadwy a gafwyd ar Bont y Glyn, i ddathlu canmlwyddiant Helynt y Degwm yn ardal Llangwm, 6 Mawrth 1987. Emrys Jones oedd y 'baledwr' a chyflwynodd y gerdd: 'Wel, dyma ddydd dialedd o'r diwedd wedi dod...', gyda'r gytgan:

Cydunwn yn y gân, er dirmyg a sarhad,  
I ddryllio iau y degwm, sy'n orthrwm yn ein gwlad.

Bu hefyd yn arwain y gynulleidfa i ganu un arall o ganeuon y degwm: 'Henffych Gymry gwrol...', ar alaw 'Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech'.<sup>21</sup>

## *Cynhysgaeth Canwr Gwerin*

Prif bwrpas y bennod hon yw rhoi amcan i'r darllenydd o'r caneuon y bu Emrys Jones yn eu canu, naill ai ar ei ben ei hun, neu fel aelod o ddeuawd, triawd a Chôr Cerdd Dant Cwm Eithin. Afraid dweud, fodd bynnag, mai agor cil y drws yn unig a wneir ar gynhysgaeth un canwr gwerin. Nid yw'n fwriad gennyf fanylu ar y caneuon yn unigol, ac eithrio y rhai y clywodd Emrys Jones hwy'n cael eu canu am y tro cyntaf yn Uwchaled a'r cyffiniau, ac ni honnir fod y rhestr o ganeuon yn gyflawn.

### **'Dweud stori, a'i dweud hi yn ddiddorol...'**

Dros gyfnod o hanner canrif a mwy cyflwynodd Emrys Jones amrywiaeth mawr o ganeuon gwerin, hen gerddi a baledi, a cherddi i'w canu gyda'r tannau. Iddo ef, fodd bynnag, nid cyfrwng y cyflwyno sydd bwysicaf, ond y modd gorau o gyflwyno neges cerdd yn fyw, yn ddiddorol, ac yn ddealladwy i gynulleidfa, boed y gerdd honno'n gân werin ddigyfeiliant, neu'n rhan o awdl i gyfeiliant telyn. Llawforwyn - cyfrwng ychwanegol - yw alaw a gosodiad i gyflwyno'r geiriau yn fwy effeithiol. Meddai mewn nodiadau darlith o'i eiddo ar 'Ganu Gwerin':

'Mae'r gwir ganwr gwerin yn hollol ymwybodol o'r geiriau, ond yn is-ymwybodol o'r alaw. Mae'r canwr gwerin yn gwneud i'r alaw ffitio'r geiriau, ac nid y geiriau i ffitio'r alaw. O ganlyniad, yr unig ffordd gywir i ganu cân werin yw heb gyfeiliant. Gwelir heddiw gyfrolau gyda chyfeiliant sy'n niweidiol i'r math yma o ganu. Yn wir, gwelir mwy o gyfeiliant nag o alaw. Rhaid cofio hefyd peidio pwysleisio gormod ar y lleisio. Mae dipyn o adrodd-gan (siant) yn siwtio canu gwerin.'<sup>1</sup>

Y mae'n amlwg o'i ddull ef ei hun o gyflwyno caneuon gwerin a cherdd dant ei fod yn rhoi pwys mawr hefyd ar eirio clir, cynnal bwa brawddeg, lliwio gair a chymal, amseru pwrpasol, ac amrywio saib a goslef. Yng ngeiriau ei hen athro, W H Pugh:

'dweud stori, a'i dweud hi yn ddiddorol'. Yn bwysicaf oll, o bosibl, cyflwyno cerdd yn synhwyrus a diffuant: canu o'r galon, gyda boddhad.

Cyfeiriwyd eisoes at nifer o ganeuon, yn eu plith: rhai o ganeuon Helynt y Degwm; 'Yr Eneth Gadd ei Gwrthod'; 'Chwi sy'n cofio 'Newyrth Dafydd...'; 'Cân Sobri' ('Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher...'); 'Y Sipsi'; 'Alawon fy Ngwlad', T O Jones; 'Yr Adnod Fach', J J Williams; awdl 'Y Lloer', J J Williams; awdl 'Yr Arwr', Hedd Wyn; 'Y Gwanwyn', Desmond Healy; awdl 'Y Cynhaeaf', Dic Jones; 'Cerdd Goffa Caradog Puw', James Nicholas. Cyfeiriwyd hefyd at rai o ganeuon Côr Cerdd Dant Cwm Eithin (pen. 5). Un o'r ffefrynnau oedd cerdd Trebor Roberts: 'Cwm Eithin'. Canodd Emrys, yntau, lawer ar y gerdd hon, ar alaw 'Merch Megan'.

### 'Yr Hen Ŵr Mwyn'

Ar gyfer cystadlu ar y gân werin agored (Gwobr Goffa Y Fonesig Herbert Lewis) yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Pwllheli, 1955, chwiliai am gân newydd. Cafodd un gan Mrs Gaerwen Jones, cyfeilydd Côr Cerdd Dant Cwm Eithin, sef fersiwn ddiddorol iawn ar 'Yr Hen Ŵr Mwyn'. Wedi ennill y gystadleuaeth (a mynd yn syth o'r eisteddfod i'w wely - roedd niwmonia arno!) rhoes y canwr hi wedyn i Emrys Cleaver, ac fe'i cyhoeddwyd yng Nghylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.<sup>2</sup>

1. Ple buoch chi neithiwr, yr hen ŵr mwyn,  
Yr hen ŵr mwyna'n fyw?  
Wel, bûm yn pysgota, Beti, Ffidl adi ati, Ffidl adi ati o.  
Wel, bûm yn...
2. Beth a ddaliasoch...? Wel, samon wedi marw...
3. Ple darfu chwi wlychu...? Wel, syrthio i Lyn y Felin, Beti...
4. Pam 'rych chi'n crynu...? Wel, dim ond yr annwyd, Beti...
5. Beth petaech chi'n marw...? Wel, dim ond fy nghladdu, Beti...
6. Ple mynnech chwi'ch claddu...? Wel, dan garreg yr aelwyd,  
Beti...



7. Beth wnaech chwi fan honno...? Wel, dy wyllo di yn caru, Beti...<sup>3</sup>**Thomas Jones, Isgaer Wen; Owen Hughes, Pen-y-gob, a 'Mari'**

Gan ei thad, Thomas Jones, Isgaer Wen, Pentrellyncymer, y dysgodd Gaerwen Jones gân 'Yr Hen Wŕ Mwyn'. Gwyddai hi hefyd am yr ail gân a gyflwynwyd gan Emrys Jones yn y gystadleuaeth ym Mhwillheli, sef 'Mari' ('Mewn bwthyn bach taclus ar ochr y bryn...'). Un o ganeuon ei thad oedd hon eto. Cyfeiriwyd eisoes at ei dalent gerddorol ef ac at ei ferch, Winifred ('Min'), y delynores. Roedd ganddo frawd hefyd, Evan, yn ganwr penillion rhagorol. Cof gan Emrys Jones weld Thomas Jones yn y Sasiwn Plant yng Nghapel Hermon, Pentrellyncymer. Arferid cynnal y Sasiwn ar y cyd ag eglwysi Annibynnol Moreia, Cerrigydrudion; Groes, Llangwm; a Gellioedd, ac i blant Llangwm a Gellioedd bryd hynny roedd 'mynd i Bentrellyncymer fel mynd i lan môr'. Ond gan Owen Hughes (1891-1987), Pen-y-gob, Gellioedd, y clywodd Emrys Jones y gân 'Mari' am y tro cyntaf. Mewn cyngerdd gan Gôr Meibion Llangwm yn ysgol y pentref yn gynnar yn y tridegau y bu hynny, ac Owen Hughes, 'Now Pen-gob', yn unawdydd. Gan Thomas Jones, Isgaer Wen y cafodd Owen Hughes hi. A dyma'r hanes.

'... "Mae'r cwbl yn eiddo i Mari" - wel, dene 'di'r enw giês i, yndê, gin Tomos Jones, Isgaer Wen. Fo clywesh i'n 'i chanu hi gynta... Yn yr Henblas [Gellioedd] o'n i, yn hogyn. Mynd yno ar ddydd Sadwrn a bally, a Tomos Jones dod yno dros y Sul, dech chi'n gweld, at 'i frawd. Ac oedd o'n canu'r hen gân ene imi...

O'n i'n mynd i'r tŷ a canu, yndê... Oedd o'n gierddor da. Oedd o'n fasar da, Tomos Jones... Oedd o 'di deud lot wrtha i sut oedd ishio'i chanu hi. Mi ddeudodd: ishio i mi gymryd digon o amser i ddeud y stori' <sup>4</sup>

A dyna oedd dawn arbennig Owen Hughes: dawn dweud stori, boed ar lafar neu ar gân. Nid oedd neb tebyg iddo yn Uwchaled a'r cylch am gyflwyno cerdd yn fyw, ac yr oedd Emrys Jones yn edmygydd mawr ohono. Felly hen ewyrth i Emrys, Hugh Jones, Ty'n Foelas, un o'r Seiri Cochion. Meddai wrth Owen Hughes un tro: 'Tase genti gystal pen ag sy genti o gorn gwddw, mi faset ti'n un o gantorian gore'r

wlad 'ma'.<sup>5</sup> Roedd yn gymeriad ffraeth, gwerinol - ar lwyfan, fel oddi ar lwyfan - ac yn nhraddodiad gorau yr hen faledwyr pen-ffair. Ychydig iawn o gystadlu a wnaeth erioed, ond canodd lawer mewn cyngherddau a nosweithiau llawen, yn arbennig gyda Chôr Meibion Llangwm. Yn ystod Rhyfel 1914-18 bu'n canu ffarwel i'r milwyr ar fwrdd llong yn nociau Lerpwl. Dywedir bod rhai o'r merched a fu'n gwranddo arno yn eu dagrau, a bu rhai o drigolion Lerpwl yn sôn am y 'Welsh Tenor' am flynyddoedd.

Pan ofynnais i Owen Hughes a fuodd o'n canu 'Mari' mewn tai, dyma'i ateb: 'Duwc do! Mynd gyda'r nos a bally, hwyl fawr, fel ryw noson lawen, efo'n gilydd... Wedyn oedd pawb wedi dwad i'w gwybod hi. A dene fydden nhw'n ddeud: "Tyrd inni gael yr hen Fari gynti".'<sup>6</sup> Bellach fe gyhoeddwyd y gân hon gyda chyfeiliant (trefniant Haydn Morris),<sup>7</sup> ond ei chanu yn ddi-gyfeiliant a wnâi Thomas Jones, Isgaer Wen. Felly hefyd Owen Hughes ac Emrys Jones. Cafodd Owen Hughes, fodd bynnag, brofiad diddorol o ganu'r 'hen Fari' rai troeon i gyfeiliant telyn. Soniwyd eisoes am Delynores Maldwyn yn dod i Lwyn Cwpwl i roi gwersi telyn i Dafydd Jones, y mab, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Un tro, ac Owen Hughes yn hogyn ifanc yn helpu yn Yr Henblas ac wedi mynd i Lwyn Cwpwl, y tyddyn agosaf, mi glywodd Nansi Richards o'n canu 'Mari'. Doedd hi erioed wedi clywed y gân o'r blaen, ac meddai Owen Hughes: 'Wedyn oedd raid imi 'i chanu hi laweroedd o weithie iddi er mwyn iddi gael 'i dysgu hi ar y delyn... Oedd hi 'di cael hwyl fawr. Deuar annwyl! oedd hi'n 'i licio hi. Oedd, ofnadwy.'<sup>8</sup>

### **'Rhyw nos yn Llanfihangel', neu 'Hanes y Carwr Anffodus'**

Cân arall y byddai Owen Hughes ac Emrys yn cael llawer o hwyl yn ei chanu oedd 'Rhyw nos yn Llanfihangel', neu 'Hanes y Carwr Anffodus' a aeth i garu Catrin Jane, morwyn Tyddyn Hen, yn syth ar ôl bod yn bwydo'r moch!

Rhyw nos yn Llanfihangel / Oddeutu wyth o'r gloch,  
Roedd Ifan Ty'n-y-fedwen / Yn brysur fwydo'r moch...

(Pan ddaw'r mistar a'r feistres adre'n ddirybudd, aiff Ifan i guddio, ond y mae Toss, y ci, yn dod o hyd i'r arogl cry 'yng ngwaelod y cwpwrdd mawr', ac Ifan druan yn

gorfod ffoi am ei fywyd!) Clywodd Emrys Jones y gân ddifyr hon gan Owen Hughes. Canai hi mewn cyngherddau gyda Chôr Meibion Llangwm. Pan ofynnais i'r baledwr o Ben-y-gob (Hendre Bach, Cerrigydrudion, yn ddiweddarach), ble roedd o wedi clywed y gerdd, dyma'i ateb:

'Dwi'n meddwl - mae 'na rywbeth yn deud ar fy ngho' fi - mai Ifan y Foty ddaru 'i chanu hi gynta i mi, gŵr Jennet, Ystrad Bach. Dwi'n meddwl mai fo canodd hi gynta i mi... Oedd o'n canlyn y wedd yn 'r Henblas, ac o'n inne ryw fynd nôl ac ymlaen - ryw hen lefnyn, yndê - hyd y fan 'ne. O'n i'n iau o gryn dipyn na hwnnw, yndê... O'n i'n mynd yno ar ddydd Sadwrn a bally, a wedyn mynd i'r ysgol yn yr wsnos.'

RG: 'Pwy oedd Ifan y Foty'n hollol?'

'Evan Roberts, Foty Gerrig... I Capel Gellioedd o'n nhw'n mynd. Oedd Ifan yn gierddor da. Oedd 'i fab o'n barnu leni [1973], yndoedd o, yn Steddod Llangwm - canu gierdd dant: [Derwyn] Roberts o Wrecsam... Dwi'n siwr mai gynno fo ciêsh hi gynta.' <sup>9</sup>

Ar wahân i ganu mewn cyngherddau a nosweithiau llawen, canodd Owen Hughes lawer ar y gân 'Rhyw nos yn Llanfihangel' yn nhai pobl ac wrth 'ganlyn yr injan' - yr injan ddyrnu: 'Oedd raid imi'i chanu hi yn Llanfihangel, fforne, o hyd, yndê. Yw[edd]! mewn lot o lefydd... Pen o'n i efo'r injan oedd hynny. O'n i 'di priodi... o'n i'n wyth i naw ar hugien, shiwr, amser hynno.' <sup>10</sup>

Bu'r gân hon yn boblogaidd iawn yn Uwchaled. Ar wahân i'w chlywed gan Owen Hughes, y mae Emrys Jones yn cofio hefyd glywed gweision ffermydd yn ei chanu. Roedd hi'n arbennig o boblogaidd yng nghylch Llanfihangel Glyn Myfyr, Pentrellyncymer a Hafod Elwy, a thybir, fel arfer, mai yn ardal Llanfihangel y digwyddodd y tro anffodus yn hanes y carwr a'r bwydwr moch. Credir gan rai, er enghraifft, mai fferm Tŷ Hen, Llanfihangel, yw 'Tyddyn Hen', er na wn i am un 'Ty'n-y-fedwen' yn yr ardal. Yng nghylch Pentrellyncymer a Hafod Elwy priodolir y gân i Huw Jones, Hendre Ddu, Pentrellyncymer. Dyna, er enghraifft, dystiolaeth Lewis T Evans yn ei gasgliad o gerddi beirdd y fro. <sup>11</sup> Nid oes brawf pendant o gwbl, fodd bynnag, mai i Uwchaled y perthynai'r gân yn wreiddiol. Yr oedd Huw Jones yn awdur cymaint o gerddi poblogaidd tebyg iddi, fel y gellir yn hawdd ddeall sut y bu

i'r gerdd neilltuol hon hithau gael ei thadogi arno. Cofnodwyd fersiynau ohoni mewn rhannau eraill o Gymru, megis Maldwyn, sir Gaernarfon a Llannerch-y-medd, Môn.<sup>12</sup>

Y llinell agoriadol yn y fersiynau hyn, fel arfer, yw 'Rhyw noson Gŵyl Fihangel...' Os dyna oedd y ffurf wreiddiol, yna y mae fersiwn Uwchaled yn enghraifft ardderchog o'r modd y mae traddodiad llafar yn addasu geiriau cân er mwyn ei hail-leoli. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, y mae'n bosibl, wrth gwrs, mai 'Rhyw nos yn Llanfihangel...' oedd y llinell wreiddiol ac i rywun neu rywrai mewn rhannau eraill o Gymru newid y geiriau i 'Rhyw noson Gŵyl Fihangel...' Ond pa Lanfihangel?

### **'Hen Groesffordd y Llan' ac 'Alawon fy Ngwlad'; 'Cân y Morwr' a 'Phris y Glo'**

Gan Owen Hughes y clywodd Emrys hefyd y gân 'Hen Groesffordd y Llan', cân olaf R S Hughes, a'r geiriau gan W J Parry, Bethesda ('Y groesffordd lle buom yn chwarae / Yn fachgen bach nwyfus a llon...'). Canai Owen Hughes yr unawd hon wrth gadw cyngherddau gyda Chôr Meibion Llangwm.

Cân arall a glywodd Emrys gan Owen Hughes, Pen-y-gob, oedd 'Alawon fy Ngwlad', T O Jones, Aelwyd Brys, Cefn Brith (gw. pen. 5). Canai Owen Hughes hefyd 'Gân y Morwr' ('Cychwynnai morwr llawen / I'w fordaith dros y don...'). Ond gan John Jones, Ty'n Caeau, Cynwyd, y clywodd Emrys Jones y gân hon am y tro cyntaf. Roedd John Jones (a berthynai i deulu 'Yr eneth gadd ei gwrthod') yn byw bryd hynny (yn y pumdegau) yn Nhŷ Canol, Glanrafon. Unwaith neu ddwy'n unig y bu Emrys Jones yn ei chanu. Clywodd y gân hefyd gan Morris Jones, 'Moi'r Ffordd', Y Bala (brodor o Gwm Tirmynach). Cân arall a glywodd gan Morris Jones oedd 'Pris y Glo', ar alaw 'Sawdl y Fwch' ('Mae llawer iawn o bethau / Yn codi yn eu pris...'). Ond ni hidiai'r canwr o Langwm ryw lawer am y gân hon chwaith: roedd hi'n 'rhy hir ac undonog'.

**'Gwenno Pen y Gelli' a 'Moliannwn'; Bob Roberts, Tai'r Felin; ac Evan Edwards, Gwern Genau, yn 'dawnsio yn y sêr fawr'**

Roedd Bob Roberts (1870-1951), Tai'r Felin, yntau, wedi cael rhai caneuon gan Morris Jones. Yn naturiol, a Chwm Tirmynach, ardal Bob Roberts, yn ffinio ar Langwm, cafodd Emrys gryn dipyn o'i gwmmi. Arferai Bob gerdded o Dai'r Felin i'r Bala a châi ei gario ambell waith yn y car gan Emrys. Un o gwestiynau Bob yn aml fyddai: 'A be mae Côr Meibion Llangwm 'cw'n 'i ganu rwan, wa?' Efallai yr atebai Emrys: 'Sêr y Bore'. Byddai Bob wedyn yn dechrau morio canu'r gân.

Atgof arall yw cofio gweld Bob Roberts ym Mynwent yr Eglwys, Llangwm, ym mis Tachwedd 1948, adeg claddu Dafydd Thomas, y gof o Rydrewig, Gellioedd. Emrys oedd y codwr canu (a'r tro cyntaf iddo wneud hynny ar lan y bedd), ac fe ddychrynodd braidd o weld emyn Dafydd Wiliam: 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau...! Gofynnodd i Bob pa dôn fyddai orau. 'Tria hi ar 'Dôn y Botel' (Ebeneser), atebodd yntau. Dyma Emrys yn pitsio, a Bob yn ymuno ar ei union, a chafwyd canu ardderchog.

Dwy gân y mae Emrys Jones yn cael hwyl arbennig ar eu canu yw 'Moliannwn' a 'Gwenno Pen y Gelli' ('Rwy'n ddeg ar hugain oed / Ac arna'i chwant priodi...') - dwy gân y byddwn yn eu cysylltu, wrth gwrs, â Bob Tai'r Felin. Gan Evan Edwards, brodor o Gerrigydrudion, Uwchaled, y clywodd Bob Roberts y gân 'Gwenno Pen y Gelli' yn cael ei chanu am y tro cyntaf.<sup>13</sup> Symudodd ef yn ddiweddarach i Wern Genau, Capel Celyn. Roedd yn gymeriad ffraeth, llais da ganddo ac yn 'hyddysg iawn' mewn caneuon.

Y mae Emrys yn cofio Watcyn o Feirion yn dweud hanes wrtho am ei dad yng nghyfraith 'yn ffeindio llyfr ar walblat mewn ryw dŷ rywle yn Cerrig ac wmbreth o hen gerddi ynddo, ac enw'r llyfr oedd "Y Llinyn Arian", ac roedd 'na fwy o benillion lawer i "Gwenno Pen y Gelli" yn y llyfr hwnnw... Mi roth Watcyn 'i fenthyg o wedyn i Bob Tai'r Felin'.<sup>14</sup> Diddorol yw sylwi hefyd mai rhan o gerdd 'Priodas Siencyn



Morgan', gan Jac Glan-y-gors (brodor arall o Gerrigydrudion) yw pedwerydd pennill 'Gwenno Pen y Gelli': 'Roedd yno bwddin pys / A hwnnw ar hanner ferwi...' <sup>15</sup>

Cyfeiriwyd eisoes at noson bwysig - 'Noson Clwb' Cymdeithas Gyfeillgar Llangwm, y nos Fercher gyntaf ym mis Mai. Un flwyddyn, tua diwedd y dauddegau, cynhelid cyngerdd yng Nghapel y Groes. Roedd Emrys Jones yno, fel yr oedd teuluoedd y Puwiaid o'r Parc a Llidiardau, a Bob Roberts, Tai'r Felin. Yno hefyd roedd Evan Edwards (Ifan Gwern Genau), a phan oedd Bob yn ei hwyliau yn canu 'Moliannwn' aeth Ifan i ddechrau dawnsio yn y sêd fawr. Dyna pryd y cododd y Parchg Richard Evans ar ei draed a cherdded allan. (Brodor o Ddinas Mawddwy oedd ef, a bu'n weinidog ar eglwysi Annibynnol y Groes a Gellioedd o 1922 hyd flwyddyn ei farw yn 1939.)

### **Bob Roberts, Tai'r Felin a John Thomas, Maes-y-fedw, yn ei 'glôs penglân a'i legins brethyn'**

Yr oedd Emrys Jones, yn gybyddus iawn hefyd â John Thomas (1863-1957), Maes-y-fedw, Llanfor. Ganddo ef y cafodd y caneuon 'Adferteisio am Wraig' a 'Jane Ni' ('Mae Mari Bryn Llawes / Yn lodes lân ddel...', a'r gytgan: 'Nid felly mae Jane...'). Yn ystod 1952-3 bu John Thomas yn byw gyda'i ferch a'i fab yng nghyfraith yn Nhyddyn Eli, Llangwm. Yr adeg hynny cafodd Emrys gryn lawer o'i gwmmi, a fo fyddai'n mynd ag ef yn y car gyda'i ferch i Gaerdydd i wneud rhaglen deledu, ac yntau bryd hynny oddeutu deg a phedwarugain mlwydd oed. Disgrifiodd ef fel dyn 'rhadlon, braf; hen greadur annwyl iawn, a di-wenwyn - ond weithie, pan aech chi i mhela'i ganeuon o!' Mewn sgwrs a recordiwyd ar dâp gan D Roy Saer, o Amgueddfa Werin Cymru, gwnaeth Emrys sylwadau diddorol wrth gymharu'r ddau ganwr gwerin: John Thomas, Maes-y-fedw, a Bob Tai'r Felin:

'Wel, dau gymeriad arbennig iawn... Un dipyn mwy aristocrataidd na'r llall. Yr hen Bob Roberts yn wfftio weithie at John Thomas - at y caneuon fydde fo'n 'u canu: "Bydd ddistaw, John; bydd ddistaw, John". A fydde Bob, hwyrach, faswn i'n deud, yn tueddu fwy at y caneuon gwerin, a'r hen John wedyn yn fwy o faledwr. Ond roedden nhw'n asiad perffaith pan o'n nhw'n canu...'



DRS: 'Oedd 'na dipyn o wahaniaeth rhwng eu dull perfformio nhw?'

'O, oedd. Fwaswn i'n deud bod yr hen John Thomas yn fwy gwerinol. Oedd 'i olwg o, chi'n gweld, oedd o ar y llwyfan mewn clôs pen-glin a legins - legins brethyn - a'i ddwylo ym mhocedi'i glôs, bob amser. A wedyn, oedd dull gwahanol gan yr hen Bob Roberts. Ym aml iawn, oedd 'i ddwylo tu nôl - wedi'u rhoi nhw dan 'i gôt, dyna sut bydde fo'n canu. A wedyn mi ddôl nôl a mi wnâi gydio yn 'i gôt yn y tu blaen, yndê, 'i ddwy law felne. Fydde fo'n naturiol tu hwnt hefyd, a'i lais o'n atseinio.'

DRS: 'A be am natur y caneuon fydde nhw'n 'u canu? Oedd y ddau yn dueddol o ganu pethau lleddf, ynte pethau llon...?'

'O, yn y llon fydden nhw'n canu... Dwi ddim yn meddwl imi erioed, glywed yr hen John Thomas yn trio un yn y lleddf. Ond fydde Bob Roberts weithie. Ond llon fydden nhw'n mynd. Fydden anodd iawn i neb gadw cyngerdd hebddyn nhw. Fydden nhw'n dwyn y llwyfan oddi ar bawb. Oedd neb tebyg iddyn nhw...'

DRS: 'A be am y lleisiau wedyn, sut o'n nhw'n cymharu?'

'Wel, yr hen Bob Roberts oedd gan y llais gore. Oedd o 'di bod yn canu solos yn 'i ddyddie cynnar... Oedd 'na gôr meibion hefyd yng Nghwm Tirmynach, gan Watcyn o Feirion, a Bob Tai'r Felin oedd un o'r prif denoriaid yn y côr hwnnw.' <sup>16</sup>

### **'Yr Hen Fwthyn Cymreig' a 'Chân yr Eira Gwyn'; 'Y Lleuen', 'Y Saer a'r Teiliwr', a 'Bugail Hafod y Cwm'**

Y mae'n eitha posibl i Bob Roberts, Tai'r Felin, gael rhai caneuon gan Robert Roberts (Gwaenfab), taid Emrys Jones. Ymhlith papurau a chasgliadau ei daid y cafodd yr ŵyr hyd i'r gân a elwir ganddo 'Yr Hen Fwthyn Cymreig' ('Wel, dyma'r hen dŷ rwy'n ei garu...'). Canai Bob Roberts y gân hon hefyd.

Dyma air byr yn awr am dair cân, dra gwahanol i'w gilydd, y clywodd Emrys hwy gan gyfeillion o Uwchaled a'r cyffiniau. 'Cân yr Eira Gwyn' yw un ohonynt. ('O, ienctid teg a hawddgar...' a'r gytgan: 'Eira gwyn, eira gwyn / Am olchi'n haml feiau / Yn lân fel eira gwyn'). Clywodd y gân hyfryd hon gan Dafydd Evans, Y Brithdir, Betws Gwerful Goch, tua diwedd y pumdegau, er iddo gael 'crap' arni cyn hynny.

Dewisodd hi ar gyfer cystadleuaeth y gân werin un tro mewn eisteddfod a chael ei gollfarnu gan y beirniad. Dywedodd nad oedd yn 'gân draddodiadol', gan gyfeirio at drefniant Haydn Morris ohoni.

'Cân y Lluen' yw'r ail. Y mae'n canu dwy fersiwn, ac un ohonynt yn lled gyfarwydd: 'Ar y ffordd wrth fynd i Lunden / Cyfarfûm â theiliwr llawen...'. Clywodd y fersiwn hon gyntaf yn cael ei chanu droeon gan Thomas Jones, Llandegla, yng nghinio blynyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Yr un yw'r geiriau, mwy neu lai, yn yr ail fersiwn, ond y llinell agoriadol yw: 'Ar y ffordd i Ddyffryn Clwyd...' 'Y Lleuen' yw enw'r alaw. Cafodd y gân gan John Price Jones, Fferm Rhydywernen, Cwm Main. Cafodd yntau hi gan John Rowlands, Pen 'Rallt, Cwm Main, amaethwr a gŵr oedd yn 'medru dawnsio step y gloesen... ac yn canu offerynnau hefyd'.<sup>17</sup> Dyma'r fersiwn y dewisodd Emrys ei chanu yng nghystadleuaeth y gân werin yn Eisteddfod Caernarfon (1959). Ni chafodd lwyfan oherwydd, ym marn y beirniad, Emrys Cleaver, nid oedd y gân yn un 'weddus'. Sylw'r cantor o Langwm oedd: 'O'n i ddim yn cydweld, ond, dyna fo, fo oedd yn beirniadu y diwrnod hwnnw'.<sup>18</sup>

'Y Saer a'r Teiliwr' yw teitl y drydedd gân, a 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' yw'r alaw ('Ni fu cenfigen dan fy mron, / Na gwenwyn at 'run gweithiwr, / Nes mynd i weithio i Dan-y-fron / 'Run pryd â Siôn y Teiliwr...'). Bu'r gerdd hon, o waith Thomas Jones (Taliesin o Eifion), yn boblogaidd iawn, yn arbennig ymhlith gweision ffermydd, ac yn enwedig rhai llinellau ohoni, megis y rhain yn mynegi cŵyn y saer:

Lwmp o facwn melyn bras  
I mi, y gwas a'r dyrnwr,  
Hwyaden a phys gleision neis  
A phwdin reis i'r teiliwr.

Wrth ddarlithio ar ganu gwerin y bu Emrys Jones yn canu'r gerdd hon amlaf.<sup>19</sup>

Un o'i hoff ganeuon yw 'Bugail Hafod y Cwm', y geiriau gan Thomas David Thomas (Glan Padarn), a'r gerddoriaeth gan D Parry, Llanrwst ('Myfi yw Bugail Hafod y Cwm...'). Y mae'r gân hon yn gwbl unol ag anian a diddordebau'r canwr o

Langwm, a dyma'r gân a gyflwynwyd ganddo yng Ngŵyl Werin Dolgellau (1965). Daeth i'r llwyfan mewn gwisg ffermwr, gyda'i gi, ffon bugail, ac oen bach o dan ei gesail. Y mae'n enghraifft deg ohono'n ceisio torri'n rhydd o unrhyw hualau llwyfan, a'i gred y dylid cyflwyno cân werin - unrhyw gân, yn wir - mewn awyrgylch mor naturiol a dilys ag sydd bosibl, a chyflwyno'r gân honno yn ddiddorol ac yn ddiffuant.

### **'Ambell i Gân': caneuon gwerin a hen gerddi**

Yn dilyn, dyma restr o ganeuon eraill y bu Emrys Jones yn eu canu, rhai ohonynt, wrth gwrs, yn amlach na'i gilydd.

- 1 'Mari Fach fy Nghariad... o Hafod y Rhiw' ('Rhyw greadur bach o ffarmwr ydwyf...')
- 2 'Wrth Fynd Efo Deio i Dywyn'
- 3 'Ambell i Gân' ('Ambell i gân a geidw fy mron / Rhag suddo i lawr tan aml i don...')
- 4 'Mae Nghariad i'n Fenws'
- 5 'Yr Hen Ferchetan' ('Hen ferchetan wedi colli'i chariad...')
- 6 'Peth Braf Ydi Swllt'
- 7 'Ddaw hi Ddim' (cân yr arferid ei chanu yng Nghyfarfod y Bugeiliaid yn Nhafarn Bryntrillyn, ar Fynydd Hiraethog). Canodd Emrys hi ychydig droeon.
- 8 'Tri pheth sy'n hawdd eu cofio...'
- 9 'Gwn Dafydd Ifan'
- 10 'Ffarwel i Blwyf Llangywer'
- 11 'Y Ddau Blisman' (Deuawd gyda Cadwaladr Davies, Tŷ Tan Dderwen, Dinmael.)
- 12 'Yr Arad Goch'
- 13 'Hen Rebel Fel Fi'
- 14 'Gwenno Fwyn'
- 15 'Castiau Gwraig' (Cenir eitemau 12-15 gan Emrys ar ddisgiau (45), gan Gwmni Snell: 'Caneuon Noson Lawen'.)
- 16 'Cŵyn Mam yng Nghyfraith'

- 17 'Roedd Beti fy nghariad yn lodes fach lân...' Un o ganeuon John Thomas oedd hon. Cyfeirir ynddi at 'Bandy'r Glyn', ac y mae'n bosibl mai pandy Glyn Diffwys, rhwng Tŷ Nant a Dinmael oedd hwn.

### **Ar gof a chadw: caneuon a cherddi i'w trysori**

Cofnodwyd geiriau rhai ugeiniau o ganeuon gan Emrys Jones yn ei lawysgrifen mewn dau lyfr o'i eiddo. Dyma restr o rai o'r caneuon hyn - caneuon yr oedd ganddo ddigon o ddiddordeb ynddynt i'w cofnodi (a'u dysgu, hefyd, gan amlaf), ond na fu, o angenrheidrwydd, yn eu canu ar lwyfan.

- 1 'Yr Hen Aelwyd Gymreig' ('Yng Nghymru fach lân mae cartref y gân, / Crwth, telyn a diddan aelwydydd...')
- 2 'Colli ei Hun' ('Aeth Rodric yr Hafod i Gorwen i'r ffair / A llosgi'n ei boced roedd cyflog Gŵyl Fair...' Cytgan: 'A cholodd ei hun...' Mae blas lleol ar y gerdd hon. Dyma linellau cyntaf penillion 2-4: 'Aeth Siwsan y Twmpath i'r ffair efo'i mam...'; 'I Steddfod Llandderfel aeth Robin y Bardd'; 'I gyngerdd Llawrbetws aeth Rhys Ty'n-y-maen...')
- 3 'Cwyd dy Galon' ('Un frân ddu, daw anlwc eto...')
- 4 'Yr Hen Lanc' ('Mae pawb yn chwèrthin am fy mhen...')
- 5 'Rwy'n cofio nhad nos Sadwrn tâl / Yn dod â'i gyflog prin...'
- 6 'Hen Frenin y Fron' ('A glywsoch chwi hanes hen Frenin y Fron...?')
- 7 'Y Wasgod Goch' ('Fel yr oeddwn yn fy ngwely...')
- 8 'Y Lleuad Wen' ('Mae llawer o siarad yn bod dan y nen / Am faith ryfeddodau yr hen leuad wen...') Clywodd y gân hon a'r 'Wasgod Goch' gan Robert Pierce Roberts, Llanddulas.<sup>11</sup>
- 9 'Y Cybydd a'i Dduw', gan Treflyn. ('Ti gybydd truan ar dy rawd...')
- 10 'Hel Calennig' ('Mi godais heddiw'n fore...')
- 11 'Hel Bwyd Cennad y Meirw'

Dydd da ichwi heddiw / Bwyd cennad y meirw,  
Da gês i yma / Flwyddyn i heddiw

Clywodd y pennill hwn gan Sali Vaughan Evans, Betws Gwerful Goch. Fe'i cofnodwyd hefyd gan Hugh Evans yn Cwm Eithin.

- 12 'Yr Hen Gerddor', D Pughe Evans, geiriau gan Myfyr Emlyn ('Hen ŵr eisteddai wrth y tân...')
- 13 'Galwad y Tywysog', John Henry, geiriau gan Mynyddog ('Wele'r Tywysog ar Bumlumon...')
- 14 'Y Bugail', Wilfred Jones, geiriau gan Barlwydon ('Fe dreuliais fy nyddiau...')
- 15 'Y Ddau Faban' ('Ganwyd dau faban ar fore braf...' - un i 'fam ar lan Afon Thames' ac un i 'fam ar lan Afon Rhein'.)

### **Emynau a chaneuon crefyddol**

Fel y gellid disgwyl, canodd Emrys a Chôr Cerdd Dant Cwm Eithin nifer o emynau a chaneuon crefyddol yn gyhoeddus. Cyfeiriwyd at rai eisoes, er enghraifft: emyn George Rees, 'O, Fab y Dyn...'; 'Yr Adnod Fach', J J Williams; 'Ar Wyl Ddiolchgarwch', R Ithel Williams, a 'Simon, Mab Jona', I D Hooson. Dyma rai enghreifftiau ychwanegol:

- 1 'Cof am y cyfiawn Iesu', William Lewis
- 2 'Tydi a Roddaist', T Rowland Hughes, alaw 'Y Waedd'
- 3 'Carol Nadolig', Emrys Jones ('Doethion ddaethant â'u hanrhegion...'), ar 'Troyte' neu 'Lausanne'
- 4 'Carol Nadolig', Geraint Easter Ellis ('Ganwyd brenin teilwng inni...'), ar 'Troyte'
- 5 'Ar y Ddaear Tangnefedd', J R Jones ('Disgynnodd i ganol drygioni ein byd...'), alaw 'Arfon'
- 6 'Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw...', Edmwnd Prys
- 7 'Duw a thad yr holl genhedloedd...', D Tecwyn Evans
- 8 'Pwy â'm dwg i'r ddinas gadarn...', Moelwyn, alaw 'Blaenhafren'
- 9 Rhan o awdl 'Iesu o Nasareth', Dyfed, alaw 'Eryri Wen'

## Cerdd dant: detholiad o ganeuon

Cyfeiriwyd eisoes hwnt ac yma yn y gyfrol, ac ar ddechrau'r bennod hon, at nifer o ganeuon y bu Emrys yn eu 'canu gyda'r tannau'. Ymhlith y ffefrynnau eraill gellid nodi: 'Yr Hen Glochydd', Percy Hughes, alaw 'Blaenhafren' ('Bu'n dringo coed y grisiau / Ar lawer bore Sul...'), a cherdd R H Jones, Tal-y-cefn Uchaf, Pentrellyncymer: 'O Ben Hiraethog Draw', alaw 'Clychau'r Cantre' ('Mi welais Afon Clwyd / Yn cychwyn ar ei thaith...').

I gloi'r bennod hon rhestrir y caneuon a gofnodwyd gan Emrys Jones yn un o'r ddau lyfr o'i eiddo (172 tudalen). Caneuon cerdd dant yw'r rhain, yn bennaf. Canwyd amryw ohonynt gan Emrys ar ei ben ei hun (er enghraifft, rhifau 12, 13, 18, 33-5, 37-40 isod). Canwyd eraill ganddo fel aelod o ddeuawd neu driawd, a chanwyd nifer helaeth ohonynt gan Gôr Cerdd Dant Cwm Eithin. Canwyd rhai o'r cerddi gan y Côr a chan Emrys ar ei ben ei hun. Rhestrir y cerddi yn ôl trefn eu cofnodi yn y llyfr ond, fel arfer, ni chynhwysir y caneuon y cyfeiriwyd atynt eisoes yn y gyfrol hon.

- 1 'Beto Siân', alaw 'Alarch' ('Mewn bwth to gwellt is gallt o goed... / Yn eneth bedwar ugain oed / Preswyliai Beto Siân...')
- 2 'Weindio'r Cloc', alaw 'Llwyn Onn' (yn y lleddf) ('Bob nos Sadwrn rwyf yn weindio / Yr hen gloc yn olaf dim...')
- 3 'Y Nhw', alaw 'Cadair Idris' ('Mae llawer o chwedlau yn myned trwy'r wlad / Na fyddai eu coelio o nemawr lesâd...')
- 4 'Englynon Coffa Pat O' Brian', Iorwerth Lloyd, alaw 'Mwynen Môn' ('Wele ffrind annwyl a ffraeth...')
- 5 Rhan o awdl 'Y Bugail', Eifion Wyn, alaw 'Moel yr Wyddfa' ('Bugail ydyw, mab gwladaidd...')
- 6 Rhan o awdl 'Yr Hydref', Rolant o Fôn, alaw 'Hafren' ('Llawnaf llan, llymaff llannerch...')
- 7 'Cloch Fawr Cologne', alaw 'Difyrrwch Gwŷr Hirwaun' ('Dowch, dowch i addoli / Medd cloch fawr Cologne...')



- 8 'Trawsfynydd', Absalom Roberts, alaw 'Mantell Siani' ('Mi hoffais Wynedd berffaith gain...')
- 9 'Gwenfron a Mi', Hedd Wyn ('Cyd-gerdded wnâi Gwenfron a minnau un tro...')
- 10 'Y Llong Aur', Crwys, alaw 'Merch Megan' ('Mae'n hwyr, mae'n hwyr yn dod...')
- 11 'Teulu Abram Wood', Richard Hughes, alaw 'Gwenynen Gwent' ('Gwag oedd y chwarel neithiwr / A'r clociau yn taro naw...')
- 12 'Golygfa o Ben Cadair Dinmael', Enoc Evans, Y Ddwryd ('O ben Cadair Dinmael chwi welwch Fryn-maen...'). Rhestrir llu mawr o enwau tai a ffermydd y cylch yn y gerdd hon. Fe'i canwyd gan Emrys ryw unwaith neu ddwy ar 'groes-acen'.
